Adroddiad ar arolygiad dirybudd

# Uned Pobl Ifanc

# yn

# CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

**16–26 Hydref 2017**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gyda chymorth gan gydweithwyr yn y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac mewn partneriaeth â'r cyrff canlynol:

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn, gan eithrio'r logos, o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu i: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Clive House
5th floor
70 Petty France
Llundain
SW1H 9EX
Lloegr

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 7 |
| Tudalen ffeithiau | 9 |
| Ynglŷn â'r arolygiad a'r adroddiad hwn | 11 |
| Crynodeb | 15 |
| Adran 1. Diogelwch | 23 |
| Adran 2. Parch | 35 |
| Adran 3. Gweithgarwch pwrpasol | 45 |
| Adran 4. Ailsefydlu | 51 |
| Adran 5. Crynodeb o argymhellion ac arfer da | 59 |
| Adran 6. Atodiadau | 63 |
| Atodiad I: Y tîm arolygu | 63 |
| Atodiad II: Cynnydd ar argymhellion o'r adroddiad diwethaf | 65 |
| Atodiad III: Proffil poblogaeth y sefydliad | 71 |
| Atodiad IV: Crynodeb o holiaduron a chyfweliadau'r plant a phobl ifanc | 73 |

**Geirfa**

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor eglur â phosibl, ond os gwelwch dermau nad ydych yn gyfarwydd â nhw, gweler yr eirfa yn ein 'Guide for writing inspection reports' ar ein gwefan ar: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

# Cyflwyniad

Fel uned ar wahân o fewn carchar ehangach y Parc ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, De Cymru, mae uned fach pobl ifanc y Parc yn cael ei reoli gan y cwmni preifat G4S ac yn dal tua 60 o fechgyn o dan 18 oed. Yn unol â'r holl sefydliadau carcharu sy'n dal pobl ifanc, mae'r uned pobl ifanc yn cael ei harolygu'n flynyddol.

Yn y gorffennol, rydym yn aml wedi adrodd yn bositif iawn ynglŷn ag uned pobl ifanc y Parc, er ein bod wedi'n siomi o weld rhywfaint o ddirywiad yn ystod ein hymweliad diwethaf, gyda'r sefydliad yn dod yn llai diogel ac yn dangos llai o barch. Fodd bynnag, yn yr arolygiad hwn, roedd yn eglur i ni fod y dirywiad o dan reolaeth o ganlyniad i arweinyddiaeth dda a grŵp o staff wedi'u hail-fywiogi, ac yn wir roedd gwelliant arwyddocaol iawn i'w weld.

Mae diogelwch mewn sefydliadau sy'n dal pobl ifanc yn her allweddol bob amser. Roedd nifer yr achosion o drais a gofnodwyd, er yn llai, yn parhau i fod yn rhy uchel. Yn ein harolwg, roedd dal angen rhoi sylw i ganfyddiadau negyddol bechgyn o erledigaeth a'u diogelwch eu hunain, ond roedd y dystiolaeth yn nodi'n eglur bod gwelliant yn y rhan fwyaf o agweddau o ddiogelwch. Roedd bechgyn yn cael eu derbyn yn dda a'u hymsefydlu'n gywir, roedd gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant yn fwy cadarn ac roedd y gofal ar gyfer y rhai hynny mewn perygl o hunan-niweidio yn llawer gwell. Roedd yr unedau wedi'u trefnu'n dda bellach ac roedd staff yn goruchwylio'r bechgyn gyda llawer mwy o hyder. Roedd y trefniadau rheoli ymddygiad wedi'u hadolygu'n gywir ac roedd mwy o bwyslais ar ysgogi'n hytrach na sancsiynau bellach. Roedd diogelwch yn gymesur ac roedd y defnydd o rym yn cael ei reoli'n well a'i ddefnyddio'n unol â thechnegau diwygiedig a mwy priodol.

Roedd glanweithdra ar yr unedau wedi gwella ac roedd mynediad i adnoddau a chyfleusterau'n dda. Roedd y staff a'r rheolwyr yn llawer mwy amlwg ac roedd y rhyngweithio a arsylwom yn dda. Yn bwysig, roedd ymddygiad gwael yn cael ei herio'n gywir ac yn gyson. Roedd ymgynghori â'r bechgyn yn gwella ond roedd angen gwneud mwy i hybu cydraddoldeb, a oedd yn parhau i fod yn wan. Gallai'r bechgyn fwyta'n gymunedol mewn awyrgylch trefnus, er nad oedd y bwyd ei hun yn boblogaidd. Dywedodd y bechgyn wrthym fod ganddynt hyder yn y gweithdrefnau cwyno a cheisiadau.

Roedd y bechgyn yn treulio cryn dipyn o amser allan o'u celloedd ac roedd y ddarpariaeth addysg a gweithgareddau wedi gwella'n amlwg. Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn dangos cynnydd mewn addysg ac yn datblygu sgiliau defnyddiol a throsglwyddadwy. Roedd y carchar wedi rhoi llai o bwyslais ar wella'r ddarpariaeth ailsefydlu ond roedd hyn yn ddealladwy o ran trefn y blaenoriaethau, ac roedd y deilliannau cyffredinol yn parhau i fod yn weddol dda.

I gloi, mae hwn yn adroddiad da. Roedd yn dda gweld bod cymaint o'n hargymhellion blaenorol wedi cael sylw, a oedd er clod mawr i'r cyfarwyddwr a'i staff hi, a oedd yn amlwg wedi gweithio'n galed iawn. Gwelwyd rhai dulliau creadigol a gofalgar iawn yn y gwaith y bûm yn ei arolygu ac rydym wedi cyfeirio at sawl enghraifft o arfer da.Roedd staff wedi'u hyfforddi'n dda, yn ymroddedig ac yn hyderus, ac roedd yn eglur i ni bod sylfaen gadarn ar waith ar gyfer cynnydd pellach fyth.

**Peter Clarke CVO OBE QPM** Rhagfyr 2017
Prif Arolygydd Carchardai EM

# Tudalen ffeithiau

**Tasg y sefydliad**
Uned pobl ifanc o fewn carchar hyfforddi categori B ar gyfer carcharorion gwrywaidd 18 oed neu hŷn.

**Statws y sefydliad**
Preifat - G4S Central Government Services

**Rhanbarth**
Cymru a de-orllewin Lloegr

**Nifer a ddelir**
43

**Llety ardystiedig arferol**
64

**Capasiti gweithredol**
60

**Dyddiad yr arolygiad llawn diwethaf**
5–16 Rhagfyr 2016

**Hanes cryno**
Agorwyd yr uned pobl ifanc yng CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym mis Mawrth 2002 fel cyfleuster 28 ystafell ar gyfer pobl ifanc 15 i 18 oed ar remánd yn unig. Ym mis Hydref 2004, ehangwyd yr uned i ddal 36 o bobl ifanc 15 i 18 oed, naill ai ar remánd neu wedi'u dedfrydu, gydag estyniad pellach ym mis Chwefror 2007 ar gyfer 64 o bobl ifanc. Ym mis Mawrth 2013, estynnwyd dalgylch llys yr uned o Gymru i gynnwys de-orllewin Lloegr, o Ddyfnaint a Chernyw i ffin Dorset. Ym mis Ebrill 2014, ehangwyd dalgylch y llys ymhellach i gynnwys Bryste, Swindon a Wiltshire.

**Disgrifiad byr o'r unedau preswyl**
Mae uned G1 yn dal hyd at 36 o bobl ifanc ac mae E1 yn dal hyd at 24 o bobl ifanc, gyda chymysgedd o bobl ifanc wedi'u dedfrydu ac ar remánd yn y ddwy.

**Enw'r cyfarwyddwr**
Janet Wallsgrove

**Contractwr hebrwng**
GEOAmey

**Darparwr gwasanaethau iechyd**
G4S Health Services UK Ltd

**Darparwyr dysgu a sgiliau**
G4S

**Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol**
Jean Davies

# Ynglŷn â'r arolygiad a'r adroddiad hwn

A1 Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn sefydliad statudol, annibynnol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai hynny sydd wedi'u dal mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, cyfleusterau cadw mewnfudwyr a dalfeydd yr heddlu.

A2 Mae pob arolygiad a gynhelir gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Yn ôl OPCAT mae'n ofynnol bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob dalfa – a adnabyddir fel y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) – sy'n monitro triniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn un o sawl corff sy'n rhan o'r NPM yn y DU.

A3 Mae pob un o adroddiadau'r Arolygiaeth Carchardai EM yn cynnwys crynodeb o berfformiad sefydliad yn erbyn y model carchar iach. Y pedwar prawf carchar iach yw:

**Diogelwch** bod plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel

**Parch** bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch i'w hurddas dynol

**Gweithgarwch pwrpasol** bod plant a phobl ifanc yn gallu, a disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt

**Ailsefydlu** bob plant a phobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned ac yn cael cymorth i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu.

A4 O dan bob prawf, rydym yn asesu'r deilliannau i blant a phobl ifanc ac felly o berfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mewn rhai achosion, effeithir ar y perfformiad hwn gan faterion sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad, lle bydd angen sylw'n genedlaethol.

- **mae'r deilliannau i blant a phobl ifanc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y deilliannau i blant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw faes pwysig.

- **mae'r deilliannau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Mae tystiolaeth o ddeilliannau andwyol i blant a phobl ifanc mewn nifer fach o feysydd yn unig. Yn achos y mwyafrif, nid oes pryderon mawr. Mae gweithdrefnau i ddiogelu deilliannau ar waith.

- **nid yw'r deilliannau i blant a phobl ifanc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Mae tystiolaeth bod y deilliannau i blant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn sawl maes neu'n benodol yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i'w lles.- Mae problemau/pryderon, os na chânt sylw, yn debygol o ddatblygu i fod yn feysydd o bryder difrifol.

- **mae'r deilliannau i blant a phobl ifanc yn wael yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Mae tystiolaeth bod y deilliannau i blant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan yr arferion presennol. Mae'r carchar yn methu â sicrhau bod hyd yn oed triniaeth a/neu amodau digonol i'r plant a'r pobl ifanc. Mae angen cymryd camau ar unwaith i gywiro hyn.

A5 Gall ein hasesiadau arwain at un o'r canlynol:

- **argymhellion**: bydd angen newid sylweddol a/neu adnoddau newydd neu wedi'u hailgyfeirio, fel na fydd modd eu cyflawni ar unwaith, ac a fydd yn cael eu hadolygu ar gyfer eu gweithredu mewn arolygiadau yn y dyfodol

- **enghreifftiau o arfer da**: arferion canmoladwy sydd nid yn unig yn cyrraedd neu'n rhagori ar ein disgwyliadau, ond y gallai sefydliadau tebyg eraill eu dilyn i gyflawni deilliannau positif i blant a phobl ifanc.

A6 Mae arolygwyr yn defnyddio pum prif ffynhonnell o dystiolaeth: arsylwi; arolygon plant a phobl ifanc; trafodaethau â'r plant a'r pobl ifanc; trafodaethau â'r staff a'r trydydd partïon perthnasol; a dogfennaeth. Yn ystod arolygiadau rydym yn defnyddio ymagwedd dull cymysg tuag at gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau'n cael ei gwneud yn deironglog i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

A7 Ers Ebrill 2013, mae ein holl arolygiadau wedi bod yn ddirybudd, heblaw mewn amgylchiadau neilltuol. Mae hyn yn disodli'r system flaenorol o brif arolygiadau llawn â rhybudd a dirybudd gydag arolygiadau dilynol llawn neu fyr i adolygu cynnydd. Mae ein holl arolygiadau bellach yn edrych ar argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf.

A8 Cynhelir pob arolygiad o garchardai ar y cyd ag Ofsted neu Estyn (Cymru), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ac Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi ymweliadau arolygu niferus.

# Yr adroddiad hwn

A9 Dilynir yr esboniad hwn o'n dull gan grynodeb o ganfyddiadau ein harolygiad yn erbyn y pedwar prawf o garchar iach. Dilynir hyn gan bedair adran sydd i gyd yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein *Disgwyliadau. Meini prawf ar gyfer asesu sut y trinnir plant a phobl ifanc ac amodau byw mewn carchardai*. Mae'r cyfeirnodau ar ddiwedd rhai argymhellion yn dangos eu bod yn cael eu hailadrodd, ac yn rhoi lleoliad paragraff yr argymhelliad blaenorol yn yr adroddiad diwethaf. Mae Adran 5 yn coladu'r holl argymhellion a'r enghreifftiau o arfer da sy'n deillio o'r arolygiad. Mae Atodiad II yn rhestru'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol, ac a ydynt wedi'u cyflawni'n ôl ein hasesiad ni.

A10 Ceir manylion am y tîm arolygu a phroffil poblogaeth y sefydliad yn Atodiadau I a III yn y drefn honno.

A11 Mae canfyddiadau arolwg barn y plant a'r bobl ifanc a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg i'w gweld yn Atodiad IV yr adroddiad hwn. Noder ein bod yn cyfeirio at gymarebau â

sefydliadau cymaradwy neu arolygon blaenorol eraill pan fydd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol yn unig .[1]

[1] Gosodir y lefel arwyddocâd ar 0.01, sy'n golygu nad oes ond siawns o 1% bod y gwahaniaeth mewn canlyniadau i'w briodoli i hap a damwain.

# Crynodeb

## Diogelwch

***S1*** *Roedd arweinwyr a rheolwyr wedi gweithio i wella diogelwch ac roedd nifer yr achosion o drais ac ymladd wedi dechrau lleihau. Fodd bynnag, roedd gormod o fechgyn yn adrodd eu bod yn destun erledigaeth gan eraill neu'n teimlo'n anniogel, ac roedd lefelau trais yn parhau i fod uchel. Roedd profiadau dyddiau cynnar y bechgyn yn parhau i fod yn dda. Roedd trefniadau diogelu ac amddiffyn plant wedi gwella, ac roedd y gefnogaeth ar gyfer plant mewn perygl o hunan-niweidio'n dda yn gyffredinol. Roedd amrywiaeth o fentrau i hybu ymddygiad positif wedi'u cyflwyno ac yn dechrau bod yn effeithiol. Roedd llywodraethu'r defnydd o rym wedi gwella. Roedd y defnydd o wahanu'n parhau i fod yn isel sydd i'w ganmol, ac nid oedd unrhyw fechgyn yn hunan wahanu'n ystod yr arolygiad. Roedd diogelwch yn gymesur, ac roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n parhau i fod yn dda.* ***Roedd deilliannau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.***

S2 *Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2016, canfuwyd gennym nad oedd y deilliannau i blant a phobl ifanc y Parc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 16 o argymhellion am ddiogelwch. Yn yr arolygiad dilynol hwn, canfuwyd gennym fod naw o'r argymhellion wedi'u cyflawni, roedd tri wedi'u cyflawni'n rhannol ac nid oedd pedwar wedi'u cyflawni.*

S3 Roedd nifer o fechgyn yn parhau i gyrraedd y Parc yn hwyr gyda'r nos yn dilyn oedi gormodol yn y llys a thaith hir. Roedd y broses dderbyn yn cael ei chwblhau'n brydlon ar yr uned, gydag ystyriaeth dda o risg, ac roedd yn dda'n gyffredinol. Roedd y broses ymsefydlu'n dal i fod yn drawiadol ac yn arfer da.

S4 Roedd adolygiad o ddiogelu ac amddiffyn plant ers yr arolygiad diwethaf wedi arwain at brosesau eglurach, mwy o atgyfeiriadau a dechrau proses o archwilio allanol ar rai meysydd ymarfer. Roedd goruchwylio atgyfeiriadau amddiffyn plant wedi gwella, ond canfuwyd gennym fod peth oedi mewn archwiliadau gan asiantaethau allanol. Nid oedd y bechgyn bob amser yn deall y rhesymau am yr oedi hyn, ac, o ganlyniad, mewn un achos roedd un bachgen wedi colli hyder yn y broses. Roedd ansawdd yr atgyfeiriadau ysgrifenedig yn rhy amrywiol, ac mewn rhai ohonynt, roedd gwybodaeth allweddol am statws y plentyn wedi'i hepgor.

S5 Dywedodd bron dwy ran o dair o'r bechgyn a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi'u herlid gan eraill, a oedd yn ormod. Roedd amrywiaeth o fentrau i fynd i'r afael â bwlio a bygythiadau wedi'u cyflwyno ers yr arolygiad blaenorol. Roedd nifer y bechgyn oedd yn hunan wahanu wedi lleihau, ac roedd rheoli unigolion bellach yn sicrhau mynediad rhesymol i'r gyfundrefn.

S6 Roedd nifer yr achosion o hunan-niweidio'n parhau i fod yn gymharol uchel, ond roedd y rhan fwyaf yn lefel isel a oedd yn gysylltiedig â gweithredoedd o rwystredigaeth. Roedd y gofal i fechgyn mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed ar system rheoli achos asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) wedi gwella ac yn dda'n gyffredinol, ac roeddent yn gallu cael mynediad i'r gyfundrefn. Fodd bynnag, roedd arsylwadau a gofnodwyd yn rhy rhagweladwy.

S7 Roedd yr unedau'n drefnus iawn. Roedd prosesau rheoli ymddygiad wedi'u hadolygu ac roeddent bellach yn ysgogi bechgyn yn well ac yn annog ymddygiad positif. Arsylwom staff yn dangos cydbwysedd synhwyrol o amynedd a her wrth ddelio ag ymddygiad amhriodol, ac roedd rheolwyr yn aml ar gael i gynnig cefnogaeth ychwanegol ar adegau allweddol yn y gyfundrefn. Roedd y cynllun cymhellion yn cael ei reoli'n dda, ac roedd bechgyn ar bob lefel

yn cael mynediad da i sesiynau cyfundrefn a chyfoethogi. Roedd nifer y dyfarniadau wedi lleihau'n arbennig yn ystod 2017, gydag ychydig iawn o wrandawiadau wedi'u gohirio.

S8 Roedd gweithdrefnau diogelwch yn parhau'n gymesur â'r risgiau; roedd adroddiadau cudd-wybodaeth yn cael sylw'n brydlon. Roedd y defnydd o sylweddau anghyfreithlon yn parhau i fod yn isel, ac roedd mesurau lleihau'r cyflenwad ar gyfer yr uned yn parhau i fod yn effeithiol.

S9 Bu gostyngiad bach yn nifer yr ymosodiadau a'r achosion o ymladd a oedd yn gadarnhaol, ond roedd nifer yr achosion o drais yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o achosion yn lefel isel, ac roedd y staff yn ymyrryd yn brydlon er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Roedd y systemau ar gyfer cofnodi achosion o drais wedi'u hadolygu'n ddiweddar, a chyflwynwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd, ond roedd angen ei ddatblygu ymhellach.

S10 Roedd y defnydd o rym wedi lleihau ond roedd yn parhau i fod yn uchel ar gyfer uned o'r fath. Roedd system lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR), system ataliaeth a ddefnyddir ym mhob sefydliad troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel lle sy'n dal plant) wedi'i chyflwyno ac roedd yr uned bellach yn manteisio ar gyflwyno cydlynwyr MMRP llawn amser. Mewn nifer o achosion, defnyddiwyd MMPR i atal ac amddiffyn bechgyn a oedd yn rhan o achosion o ymladd neu ymosodiadau. Yn yr achosion a welsom, cafodd grym ei ddefnyddio'n briodol, yn aml trwy ddefnyddio rhwystrau tywys lefel isel. Roedd trefniadau goruchwylio a monitro wedi gwella ers i MMPR gael ei gyflwyno, ac roedd archwilio allanol wrthi'n cael ei weithredu.

S11 Roedd y defnydd o wahanu yn parhau i fod yn isel, a oedd yn glodwiw, ac roedd y gwaith goruchwylio'n briodol. Roedd goruchwylio bechgyn a oedd wedi'u gwahanu'n dilyn gwobr o weithdrefnau disgyblu'n cael ei reoli'n dda, ac roedd y cyfyngiadau ar gyfundrefn yr unigolyn y lleiaf posibl.

S12 Er gwaethaf prinder staff, roedd cefnogaeth seicogymdeithasol i fechgyn ag anghenion camddefnyddio sylweddau'n dda ac yn parhau wedi'i integreiddio'n dda gyda'r holl adrannau eraill. Gallai bechgyn gyrchu amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys lleihau niwed ac ymyriadau byr yn seiliedig ar anghenion unigol a rhywfaint o weithgarwch grŵp.

# Parch

***S13*** *Roedd celloedd a mannau cymunol yn lan ac wedi'u cyfarparu'n dda ond roedd celloedd dwbl yn parhau i fod yn gyfyng ac roedd toiledau wedi'u staenio'n ddrwg. Roedd perthynas staff a bechgyn wedi gwella ym mhob maes, ac roedd y rhan fwyaf o ryngweithio a welsom yn barchus, yn ofalgar ac yn effeithiol. Roedd trefniadau ymgynghori'n weddol dda. Er gwaethaf gwelliannau diweddar, parhaodd gwendidau arwyddocaol o ran rheoli gwaith cydraddoldeb. Roedd rheoli cwynion wedi gwella, ac roedd y ddarpariaeth gofal iechyd yn dda'n gyffredinol. Roedd y bwyd yn annymunol ond roedd y plant yn gallu bwyta'n gymunol ar gyfer pob pryd bwyd.* ***Roedd deilliannau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.***

*S14* *Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2016, canfuwyd gennym nad oedd deilliannau i blant a phobl ifanc y Parc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 15 o argymhellion am barch. Yn yr arolygiad dilynol hwn, canfuwyd gennym fod chwech o'r argymhellion wedi'u cyflawni, roedd pump wedi'u cyflawni'n rhannol, ac roedd pedwar heb eu cyflawni.*

S15 Roedd glendid gwell a lloriau oedd newydd eu gosod wedi gwella golwg y celloedd a'r mannau cymunedol. Roedd y rhan fwyaf o gelloedd yn llwm ond yn ddigonol, ond roedd celloedd dwbl yn rhy gyfyng ac roedd llawer o doiledau'n parhau i fod wedi'u staenio. Roedd clychau'r celloedd yn cael eu hateb yn brydlon, ac roedd dillad, tyweli a dillad gwely glân ar gael i'r bechgyn, yn ogystal â chyfarpar cymdeithasu oedd wedi'i wella'n sylweddol. Ar y cyfan, roedd ceisiadau'n cael eu rheoli'n brydlon trwy'r ciosgau gwybodaeth electronig, ac roedd ffonau yn y celloedd yn parhau i fod yn werthfawr iawn.

S16 Ers ein harolygiad diwethaf, roedd nifer o fentrau - gan gynnwys mwy o staff, arweinyddiaeth fwy amlwg a hyfforddi staff - wedi gwella'r berthynas rhwng staff yr adain a'r bechgyn ac roedd y rhyngweithio a arsylwyd gennym yn dda, ac eithrio nifer fach o achosion. Gwelsom staff yn herio ymddygiad gwael ac yn atgyfnerthu ymddygiad positif yn fwy cyson nag yn ein harolygiad diwethaf, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cofnodion y gweithwyr allweddol a'r gweithwyr achos. Roedd ymgynghori â'r bechgyn yn weddol dda, er bod rhai o'r gweithredoedd yn parhau i gymryd gormod o amser i'w datrys.

S17 Ni fu lawer o gynnydd o ran hybu a deall materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr uned, er bod adnoddau da ar gael yn y prif garchar. Nid oedd gan yr uned ymagwedd gadarn o ran nodi ac ymateb i faterion o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac anghyfartaledd posibl. O ganlyniad, nid oedd rheolwyr yn gallu deall neu ymdrin â chanfyddiadau o driniaeth wael ymhlith rhai grwpiau. Dim ond wyth cwyn a gafwyd ynglŷn â gwahaniaethu yn ystod y chwe mis blaenorol; roedd ymchwiliadau'n arwynebol ac nid oedd yr ymatebion bob amser yn cyflwyno eglurhad llawn y gallai'r bechgyn ei ddeall. Er hyn, roedd peth gwaith newydd yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn gan gynnwys, er enghraifft, grwpiau ymgynghori. Roedd y gaplaniaeth yn parhau i ddarparu gwasanaethau ffydd a chefnogaeth fugeiliol da ar gyfer y lleiafrif o blant oedd yn dilyn crefydd.

S18 Roedd sicrhau ansawdd y cwynion wedi gwella a dywedodd y bechgyn wrthym fod ganddynt fwy o hyder mewn defnyddio'r system cwynion. Roedd y tîm gwaith achos yn parhau i roi cefnogaeth briodol i'r bechgyn i ymarfer eu hawliau cyfreithiol.

S19 Roedd gwasanaethau iechyd yn dda ar y cyfan, ac roedd dwy nyrs ymroddedig ar gyfer yr uned bellach. Roedd y bechgyn yn gadarnhaol ynghylch ansawdd y gofal iechyd yn benodol. Roedd sgrinio iechyd y dderbynfa a'r sgrinio dilynol yn gynhwysfawr, a bellach yn cael ei gwblhau o fewn yr amseroedd a argymhellir. Roedd amrywiaeth briodol o wasanaethau gofal sylfaenol gydag argaeledd prydlon, er bod peth oedi o ran imiwneiddiadau. Roedd y broses o reoli meddyginiaethau'n effeithiol, ac roedd yr ystafell glinig ar yr uned yn briodol bellach. Roedd y ddarpariaeth ddeintyddol yn dda, gydag amseroedd aros byr a gwaith da o ran hyrwyddo iechyd y geg. Roedd y nyrs iechyd meddwl yn darparu gwasanaeth ymatebol a gofalgar. Er bod amrywiaeth yr ymyriadau wedi cynyddu, roedd angen mynediad gwell i'r tîm mewngymorth iechyd meddwl amlddisgyblaethol.

S20 Roedd amseroedd prydau bwyd yn drefnus ac, yn wahanol i unedau mewn mannau eraill, roedd yn gadarnhaol bod bechgyn yn gallu bwyta'u holl brydau bwyd fel cymuned. 8% o'r bechgyn yn unig a ddywedodd fod y bwyd yn dda, a chanfuwyd gennym fod rhywfaint ohono'n annymunol. Roedd y bechgyn yn gallu prynu amrywiaeth eang o nwyddau wedi'u prisio'n rhesymol o'r siop yn hawdd.

# Gweithgarwch pwrpasol

***S21*** *Roedd amser allan o'r gell yn rhagori ar ein disgwyliadau yn achos y rhan fwyaf o fechgyn yn y Parc. Roedd y carchar yn canolbwyntio ar sicrhau bod y bechgyn yn mynychu addysg yn gyson. Roedd y rheolaeth o ddysgu a sgiliau'n dda ac wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth. Roedd swyddogion ac athrawon yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac yn y rhan fwyaf o sesiynau roedd ymddygiad y bechgyn yn dda. Roedd lefelau cyrhaeddiad wedi gwella ac roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn gwneud cynnydd da mewn addysg. Roedd y ddarpariaeth Addysg Gorfforol yn dda iawn.* ***Roedd deilliannau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.***

*S22* *Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2016, canfuwyd gennym fod deilliannau i blant a phobl ifanc y Parc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom chwech o argymhellion am weithgarwch pwrpasol. Yn yr arolygiad dilynol hwn, canfuwyd gennym fod pump o'r argymhellion wedi'u cyflawni ac nid oedd un ohonynt yn berthnasol bellach.*

S23 Roedd yr uwch reolwyr wedi'u hymrwymo i sicrhau bod y bechgyn yn derbyn cyfundrefn barchus, gan gynnwys addysg, ymarfer corff a chymdeithasu gyda'r nos. Roedd amser y tu allan i'r gell yn well na safleoedd eraill ac yn rhagori ar ein disgwyliadau yn achos y rhan fwyaf o fechgyn. Canfuwyd gennym fod nifer fach o fechgyn yn unig wedi'u cloi yn eu cell yn ystod y diwrnod ysgol. Roedd hyn yn llawer gwell na sefydliadau tebyg, ac yn gyrhaeddiad arwyddocaol a oedd yn adlewyrchu rheolaeth synhwyrol o risg.

S24 Cafwyd ymrwymiad parhaus at ddarparu adnoddau a rheoli addysg, ac roedd mesurau effeithiol ar waith i fonitro'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod addysg yn cwrdd â'i thargedau. Roedd cynlluniau eglur ar waith o ran sicrhau cyllid ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth. Roedd arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth y farchnad lafur yn effeithiol i hysbysu cynllunio'r cwricwlwm. Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd defnyddiol a oedd yn sicrhau bod yr holl staff yn gweithio ar y cyd i gytuno ar gynllunio'r gefnogaeth sydd ei hangen i fechgyn unigol lwyddo.

S25 Roedd bechgyn yn cael eu neilltuo i addysg yn brydlon ac roeddent yn manteisio ar y cyfleoedd defnyddiol i samplu dysgu cyn gwneud eu dewis terfynol. Roedd athrawon mewn addysg yn rhannu gwybodaeth am anghenion sgiliau llythrennedd a rhifedd y bechgyn yn effeithiol, ac yn defnyddio hyn yn dda yn eu cynllunio. Roedd swyddogion ac athrawon yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi'r bechgyn yn eu haddysg. Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn ymddwyn yn dda mewn addysg ac roedd unrhyw achosion o amharu'n cael eu hymdrin yn rhagweithiol ac yn gyflym. Roedd y carchar wedi datblygu partneriaethau defnyddiol gyda sefydliadau lleol i ddarparu profiad gwaith ystyrlon i'r bechgyn, gyda chyfleoedd mewn un cwmni i'r bechgyn ddilyn prentisiaethau ar ôl eu rhyddhau. Fodd bynnag, nid oedd cyfleoedd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) yn cael eu defnyddio'n ddigonol.

S26 Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn derbyn addysg o ansawdd uchel, a oedd yn eu hymgysylltu'n dda mewn gweithgareddau dysgu pwrpasol a heriol. Roedd y cyfleusterau a'r adnoddau'n cwrdd ag anghenion y bechgyn yn dda ac yn darparu amgylchedd diogel ac ysgogol ar gyfer dysgu. Roedd gan y rhan fwyaf o fechgyn gynlluniau addysg unigol defnyddiol a oedd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gofnodi ac adolygu eu cynnydd a'u cyrhaeddiad. Roedd bron pob bachgen yn ymgymryd yn effeithiol mewn lleoliad misol, gan adolygu a monitro eu cynnydd tuag at gyflawni eu nodau yn yr holl agweddau o'u dysgu. Roedd bechgyn a oedd yn gwrthod mynychu addysg yn cael eu cefnogi'n dda i'w galluogi i gael mynediad i'r cwricwlwm a chymryd rhan mewn dosbarthiadau a gweithgareddau.

S27 Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn datblygu sgiliau a gwybodaeth defnyddiol roeddent yn gallu eu trosglwyddo i addysg bellach neu gyflogaeth. Roeddent yn cyflawni eu nodau dysgu ac yn ennill cymwysterau a thystysgrifau dysgu perthnasol. Roedd bron pob bachgen yn gwella ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac yn datblygu'r rhain yn dda mewn cyd-destunau galwedigaethol. Roedd cofnodion presenoldeb y rhan fwyaf o fechgyn yn dda ac roedd nifer ohonynt yn cyfranogi'n dda yn y dosbarth. Roedd cyfraddau llwyddo cyrhaeddiad wedi gwella.

S28 Roedd gan yr holl fechgyn fynediad da i lyfrgell a oedd ag adnoddau da ac yn cynnwys amrywiaeth ddigonol o lyfrau addas i'r oedran, gan gynnwys llyfrau Cymraeg, deunydd hygyrch ac adnoddau eraill.

S29 Roedd gan y bechgyn fynediad da iawn i gampfa oedd wedi'i chyfarparu'n dda ac roeddent wedi gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd dewisiadau byw'n iach.

# Ailsefydlu

***S30*** *Nid oedd y rheolaeth o ailsefydlu wedi newid lawer ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y gweithwyr achos yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion ymddygiad troseddol y bechgyn, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu mewn cyfarfodydd adolygu neu nodau cynllun hyfforddi. Er gwaethaf ymdrechion gweithwyr cymdeithasol y carchar, nid oedd plant sy'n derbyn gofal bob amser yn derbyn y gefnogaeth yr oedd ganddynt yr hawl i'w derbyn gan yr awdurdodau lleol. Roedd gwaith amddiffyn y cyhoedd yn dda. Roedd cynlluniau rhyddhau'n briodol yn gyffredinol, ac roedd cyflwyno'r model adfer trawma yn ddiweddar yn fenter ddiddorol. Nid oedd unrhyw ymyriadau i ymdrin ag ymddygiadau rhywiol niweidiol o hyd, a oedd yn bryder sylweddol. Roedd y gwaith teuluol yn dda.* ***Roedd deilliannau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.***

*S31 Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2016, canfuwyd gennym fod deilliannau i blant a phobl ifanc y Parc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 10 o argymhellion am ailsefydlu. Yn yr arolygiad dilynol hwn, canfuwyd gennym fod un o'r argymhellion wedi'i gyflawni, roedd pedwar wedi'u cyflawni'n rhannol ac nid oedd pump wedi'u cyflawni.*

S32 Nid oedd y rheolaeth o ailsefydlu wedi newid lawer ers yr arolygiad diwethaf. Roedd gwaith i ddatblygu'r ddarpariaeth yn dal i fod yn ei gyfnodau cynnar ac nid oedd wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd hyd yma. Roedd perthynas â phartneriaid allanol allweddol yn rhesymol ar lefelau strategol yn ogystal â gweithredol. Cynlluniwyd y trawsnewidiad o garchar bechgyn i oedolion mewn da bryd, ac roedd y gwaith hwn yn fwy cynhwysfawr i'r rhai hynny oedd yn symud i brif safle'r Parc. Nid oedd unrhyw fachgen wedi derbyn ROTL ers yr arolygiad diwethaf, ond roedd yr uned wedi sicrhau rhai lleoliadau ROTL ac roedd y bechgyn ar fin cael eu nodi i ymgymryd â'r rhain.

S33 Cafodd y bechgyn adolygiadau rheolaidd a mynediad i'w gweithwyr achos rhwng yr adolygiadau. Roedd y gweithwyr achos yn mynychu amrywiaeth o gyfarfodydd lle trafodwyd y bechgyn roeddent yn eu rheoli. Fodd bynnag, ac fel yn yr arolygiad diwethaf, hanner y bechgyn yn unig oedd yn ymwybodol bod ganddynt gynllun dedfryd neu remánd er eu bod yn derbyn copi o nodau eu cynllun dedfryd bellach. Ni ddefnyddiwyd y system rheoli achos electronig i gofnodi cyfarfodydd, a oedd yn atal rhannu gwybodaeth â phartneriaid allanol yn gyflawn. Nid oedd cofnodion y cyfarfodydd cynlluniau hyfforddi'n adlewyrchu dyfnder gwybodaeth y gweithiwr achos ynglŷn â'r bechgyn yn gyflawn, na chwaith y risgiau roeddent yn eu dangos, eu hymddygiad troseddol a thrafodaethau ynglŷn â'r rhain. Roedd presenoldeb

staff yr uned breswyl mewn cyfarfodydd adolygu yn well na'r hynny a welir gennym yn aml, ond nid oedd presenoldeb y staff eraill gystal.

S34 Roedd y gweithwyr achos yn nodi'r bechgyn hynny a fyddai'n debygol o fod yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) aml-asiantaeth ar ôl eu rhyddhau, ac roedd eu lefelau risg yn cael eu nodi mewn digon o amser cyn eu rhyddhau.

S35 Roedd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol am fwy na 70% o fechgyn y Parc. Roedd eu cefnogaeth yn anghyson, ond yn well ar gyfer y bechgyn dan orchymyn gofal llawn. Roedd y gefnogaeth gan yr uned yn dda, yn enwedig o ran cysylltu â gweithwyr cymdeithasol ar ran y plant.

S36 Roedd trefniadau ymarferol ar gyfer y diwrnod rhyddhau yn briodol. Roedd ymdrechion i wella deilliannau llety i fechgyn wedi arwain at rai canlyniadau da, ond nid oedd gan rai o'r bechgyn lety addas penodedig ar adeg eu hadolygiad terfynol. Gallai'r bechgyn gael mynediad i hyfforddiant mewn addysg ar gyfer rheoli cyllideb a chyllid sylfaenol, ac roeddent yn cael eu cefnogi i gael rhifau Yswiriant Cenedlaethol ac agor cyfrifon banc.

S37 Nid oedd gan y bechgyn fynediad da a chynnar i gyngor gyrfaoedd annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynllunio sut i ddefnyddio'u hamser yn y carchar mewn modd ymarferol. Roedd partneriaethau da gyda darparwyr lleol fel colegau yn dod i'r amlwg.

S38 Roedd trefniadau cyn rhyddhau a throsglwyddo'n dda yn achos bechgyn ag anghenion gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau.

S39 Roedd y gefnogaeth ar gael i fechgyn gynnal cyswllt teuluol yn parhau i fod yn dda, ac roedd y gweithiwr teuluol yn cynnig pwynt cyswllt effeithiol i deuluoedd. Roedd diwrnodau rheolaidd i'r teulu'n cael eu cynllunio'n feddylgar ac yn cael eu cefnogi gan staff o bob rhan o'r uned.

S40 Nid oedd ymyriadau ar gyfer bechgyn ag ymddygiadau rhywiol niweidiol o hyd, er bod bechgyn o'r fath yn parhau i gael eu gosod yn y Parc. Roedd bron yr holl waith ymyriadau arall yn cael ei gynnal ar sail un i un, ac roedd pontio'n digwydd yn dilyn cyflwyno'r model adfer trawma.[2]

## Prif bryderon ac argymhellion

**S41** **Pryder:** Yn ein harolwg, adroddodd 63% o fechgyn y Parc achosion o gael eu herlid gan blant eraill. Er bod lefelau trais y Parc wedi lleihau ers yr arolygiad diwethaf, roeddent yn parhau i fod yn rhy uchel.

**Argymhelliad: Dylai'r uwch reolwyr weithio i nodi a darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i helpu'r Parc i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o drais a'u lleihau'n gyson, tra'n parhau i ddarparu cyfundrefn lawn ac adeiladol i'r bechgyn o dan ei ofal.**

**S42** **Pryder:** Roedd y rheolaeth strategol o waith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn wan, ac nid oedd digon o ffocws ar y bechgyn yn yr uned. Nid oedd yr uwch reolwyr yn canolbwyntio ar bryderon a chanfyddiadau negyddol y bechgyn o gefndiroedd lleiafrifol.

**Argymhelliad: Dylid cynnal cyfarfod rheoli cydraddoldeb yn rheolaidd i sicrhau**

---

2 Mae'r model adfer trawma (TRM) (Skuse a Matthew, 2015) yn fodel cyfansawdd wedi'i seilio ar theorïau o ddatblygiad plant a'r ddealltwriaeth bresennol o ddatblygiad niwrofiolegol. Mae'n helpu ymarferwyr i ddeall yr anghenion seicolegol sy'n tanseilio ymddygiadau ac yn awgrymu'r mathau o ymyriadau sy'n ymdrin orau â'r anghenion hynny, sy'n caniatáu i staff deilwra a threfnu ymyriadau yn ôl yr unigolyn. Mae'r TRM yn canolbwyntio ar yr angen i ymgymryd â therapi perthynol sy'n helpu pobl ifanc i gyfryngu effaith trawma cyn bod ymyriadau gwybyddol yn gallu bod yn gwbl effeithiol.

**bod polisi, cynllunio ac ymgynghori'n effeithiol, bod canfyddiadau ac anghenion y bechgyn yn cael sylw, a bod data monitro cynhwysfawr yn cael eu hystyried.**

**S43** **Pryder:** Yn achos nifer fach o fechgyn yn yr uned, roedd ymddygiad rhywiol niweidiol yn llunio'u holl ymddygiad troseddol neu ran ohono ac nid oedd unrhyw ymyrraeth neu gefnogaeth benodol ar gael iddynt.

**Argymhelliad: Dylai Gwasanaeth Ieuenctid y Ddalfa a Llywodraeth Cymru weithio gyda G4S ar frys i ddynodi sut bydd ymyriadau addas yn cael eu gweithredu ar gyfer bechgyn sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn eu hanes o droseddu.**

# Adran 1. Diogelwch

## Llysoedd, gwasanaethau hebrwng a throsglwyddo

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo i'r sefydliad ac ohono yn cael eu trin yn ddiogel, yn barchus ac yn effeithlon.**

**1.1** Roedd nifer o garcharorion newydd yn parhau i gael teithiau hir yn yr un cludiant â'r oedolion. Roeddent hefyd yn dal i gyrraedd yn hwyr o ganlyniad i ddalgylch eang yr uned a/neu oedi yn y llys ar ôl cwblhau eu hachos. Er bod y rhan fwyaf o fechgyn wedi cyrraedd rhwng 6pm ac 8pm yn ddiweddar, roedd rhai wedi cyrraedd ar ôl 10pm. Yn ein harolwg, dywedodd 66% o fechgyn eu bod yn cael eu trin yn dda gan y staff hebrwng.

### Argymhelliad

**1.2** **Dylid trosglwyddo bechgyn i'r ddalfa cyn gynted ag y mae eu hachos wedi gorffen. Dylid eu trosglwyddo ar wahân i oedolion a chyrraedd y ddalfa cyn 7pm.**(Argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.4)

## Diwrnodau cynnar yn y ddalfa

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo'n ddiogel wrth gyrraedd y carchar ac yn ystod eu diwrnodau cyntaf yn y ddalfa. Bod anghenion unigol plant a phobl ifanc yn cael eu nodi a'u hymdrin, a'u bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ar eu noson gyntaf. Yn ystod cyfnod ymsefydlu person ifanc, dylid hysbysu ef/hi am gyfundrefnau'r sefydliad, sut i gael mynediad i wasanaethau sydd ar gael a sut i ymdopi bod yn y ddalfa.**

**1.3** Weithiau, roedd carcharorion newydd yn cael eu dal am gyfnod ar y drafnidiaeth tra bod y carcharorion sy'n oedolion yn cael eu symud o'r prif fan ar gyfer derbyniadau, ond ar y cyfan prin oedd yr amser roeddent yn ei dreulio yn y dderbynfa cyn symud i ystafell dderbyniadau penodedig ar yr uned. Yn ein harolwg, dywedodd 50% o'r bechgyn eu bod yn cael eu trin yn dda yn y dderbynfa, ac roedd y rhai hynny y bûm yn siarad â hwy yn bositif ar y cyfan ynglŷn â'u profiad ar y noson gyntaf.

**1.4** Yn ein harolwg, dywedodd 77% o fechgyn eu bod wedi cael problemau wrth gyrraedd. Roedd carcharorion newydd yn cael cyfweliadau ac asesiadau risg ar eu noson gyntaf yn brydlon, ac yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr addas i'w hoedran ynglŷn â bywyd ar yr uned, y rheolau a'r gwasanaethau. Yn y derbyniadau a welsom, roedd staff yn rhyngweithio'n dda gyda'r bechgyn ac yn rhoi sylw prydlon i'w risgiau a'u hanghenion, gan gynnwys cynnig galwadau ffôn. Fodd bynnag, ni chynigiwyd diodydd i'r bechgyn fel rheol.

**1.5** Yn y lle cyntaf, rhoddwyd y rhan fwyaf o garcharorion newydd mewn cell gyda chamera er mwyn galluogi arsylwadau llai ymwthiol bob hanner awr dros nos. Er eu bod yn llwm, roedd y celloedd noson gyntaf wedi'u paratoi, â dodrefn digonol ac yn lân. Yn ein harolwg, dywedodd 70% o fechgyn eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y noson gyntaf.

**1.6** Roedd y broses ymsefydlu'n parhau i fod yn rhagorol. Roedd y rhaglen dreigl pum niwrnod yn cael ei deilwra i bob bachgen ac yn cynnwys ailadrodd gweithgareddau allweddol i sicrhau

eu bod wedi'u deall. Roedd y sesiynau a welsom yn cynnwys ymrwymiad unigol sylweddol a chefnogaeth gan staff. Roedd holl elfennau ymsefydlu'n cael eu cofnodi i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau. Roedd rheolwr yn cwrdd â phob bachgen ar y diwedd i gadarnhau ei fod wedi deall popeth, ac roedd yn nodi unrhyw bryderon. Fodd bynnag, nid oedd y cwrs yn cadw'r bechgyn yn brysur trwy'r amser o hyd, ac roeddent yn treulio llai o amser y tu allan o'r gell yn ystod yr wythnos hon o'u cymharu â'u cymheiriaid.

### Arfer da

**1.7** *Roedd carcharorion newydd yn derbyn llenyddiaeth gynhwysfawr briodol i'w hoedran ynglŷn â'r uned, yn ogystal â rhaglen gynefino a oedd yn cydnabod eu hanghenion unigol ac yn eu cefnogi'n effeithiol i addasu i fywyd ar yr uned.*

# Amddiffyn a gofalu am blant a phobl ifanc

## Diogelu

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod y sefydliad yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd mwyaf agored i risg, ac yn eu hamddiffyn rhag pob math o niwed ac esgeulustod.**

**1.8** Roedd adolygiad o ddiogelu ac amddiffyn plant wedi cael ei gynnal ers yr arolygiad diwethaf, a oedd wedi arwain at archwiliadau allanol pellach. Roedd yr uned wedi gwneud cryn dipyn o waith i fynd i'r afael â sawl un o'r diffygion a amlygwyd gennym yn flaenorol. Roedd yn dilyn cynllun gweithredu eglur bellach, ac roedd ar fin ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd ar y cyd â gwasanaethau plant lleol.

**1.9** Roedd rheolwr yr uned wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r bwrdd diogelu plant lleol ac uwch-weithiwr cymdeithasol, a oedd wedi gwella'r ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd, ac yn creu natur mwy agored ynglŷn â sut roedd y ddau'n cyfrannu at gadw'r plant yn ddiogel. Gallai pennaeth yr uned pobl ifanc gysylltu ag uwch-weithiwr cymdeithasol bellach ar gyfer cyngor a chyfarwyddyd, sydd wedi arwain at ystyried amrywiaeth ehangach o bryderon.

**1.10** Roedd rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ac allweddol ar goll ar y ffurflenni atgyfeirio, ac roedd yr ansawdd yn rhy amrywiol. Mewn rhai achosion, roedd statws cyfreithiol y plentyn a manylion cyswllt unrhyw weithwyr cymdeithasol wedi'u hepgor. Roedd ffurflen atgyfeirio ac olrhain gyfunol G4S hefyd yn amlygu'r elfen olrhain ar atgyfeiriadau yn hytrach na chyfarwyddyd arnynt.

**1.11** Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd diogelu misol yn dda ond roeddent yn fforwm ar gyfer amrywiaeth o feysydd, a oedd yn gwanhau'r prif drafodaeth, ac roedd yn anodd olrhain y prif gamau gweithredu o'r cofnodion. Roedd cyfarwyddiadau dyddiol yn parhau i gael eu defnyddio i hysbysu'r holl staff o unrhyw faterion diogelu, fel eu bod yn gallu rhoi cefnogaeth i'r bechgyn pan fo angen.

**1.12** Roedd y staff y bûm yn siarad â hwy'n ymwybodol o'r prosesau diogelu. Dywedodd sawl aelod o staff fod hyfforddiant diweddar ar leihau a rheoli ataliaeth corfforol (MMPR) wedi amlygu amrywiaeth o faterion diogelu, a'u bod yn teimlo'n hyderus wrth adrodd am unrhyw bryderon.

### Argymhelliad

**1.13 Dylai'r cyfarfod diogelu misol gofnodi camau gweithredu dilynol a thystiolaeth o ddeilliannau'n gywir.**

## Amddiffyn plant

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod y sefydliad yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin gan oedolion neu blant a phobl ifanc eraill.**

**1.14** Roedd y bechgyn yn parhau i dderbyn gwybodaeth eglur am weithdrefnau amddiffyn plant yn y llyfryn cynefino, yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB), eiriolwr Barnardo a gweithiwr cymdeithasol y carchar. Roedd hysbysiadau gyda manylion cyswllt cyfredol yn cael eu harddangos yn amlwg ymhob uned. Gallai'r bechgyn ddefnyddio'r ffurflenni cyswllt i wneud cais ar gyfer ymweliad gan y gweithiwr Barnardo, ac roedd yn bosib gwneud hyn yn gyfrinachol.

**1.15** Roedd yr holl atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol bellach yn cael eu holrhain a'u monitro. Bu 17 o atgyfeiriadau amddiffyn plant yn y chwe mis blaenorol. Ym mhob achos, siaradwyd â'r bechgyn ac roedd y carchar yn ymwybodol o gynnydd pob atgyfeiriad. Roedd rheolwr yr uned yn mynychu cyfarfodydd strategol ac yn sicrhau bod y camau gweithredu dilynol yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym. Fodd bynnag, mewn rhai achosion cafwyd peth oedi o ran yr heddlu'n siarad â'r unigolyn ifanc. Mewn un achos, cymerodd saith wythnos rhwng adeg y cyhuddiad a'r cyfweliad gyda'r heddlu, a arweiniodd at yr unigolyn ifanc yn colli hyder yn y system; er gwaethaf cefnogaeth dda gan y gweithiwr cymdeithasol, nid oedd yn fodlon siarad â'r heddlu.

**1.16** Roedd y carchar wedi darparu ffilm teledu cylch cyfyng i ofal cymdeithasol plant Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd wedi galluogi penderfyniadau a chamau gweithredu i gael eu nodi'n gyflym. Mewn un achos, roedd y llys wedi gofyn am ffilm teledu cylch cyfyng oedd yn dangos oedolyn yn cael ei ddal yn ardal y dderbynfa, a sylwodd y dyfarnwr ar ddigwyddiad yn ymwneud â bachgen oedd yn cael ei ddal yn y dderbynfa hefyd. Cafodd manylion y digwyddiad eu trosglwyddo i dîm troseddwyr ifanc y bachgen, a oedd wedyn yn atgyfeirio i adran gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol. O ganlyniad i'r achos hwn, roedd y carchar wedi cymryd camau i ddiogelu plant yn y dderbynfa ymhellach.

## Dioddefwyr bwlio a bygythion

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod pawb yn teimlo'n ddiogel rhag bwlio ac erledigaeth. Bod plant a phobl ifanc mewn perygl/yn destun erledigaeth yn cael eu diogelu trwy systemau gweithredol a theg sy'n hysbys i staff, pobl ifanc ac ymwelwyr ac sy'n hysbysu holl agweddau'r gyfundrefn.**

**1.17** Yn ein harolwg, dywedodd bron i ddwy ran o dair o fechgyn, 63%, eu bod wedi'u herlid gan eraill a oedd yn llawer gwaeth na'r cymharydd o 31%, a 37%, yn erbyn 12% a ddywedodd eu bod wedi'u taro, eu cicio neu yr ymosodwyd arnynt. Yn ogystal, dywedodd 44% o fechgyn eu bod wedi'u herlid gan staff. Roedd yr uned wedi cyflwyno rhai mentrau i roi sylw i'r pryderon hyn – fel defnyddio llwybrau ailintegreiddio mewn addysg (gweler paragraff 3.19) a chynyddu'r nifer o staff ar yr unedau preswyl (gweler paragraff 2.6) – ac roedd gan fwy o fechgyn yr hyder i adrodd erledigaeth i'r staff bellach. Nid oedd unrhyw fechgyn yn hunan wahanu adeg yr arolygiad.

**1.18** Roedd y staff preswyl yn wyliadwrus am arwyddion o fwlio, ac yn defnyddio llyfrau arsylwi'r adain a'r system TG i'w cofnodi. Roedd unigolion oedd yn peri pryder yn cael eu trafod mewn cyfarfod amlddisgyblaethol dyddiol, a oedd yn cael ei fynychu'n dda a'i gadeirio gan uwch-reolwr. Roedd y defnydd o gyfryngu wedi gwella ac yn offeryn hanfodol o ran sicrhau bod yr holl fechgyn yn parhau i gael mynediad da i'r gyfundrefn.

**1.19** Ni fu unrhyw arolwg o fechgyn, teuluoedd, gofalwyr neu ymwelwyr ynghylch bwlio. Roedd y carcharorion newydd yn derbyn cyflwyniad priodol i'w hoedran yn ystod y broses o'u cynefino ynglŷn ag effaith ymddygiad negyddol. Yn ogystal, roedd swyddog teulu newydd i'r uned yn darparu pwynt cyswllt gwerthfawr a sicrwydd i deuluoedd a gofalwyr (gweler paragraff 4.37).

### Argymhelliad

**1.20 Dylai'r uned gynnal arolwg o fechgyn y Parc, eu teuluoedd, gofalwyr ac ymwelwyr ynghylch pryderon am fwlio er mwyn hysbysu strategaeth yn y dyfodol i leihau'r nifer o achosion.**

## Atal hunanladdiad a hunan-niwed

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod y sefydliad yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niwed a hunanladdiad. Bod plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n gynnar ac yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol. Bod yr holl staff yn ymwybodol o faterion ynghylch bod yn agored i niwed ac yn wyliadwrus amdanynt, wedi'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt fynediad i'r cyfarpar a'r gefnogaeth gywir.**

**1.21** Roedd nifer yr achosion o hunan-niwed a nodwyd ynghyd â'r dogfennau rheoli achosion asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ar gyfer carcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed yn dal i fod yn uchel iawn ar gyfer sefydliad o'r fath, er bod y rhan fwyaf o'r achosion yn lefel isel. Yn ystod y chwe mis i fis Medi 2017, roedd 23 o fechgyn wedi dioddef 35 o achosion o hunan-niwed, ac roedd 34 o ddogfennau ACCT wedi'u hagor. Cynhaliwyd gwiriad sicrhau ansawdd ffurfiol wedi'i gofnodi ar ôl yr adolygiad cyntaf yn unig, a oedd yn methu cyfleoedd i ddysgu gwersi.

**1.22** Roedd tri bachgen yn destun ACCTau agored adeg yr arolygiad, ac roedd dau yn cael gefnogaeth yn dilyn terfynu achos. Roedd y bechgyn yn gadarnhaol ynglŷn â'r gefnogaeth roeddent wedi'i derbyn, gan gynnwys argaeledd gweithgareddau ac amser y tu allan o'r gell.

**1.23** Roedd ansawdd dogfennaeth ACCT yn parhau i fod yn weddol dda, ond yn aml nid oedd sbardunau ar gyfer hunan-niweidio'n y dyfodol yn cael eu nodi'n eglur. Roedd mapiau gofal yn dda ar y cyfan, ond nid oeddynt bob amser yn benodol neu'n fesuradwy - er enghraifft, roeddent yn nodi cefnogaeth gan weithiwr achos fel sydd angen yn hytrach nag amlder mewnbwn penodol. Er bod y rhan fwyaf o'r cofnodion arsylwi'n gynhwysfawr, roedd yr amseru'n parhau i fod yn rhy amlwg, yn enwedig gyda'r nos.

**1.24** Roedd adolygiadau achos yn cael eu cynnal yn breifat ac roeddent yn ddisgyblaethol bob amser; roedd y rhai hynny a welsom yn cynnwys y bachgen yn dda wrth gynllunio ei anghenion o ran cefnogaeth.

**1.25** Roedd y bechgyn ar ACCT yn cael eu lleoli 'n aml mewn cell gyda chamera'n eu gwylio, ond nid oedd unrhyw gofnod o'u defnydd ac nid oedd rhesymeg y penderfyniad i'w defnyddio yn eglur bob amser, ac roedd y sgriniau monitro'n parhau i fod yn weladwy i'r bechgyn ar yr

uned. Fodd bynnag, nid oedd gwyliadwriaeth camera'n cael ei defnyddio yn lle rhyngweithio pwrpasol gan staff bellach.

**1.26** Nid oedd digon o gyllyll torri clymau i'r holl staff ac roedd y rhai hynny oedd ar gael yn cael eu cadw mewn pwrs seliedig a allai arafu'r amseroedd ymateb mewn argyfwng.

**1.27** Roedd yr ymagwedd strategol i leihau hunanladdiad a hunan-niwed wedi gwella, ac yn foddhaol ar y cyfan ac yn gwella.

### Argymhellion

**1.28 Dylai amlder cofnodedig y wyliadwriaeth o fechgyn ar ddogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) fod yn llai rhagweladwy.**

**1.29 Dylid cofnodi'r defnydd o gelloedd o dan wyliadwriaeth camera er mwyn monitro bechgyn mewn perygl uwch bob amser, gan gynnwys rhesymeg eglur ar gyfer eu defnyddio, ac ni ddylai fod yn hawdd i'r bechgyn eraill ar yr uned weld y sgrîn.**

**1.30 Dylai'r holl staff, gan gynnwys y staff nos, gario cyllyll torri clymau.**

## Rheoli ymddygiad

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus ac ysgogol lle caiff eu hymddygiad da ei hybu a'i wobrwyo. Bod ymddygiad annerbyniol yn cael ei drin mewn modd gwrthrychol, teg a chyson.**

**1.31** Roedd y strategaeth leol ar gyfer rheoli ymddygiad wedi'i hadolygu ers yr arolygiad blaenorol ac roedd mwy o ffocws ar annog ymddygiad positif bellach. Roedd staff yn defnyddio sawl elfen o'r strategaeth i ysgogi'r bechgyn ac annog ymddygiad positif. Trafodwyd amrywiaeth o feysydd rheoli ymddygiad yn y cyfarfod diogelu misol.

**1.32** Cafwyd trafodaethau gyda bechgyn ynglŷn ag ymddygiad derbyniol o'r pwynt cynefino a oedd yn cynnwys yr holl agweddau ar brosesau lleol, fel lleihau trais, gwobrau, sancsiynau a gweithdrefnau disgyblu. Cafodd rheolau preswyl eu harddangos mewn sawl man, mewn fformat priodol i'r oedran. Gwelsom y staff yn delio â rhai sefyllfaoedd anodd. Er bod rhai aelodau o staff weddol newydd, dangosodd nifer ohonynt oddefiad i bobl ifanc, gyda chydbwysedd o amynedd a her synhwyrol wrth ddelio ag ymddygiad amhriodol. Roedd rheolwyr i'w gweld yn ystod cyfnodau allweddol, fel trosglwyddo i weithgareddau, er mwyn darparu sicrwydd a chefnogaeth i'r staff.

**1.33** Cafodd y bechgyn oedd yn ymddwyn yn wael eu rheoli ar yr unedau preswyl. Roedd cynlluniau unigol i reoli ymddygiad gwael ac, er gwaethaf rhai cyfyngiadau mân ar gyfer cymdeithasu amser hamdden, roedd yr holl fechgyn yn parhau i fynychu addysg. Roedd yr adolygiadau o'r rhai hynny a reolir trwy brosesau rheoli ymddygiad yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn gyson.

### Arfer da

**1.34** *Roedd presenoldeb amlwg y rheolwyr yn ystod cyfnodau allweddol yn y gyfundrefn yn darparu hyder a chefnogaeth priodol i'r staff wrth ddelio ag ymddygiad heriol.*

# Gwobrau a sancsiynau

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn cael eu hysgogi gan gynllun cymhellion sy'n gwobrwyo ymdrech ac ymddygiad da ac yn gweithredu sancsiynau'n briodol ar gyfer ymddygiad gwael. Bod y cynllun yn cael ei weithredu'n deg, yn eglur ac yn gyson, ac yn ysgogol.**

**1.35** Roedd y cynllun gwobrau a sancsiynau wedi cael ei adolygu ers yr arolygiad blaenorol ac roedd yn cael ei ddefnyddio'n briodol bellach yn fwy effeithiol. Gweithredodd y cynllun ar bedair lefel - efydd, arian, aur a phlatinwm. Ychydig iawn o fechgyn oedd ar y lefel efydd (sylfaenol), a oedd yn adlewyrchu'r newid mewn ffocws i gyfundrefn fwy ysgogol. Gallai'r bechgyn ar y gyfundrefn efydd dreulio tua naw awr y dydd y tu allan o'r gell, a disgwyliwyd i'r holl fechgyn barhau gymryd rhan mewn addysg er gwaethaf unrhyw leihad yn eu lefel cymhelliad.

**1.36** Yn dilyn cynefino, rhoddwyd bechgyn ar y lefel aur (uwch) o ran breintiau. Roedd y bechgyn oedd yn parhau ar y statws aur neu'n cyrraedd platinwm (uwch pellach) yn derbyn amser ychwanegol y tu allan i'w cell a mynediad i'r ystafell aur, a oedd yn cynnwys cyfarpar cymdeithasu ychwanegol. Er bod y cyfarpar hwn ar gael yn bennaf i fechgyn a oedd wedi cynnal lefel uwch o freintiau, roedd rheolwyr yn cynnal rhai cystadlaethau cyfoethogi mewn sawl rhan o'r uned a oedd yn agored i fechgyn ar bob lefel i ysgogi ymddygiad positif fwy fyth.

**1.37** Cynhaliodd y rheolwyr adolygiadau wythnosol o'r bechgyn ar efydd, a oedd wedi gwella. Er nad oedd gweithwyr allweddol yn mynychu'r cyfarfodydd adolygu, roeddent yn cyflwyno'r diweddaraf am fechgyn ac yn annog eu cyfranogiad o ran cyflawni eu nodau. Lle nad oedd bechgyn yn dangos unrhyw gynnydd oddi ar y lefel efydd, cynhaliwyd adolygiad amlddisgyblaethol i ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd pellach i'w helpu i wneud cynnydd i arian, ond ni fu unrhyw angen ar gyfer adolygiadau o'r fath ers peth amser.

## Arfer da

**1.38** *Roedd y polisi o osod carcharorion newydd ar y gyfundrefn aur yn annog ethos o ymddygiad positif ymhlith y bechgyn.*

# Diogelwch a gweithdrefnau disgyblu

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod diogelwch a threfn dda'n cael eu cynnal trwy roi sylw i faterion corfforol a gweithredol, gan gynnwys cudd-wybodaeth effeithiol ynghylch diogelwch yn ogystal â pherthnasau positif rhwng y staff a'r plant a'r pobl ifanc. Bod gweithdrefnau disgyblu'n cael eu gweithredu'n deg ac am reswm da. Bod plant a phobl ifanc yn deall pam eu bod yn cael eu disgyblu ac yn gallu apelio'n erbyn unrhyw sancsiynau a osodir arnynt.**

**1.39** Roedd yr ymagwedd i ddiogelwch yn parhau'n gymesur. Bu rhai gwelliannau o ran goruchwylio a rheoli symudiadau ar gyfer y pellter byr i weithgareddau, a oedd yn cael ei gynorthwyo gan fwy o staff.

**1.40** Roedd cudd-wybodaeth yn cael ei rheoli gan yr adran ddiogelwch, a oedd hefyd yn cynnwys safle'r oedolion. Cafwyd 366 o adroddiadau o gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r uned pobl ifanc yn ystod y chwe mis blaenorol, sydd yn llai na'r hyn a welir mewn unedau tebyg. Roedd rheolwr yr uned hefyd yn casglu data bob wythnos i hysbysu adroddiad sefydlogrwydd, ac roedd yn mynychu'r cyfarfod diogelwch misol.

**1.41** Cynhaliwyd yr holl achosion o archwilio celloedd ar sail cudd-wybodaeth ac roedd angen awdurdod uwch-reolwr ar gyfer noeth-chwilio. Roedd nifer y noeth-chwiliadau wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf, gyda 36 o achosion yn y chwe mis cyn mis Hydref 2017. Roedd y rhain yn ymateb cymesur i gudd-wybodaeth ynghylch eitemau anghyfreithlon, fel arfau neu ffonau symudol.

**1.42** Roedd pryderon cynyddol ynglŷn â diwylliant gangiau yn yr uned. Nododd y dystiolaeth fod gangiau 'cod post' yn bodoli lle roedd bechgyn o ardaloedd penodol yn sefydlu teyrngarwch. Er nad oedd hyn yn berygl uniongyrchol, roedd yn synhwyrol i'r sefydliad ganolbwyntio ar y pryderon hyn er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu.

**1.43** Parhaodd argaeledd cyffuriau i fod yn ddibwys. Dewiswyd y bechgyn a brofwyd o dan y rhaglen hapbrofion cyffuriau gorfodol (MDT) fel rhan o restr y sefydliad ehangach. Ni fu unrhyw brofion MDT positif yn ystod 2017. Cafodd profion cyffuriau o dan amheuaeth eu cynnal yn brydlon; bu pedwar o'r 17 o ganlyniadau o'r profion o dan amheuaeth a ofynnwyd amdanynt yn ystod y chwe mis blaenorol yn bositif - a phob un ohonynt ar gyfer canabis.

**1.44** Roedd cudd-wybodaeth, data o ganfyddiadau ac adroddiadau'r bechgyn yn nodi bod carcharorion newydd yn dod â'r rhan fwyaf o sylweddau anghyfreithlon i mewn. Roedd lleoliad yr uned a'i chyfundrefn yn gweithredu ar wahân i safle'r oedolion, a oedd yn parhau i weithredu mesur lleihau cyflenwad effeithiol.

**1.45** Roedd gweithwyr camddefnyddio sylweddau o'r uned pobl ifanc yn mynychu pwyllgor strategol y sefydliad ar gyffuriau bob tri mis; nid oedd tystiolaeth bod y camau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cwblhau bob amser. Roedd strategaeth gyffuriau a chynllun gweithredu lleihau cyflenwad adolygedig ledled y sefydliad yn cyfeirio'n briodol at yr uned.

**1.46** Roedd nifer y dyfarniadau wedi haneru ers yr arolygiad blaenorol ac roedd yn debyg i unedau cymharol bellach. Roedd prosesau'n deg a rhoddwyd esboniadau eglur, a adlewyrchwyd yn ein harolwg, o siarad â bechgyn ac archwilio gwrandawiadau blaenorol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd ychydig o achosion yn rhoi eglurhad manwl o'r rheolau oedd wedi'u torri, a gallai rhai gwrandawiadau wedi cael eu hymdrin mewn modd llai ffurfiol.

**1.47** Trafodwyd llywodraethu gweithdrefnau disgyblu yn y cyfarfod diogelu misol, ond er bod hyn yn nodi'r tueddiadau, nid oedd dadansoddi manwl gan nodweddion gwarchodedig bob amser (gweler paragraff 2.10a'r prif argymhelliad S42).

**1.48** Cafwyd 17 o fân adroddiadau yn unig yn ystod 2017, ond nid oedd y rhan fwyaf wedi'u cwblhau oherwydd diffyg argaeledd staff hyfforddedig. Ymron pob achos, nid oedd yn eglur pam nad oedd y cyhuddiad wedi arwain at ddyfarniad llawn. Roedd rheolwyr wedi cymryd camau i roi'r gorau i ddefnyddio mân adroddiadau ac yn annog staff i ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad mwy priodol ac wedi'u rheoli'n well (gweler yr adran ynghylch rheoli ymddygiad).

## Argymhelliad

**1.49** **Dylid archwilio canlyniadau'r holl weithdrefnau disgyblu (dyfarniadau a mân adroddiadau). Dylid canolbwyntio mwy ar ddadansoddi tueddiadau a nodweddion gwarchodedig gyda chamau gweithredu wedi'u monitro sy'n mynd i'r afael â phryderon.**(Argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.55)

# Bwlio a lleihau trais

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod staff, plant a phobl ifanc ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r systemau gweithredol a theg i atal ac ymateb i fwlio.**

**1.50** Cafwyd 112 o achosion o drais yn ystod y chwe mis blaenorol, o'i gymharu ag 135 ar gyfer yr un cyfnod yn 2016. Er bod y gostyngiad bach hwn yn galonogol, roedd nifer yr achosion o drais yn parhau i fod yn rhy uchel. (Gweler y prif argymhelliad S41.)

**1.51** Roedd y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys bechgyn yn taro ei gilydd o'r tu ôl, ac roedd staff yn ymyrryd yn brydlon i atal y digwyddiad rhag gwaethygu ymhellach. Roedd tystiolaeth bod rhywfaint o wrthdaro oherwydd bod rhai bechgyn yn erlid eraill i gynnal ymosodiad. Roedd nifer o achosion yn arwain at anafiadau cymharol fân, ond cafwyd wyth ymosodiad difrifol ac roedd un bachgen wedi bod yn rhan o bedwar o'r achosion hyn.

**1.52** Cafwyd nifer o fentrau i leihau trais a mynd i'r afael â phryderon diogelwch. Roedd lleihad cymharol fach yn y boblogaeth ynghyd â chyflwyno system rheoli a lleihau ataliaeth gorfforol (MMPR) wedi cynyddu'r nifer o staff i wella goruchwyliaeth a rheolaeth. Roedd cwmpas y teledu cylch cyfyng wedi'i wella, ac roedd y defnydd o gamerâu fideo wedi'u gwisgo ar y corff wedi cynyddu. Roedd y camerâu'n galluogi i ddata gael eu lawrlwytho'n awtomatig, a'u cadw am hyd at 3 mis i gynorthwyo ag unrhyw honiadau neu bryderon ynghylch amddiffyn plant; roedd yr arfer hwn yn well na'r hyn a welwyd gennym mewn safleoedd eraill.

**1.53** Yn dilyn digwyddiad treisgar, roedd y camau dilynol yn cael eu trafod mewn cyfarfod amlddisgyblaethol dyddiol (gweler paragraff 1.18) ac roedd amrywiaeth o strategaethau yn cael eu hystyried, gan gynnwys cyfryngu, adolygu llwybrau dysgu ac agor cofnod goruchwyliaeth (gweler paragraff 1.66). Er bod y cofnodion hyn yn darparu peth sicrwydd, fe'u defnyddiwyd gan fwyaf i fonitro dyfarniadau, ac nid oedd cynlluniau cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr neu herio troseddwyr wedi'u datblygu'n ddigonol (gweler argymhelliad 1.67). Er bod y cyfarfodydd diogelu misol yn trafod trais a data, nid oedd yr holl gamau gweithredu'n cael eu cofnodi.

**1.54** Roedd ffurflenni monitro'r lleihad mewn trais yn dal i gael eu defnyddio fel mesur dilynol i ymchwilio achosion o drais neu anafiadau anesboniadwy. Cwblhawyd 57 o ffurflennni'n ystod 2017, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn dangos ymchwilio o ansawdd weddol dda, er bod yr ansawdd wedi gwaethygu ganol y flwyddyn.

**1.55** Roedd rheolwr diogelu a oedd yn gyfrifol am fesurau lleihau trais wedi'i benodi'n ddiweddar, yn ogystal â swyddog llawn amser i gynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ymchwiliadau a throsolwg strategol. Roedd systemau ar gyfer cofnodi trais wedi'u hadolygu, ac roedd cynllun gweithredu ar sail tystiolaeth wrthi'n cael ei ddatblygu, ond roedd angen gwneud mwy i leihau lefelau'r trais.

## Arfer da

**1.56** *Roedd lawrlwytho awtomatig a chadw delweddau o'r camerâu ar y corff rhag ofn bod angen cyfeirio atynt mewn ymchwiliad pellach yn unol â'r polisi cadw data statudol.*

# Y defnydd o rym

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod grym yn cael ei ddefnyddio fel y dewis olaf yn unig ac yn cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon ac yn ddiogel gan staff hyfforddedig. Bod y defnydd o rym yn cael ei leihau drwy strategaethau ataliol a dulliau eraill ac y monitrir hyn trwy drefniadau llywodraethu cadarn.**

**1.57** Roedd y defnydd o rym wedi lleihau ers yr arolygiad blaenorol ond roedd yn parhau i fod yn uwch na sefydliadau tebyg. Roedd grym wedi cael ei ddefnyddio ar 184 o achlysuron rhwng Ebrill a Medi 2017. Roedd technegau lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR) wedi'u gweithredu'n llawn tri mis ynghynt, ac nid oedd rheolaeth nac ataliaeth yn cael eu defnyddio bellach. Roedd lefelau staff gwell yn yr uned yn golygu nad oedd swyddogion o safle'r oedolion a oedd heb eu hyfforddi mewn MMPR yn mynychu achosion fel rheol.

**1.58** Ers cyflwyno MMPR, bu'r defnydd o rym ychydig yn uwch ond roedd y rhan fwyaf o achosion yn ymateb i amddiffyn bechgyn yn dilyn ymosodiad neu ymladd. Roedd y defnydd o rym yn lefel isel gan fwyaf ac yn aml yn cynnwys defnyddio rhwystrau tywys i arwain bechgyn unigol yn ôl i'w cell yn dilyn digwyddiad. Cafodd technegau achosi poen eu defnyddio ddwywaith ers cyflwyno MMPR.

**1.59** Roedd llywodraethu grym wedi gwella ers cyflwyno MMPR. Roedd nifer y camerâu fideo wedi'u gwisgo ar y corff wedi'u cynyddu ac roedd teledu cylch cyfyng wedi gwella (gweler paragraff 1.52hefyd). Roedd dau gydgysylltydd llawn amser, ac roedd unrhyw achosion yn cael eu hadolygu ar yr un diwrnod; roedd angen i'r staff gwblhau dogfennau defnyddio grym ar yr un diwrnod, lle bo'n ymarferol, a oedd yn golygu nad oedd y llwyth gwaith yn pentyrru.

**1.60** Cafwyd dadansoddiad manylach mewn cyfarfod lleihau'r defnydd o rym wythnosol, a oedd yn cael ei gadeirio gan uwch-reolwr a chydgysylltwyr MMPR. Er ei fod dal yn newydd, cynhaliwyd archwiliad allanol gan aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gyda chynlluniau i ehangu hyn ymhellach. Roedd pryderon neu arfer da'n cael eu dosbarthu'n briodol. Cafwyd trosolwg pellach o dueddiadau yn y cyfarfod diogelu misol.

**1.61** Roedd yr holl fechgyn bellach yn cael adroddiad ar ôl achos o ddefnyddio grym; roedd y cyfweliadau hyn yn brydlon bellach, ond nid oedd y cofnodion wedi'u cwblhau'n llwyr bob amser. Nid oedd y strategaeth lleihau ataliaeth leol yn adlewyrchu cyflwyno MMPR.

## Argymhellion

**1.62** **Dylid ehangu'r archwiliad allanol o'r defnydd o rym ymhellach i ddarparu sicrwydd parhaol o gyfreithlondeb a chymesuredd yr holl achosion.**

**1.63** **Dylai'r strategaethau lleihau ataliaeth adlewyrchu cyflwyno system lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR).**

**1.64** **Ni ddylid defnyddio technegau achosi poen ar blant.**

# Gwahanu/symud o leoliad arferol

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn cael eu gwahanu o'u cyfoedion gyda'r awdurdod priodol yn unig, mewn modd diogel, yn unol â'u hanghenion unigol, am resymau priodol ac nid fel cosb.**

**1.65** Roedd y defnydd o wahanu'n parhau i fod yn isel, a oedd yn glodwiw. Roedd dwy gell ar gael mewn uned ar wahân yng ngharchar yr oedolion os oedd eu hangen, ond dwywaith yn unig y'u defnyddiwyd rhwng Ebrill a Hydref 2017 - ar y ddau achlysur yn dilyn achos o drais difrifol ac am gyfnodau byr yn unig. Roedd y gyfundrefn ar yr uned yn barchus, gydag ymdrechion i ailintegreiddio'r bechgyn yn gynnar.

**1.66** Roedd bechgyn a oedd yn cael cyfnodau o wahanu yn dilyn dyfarniad wedi'i brofi yn cael eu monitro trwy gofnodion goruchwylio bellach. Roedd hyn bob amser yn cael ei weithredu ar y prif unedau, a chafodd bechgyn eu hadolygu'n rheolaidd ac roeddent yn parhau i fynychu gweithgareddau. Roedd cofnodion goruchwylio'n cynnwys gwybodaeth berthnasol, fel algorithmau diogelwch wrth ystyried gwahanu, cofnod o'r dyfarniad ar ôl dyfarnu, a rhyngweithio a goruchwylio dyddiol. Fodd bynnag, roedd rhai agweddau o oruchwylio rheolwyr yn wan, ac nid oedd sawl cofnod a archwiliwyd gennym yn nodi os oedd adolygiadau wedi'u cwblhau neu ba gefnogaeth oedd ar waith.

## Argymhelliad

**1.67** **Dylai'r ddogfennaeth ar gyfer bechgyn sydd wedi'u gwahanu nodi'n eglur y rheswm am eu gwahanu, y gefnogaeth sydd ar gael a'r camau gweithredu sydd eu hangen.**

## Arfer da

**1.68** *Roedd y defnydd isel o wahanu parhaol a'r rheolaeth o ymddygiad heriol ar yr uned yn glodwiw.*

# Camddefnyddio sylweddau

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc gyda phroblemau â chyffuriau ac/neu alcohol yn cael eu nodi yn y dderbynfa ac yn derbyn triniaeth a chefnogaeth effeithiol trwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa.**

**1.69** Roedd adolygiad llawn o'r polisi a gweithdrefn gweithredol camddefnyddio sylweddau pobl ifanc ym mis Ionawr 2017 wedi arwain at gynllun gweithredu wedi'u diweddaru a oedd yn hysbysu'r ddarpariaeth gwasanaeth. Bellach, roedd yr uned pobl ifanc yn cael ei chynrychioli'n fwy cyson mewn cyfarfodydd cyffuriau ac alcohol strategol rheolaidd y carchar ehangach, a oedd yn gadarnhaol.

**1.70** Roedd pob carcharor newydd yn cael eu sgrinio gan nyrs ac roedd unrhyw anghenion camddefnyddio sylweddau yn cael eu nodi. Roedd adran camddefnyddio sylweddau'r pecyn asesu iechyd cynhwysfawr hefyd wedi'i chwblhau o fewn yr amser a argymhellir. Ni fu angen dadwenwyno clinigol o gyffuriau neu alcohol ar unrhyw fachgen ers yr arolygiad diwethaf, er bod gwasanaethau ar gael gan staff cymwys os oedd angen.

**1.71** Roedd dau weithiwr achos yn darparu cefnogaeth camddefnyddio sylweddau seicogymdeithasol i'r bechgyn ac yn cwblhau rhywfaint o waith achos. Er gwaethaf y prinder staff, roedd y gefnogaeth seicogymdeithasol yn parhau i fod yn dda. Gwelwyd pob bachgen yn brydlon yn ystod eu cyfnod cynefino i asesu'r gefnogaeth oedd ei hangen ac i ddarparu addysg sylfaenol ar gyffuriau. Yn dibynnu ar yr angen a nodwyd, cwblhawyd asesiad llawn o fewn 10 niwrnod a chafodd cynllun triniaeth unigol ei greu. Os oedd bachgen yn gwrthod cymryd rhan yn dilyn yr asesiad cychwynnol, cynigwyd cyfleoedd pellach iddo ymgysylltu â'r gweithiwr camddefnyddio sylweddau.

**1.72** Cafodd y rhan fwyaf o ymyriadau eu cyflwyno fesul un i un, er bod rhai grwpiau bach yn cael eu cynnal hefyd. Roedd sesiynau unigol yn cael eu teilwra i gwrdd ag anghenion pob bachgen ac yn defnyddio amrywiaeth briodol o lyfrau gwaith, gan gynnwys y rhai hynny oedd yn mynd i'r afael â'r gyflenwad cyffuriau, atal atglafychu a chanabis. Roedd y broses o gadw cofnodion yn dda.

# Section 2. Parch

## Unedau preswyl

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd diogel, glân a pharchus sydd mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer y glasoed.**

**2.1** Roedd glendid yr ardaloedd cymunol a'r celloedd wedi gwella'n sylweddol ac yn dda; ac roedd llawr newydd yn helpu hyn. Roedd byrddau ffotograffau'r staff yn gyfredol ac roedd hysbysiadau ac arddangosfeydd celf yr adain mewn cyflwr da. Roedd y bechgyn yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac ansawdd llawer gwell y cyfarpar cymdeithasu oedd ar gael bellach. Roedd ardaloedd yr iard yn fach ac yn llwm iawn, er gwaethaf y waliau addurnedig.

**2.2** Roedd y celloedd yn llwm ond heb graffiti ar y cyfan. Roedd y celloedd dwbl yn parhau i fod yn rhy gyfyng gyda lle ar gyfer un gadair yn unig, ond roedd y ddeiliadaeth lai'n golygu nad oedd llawer o fechgyn yn rhannu celloedd. Nid oedd cwpwrdd y gellid ei gloi ar gael yn y rhan fwyaf o'r celloedd. Roedd toiledau'n parhau i fod heb eu sgrinio'n llawn ac roeddent wedi'u staenio'n ddrwg - roedd yr uned yn mynd i'r afael â sgrinio'r toiledau a chypyrddau y gellid eu cloi yn y celloedd. Roedd argaeledd cawodydd yn parhau i fod yn dda. Er nad oedd yr awyru wedi'i wella, ni wnaeth y bechgyn sôn am hyn ac ni wnaethom arsylwi unrhyw broblemau. Gallai'r bechgyn olchi eu dillad eu hunain yn hawdd, ac roedd y dillad gwely'n cael eu newid yn rheolaidd. Roedd mynediad i eiddo'n foddhaol. Bechgyn ar y lefel aur yn unig oedd yn cael fflasg neu ddŵr poeth, a oedd yn golygu nad oedd y gweddill yn gallu gwneud diod boeth yn ystod yr amser hir wedi'u cloi yn eu cell dros nos. Roedd staff yn ymateb i glychau'r celloedd yn brydlon

**2.3** Roedd y bechgyn yn gwerthfawrogi'r ffonau yn eu celloedd ac hefyd yn gallu defnyddio ffonau'r adain. Roedd y post yn cael ei dderbyn bob dydd. Roedd ceisiadau'n cael eu rheoli'n brydlon trwy'r ciosgau gwybodaeth electronig

### Argymhelliad

**2.4** **Dylai'r celloedd gynnwys toiledau wedi'u sgrinio'n llawn a chwpwrdd y gellid ei gloi sy'n gweithio, a dylai dŵr poeth fod ar gael i'r bechgyn dros nos.**

## Perthynas rhwng staff a phlant a phobl ifanc

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin gyda gofal a thegwch gan yr holl staff, a bod disgwyl iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain, a'u hannog a'u galluogi i wneud hynny. Bod staff yn gosod terfynau eglur a theg. Bod gan y staff ddisgwyliadau mawr o'r holl blant a phobl ifanc ac yn eu helpu i wireddu eu potensial.**

**2.5** O gymharu â'n harolygiad diwethaf, roedd mwy o'r bechgyn y bûm yn siarad â hwy yn bositif am y staff, a dywedodd pob un ohonynt fod ganddynt rywun i droi atynt am gymorth. Yn ein harlowg, dywedodd 66% o'r bechgyn fod y rhan fwyaf o staff yn eu trin gyda pharch.

**2.6** Roedd nifer o fentrau ers ein harolygiad diwethaf wedi gwella'r berthynas rhwng staff yr adain a'r bechgyn. Roedd y rhain yn cynnwys cynyddu'r nifer o staff, arweinyddiaeth fwy

weladwy, hyfforddiant staff gwell ac argaeledd mwy o weithgareddau pwrpasol ar gyfer y bechgyn. Roedd yr holl swyddogion wedi'u cyfweld ar gyfer y rôl, ac roedd mentora effeithiol yn cefnogi'r staff newydd i ddatblygu'r sgiliau gofynnol. Roedd y rhan fwyaf o ryngweithio a welsom rhwng y staff a'r bobl ifanc yn barchus, yn ofalgar ac yn effeithiol. Arsylwom staff yn bod yn fwy cyson o ran herio ymddygiad negyddol ac yn atgyfnerthu ymddygiad positif, a oedd yn cael ei adlewyrchu mewn gwaith allweddol a nodiadau achos electronig. Yn ogystal, roedd gan yr unedau awyrgylch mwy heddychlon ac o dan reolaeth o gymharu â'n harolygiad diwethaf.

**2.7** Roedd y staff yn gyfarwydd iawn â'r bechgyn yn eu gofal. Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn cael adolygiadau wedi'u cofnodi gyda'u gweithiwr allweddol bob pythefnos, ac roedd cronfa o weithwyr allweddol yn cael eu neilltuo i gymryd lle staff absennol.

**2.8** Roedd ymgynghori gyda'r bechgyn trwy fforwm ymgysylltu cymunedol wedi gwella.Roedd presenoldeb gan aelodau'r fforwm a staff wedi gwella'n ddiweddar, a chafodd y pwyntiau a nodwyd eu cymryd i'r cyfarfod diogelu. Er bod y fforwm yn ysgogi rhai newidiadau, parhaodd rhai materion i gael eu godi mewn sawl cyfarfod.

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod y sefydliad yn amlygu dull eglur a chydgysylltiedig i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo deilliannau teg a meithrin perthynas dda, ac yn sicrhau na fydd unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc o dan anfantais annheg. Bydd hyn wedi'i seilio ar brosesau effeithiol i ddod o hyd i a datrys unrhyw anghydraddoldeb. Bod yr anghenion gwahanol ar gyfer pob unigolyn ifanc yn cael eu cydnabod a'u diwallu: mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gydraddoldeb hiliol, cenedligrwydd, crefydd, anabledd (gan gynnwys anableddau ac anawsterau meddyliol, corfforol a dysgu), rhywedd, materion trawsrywiol a chyfeiriadedd rhywiol.**

## Rheolaeth strategol

**2.9** Roedd y rheolaeth strategol ac arweinyddiaeth o waith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn wan. Roedd cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth y carchar cyfan yn cynnwys trefniadau ar gyfer yr uned pobl ifanc, ond ni wnaethpwyd llawer i weithredu'r camau hyn hyd yma. Nid oedd unrhyw bolisi neu gynllun gweithredu ar waith i sicrhau deilliannau cyfartal ledled yr uned. Nid oedd y cyfarfodydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhoi digon o sylw i'r uned pobl ifanc, ac nid oedd y bechgyn yn manteisio ar rywfaint o'r gwaith da yn y prif garchar.

**2.10** Canfuom ychydig iawn o dystiolaeth o ddadansoddi manwl ynghylch profiad y bechgyn a sut cânt eu trin. Nid oedd nodi nodweddion gwarchodedig yn cael ei ddatblygu'n ddigonol o hyd. Nid oedd y data ar agweddau o fywyd ar yr unedau'n cael eu rhannu'n ôl nodweddion gwarchodedig, felly nid oedd modd dadansoddi unrhyw effeithiau anghyfartal - er enghraifft, p'un a oedd bechgyn duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gor-gynrychioli mewn dyfarniadau.(Gweler y prif argymhelliad S42.)

**2.11** Cafwyd wyth achos o hysbysu am ddigwyddiadau gwahaniaethol (DIRF) yn y chwe mis diwethaf, a oedd i gyd yn cynnwys gwahaniaethu hiliol: cafodd un ei gynnal a chafodd y gweddill eu gwrthod. Nid oedd ymchwiliadau'n ddigon cadarn ac weithiau nid oeddent yn gwerthfawrogi safbwynt y bachgen. Nid oedd gan y bechgyn y buom yn siarad â hwy lawer o hyder yn y system DIRF. Nid oedd llawer iawn o gyfleoedd, fel ymatebion ysgrifenedig i

DIRFau ac ymgynghori ffurfiol, i fechgyn ddeall p'un ai a oedd y gwahaniaethu roeddent yn ei deimlo'n wir neu wedi'i ganfod yn unig.

**2.12** Dechreuodd yr uned gynnal ymgynghoriadau â bechgyn duon a lleiafrifoedd ethnig yn ddiweddar, gan ddefnyddio mis hanes pobl dduon fel ffocws, er mwyn deall barn y bechgyn o'u triniaeth. Roedd swyddog cydraddoldeb yr uned wedi gwneud llawer o waith yn y 10 wythnos ers iddi gael ei phenodi ac roedd wrthi'n datblygu perthynas â'r bechgyn.

**2.13** Ni fu unrhyw gynnydd ar ein hargymhelliad blaenorol sef y dylai bechgyn yn yr uned pobl ifanc gael mynediad i amrywiaeth debyg o grwpiau amrywiaeth allanol â'r carcharorion sy'n oedolion.

## Argymhelliad

**2.14** **Dylid gwella ymgysylltu gan yr uned pobl ifanc gyda grwpiau amrywiaeth cymunedol, i'r lefel a gyflawnwyd gan y carchar i oedolion.**(Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.17)

## Anghenion gwahanol

**2.15** Roedd mwy na thraean o'r bechgyn, 35%, yn deillio o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yn ein harolwg, er bod mwy o'r bechgyn o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn teimlo'n ddiogel yn y carchar o'u cymharu â'r rhai hynny o gefndiroedd gwyn ac wedi siarad a mentor cefnogol, roedd llai ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu trin gyda pharch gan y staff, bod chwiliadau'n barchus neu eu bod wedi'u trin yn dda yn y dderbynfa. Dywedodd rhai o'r bechgyn wrthym eu bod o'r farn bod y carchar yn hiliol. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu rhoi rhesymau penodol am hyn, heblaw eu bod o'r farn nad oedd bechgyn duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu trin yr un fath â'u cymheiriaid gwyn. Nid oedd gan y carchar unrhyw ddadansoddiad data manwl i brofi ei fod yn trin yr holl fechgyn yn gyfartal. (Gweler y prif argymhelliad S42.)

**2.16** Roedd dau fachgen a oedd yn wladolion tramor yn cael eu cadw yn y ddalfa adeg yr arolygiad. Nid oedd polisi gwladolion tramor y carchar cyfan yn ymdrin yn ddigonol ag anghenion y bechgyn hyn – roedd yn cyfeirio at boblogaeth yr oedolion gwrywaidd yn y prif garchar yn unig – er eu bod yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan aelod o staff ymroddedig, yn ogystal â chymorth i'w cadw mewn cysylltiad â theuluoedd ac i apelio yn erbyn penderfyniadau. Roedd y carchar yn cael trafferth dod o hyd i gynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer y bechgyn hyn.

**2.17** Nodwyd gennym fod dau fachgen ag anableddau. Roedd gofal beunyddiol y ddau'n cael ei reoli drwy gynllun byw â chymorth, a oedd yn manylu ar unrhyw gefnogaeth ychwanegol oedd ei hangen arnynt. Roedd y staff oedd yn gofalu am y bechgyn hyn yn ymwybodol iawn o'u hanghenion.

**2.18** Nid oedd unrhyw fachgen trawsryweddol yn y ddalfa ar adeg ein harolygiad ac nid oedd unrhyw fachgen wedi datgan ei fod yn hoyw neu'n ddeurywiol. Roedd cefnogaeth ar gael gan y prif dîm cydraddoldeb pe bai bachgen yn datgelu hynny.

# Ffydd a gweithgarwch crefyddol

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod yr holl blant a'r bobl ifanc yn gallu dilyn eu crefydd. Bod gan y gaplaniaeth rôl lawn ym mywyd y sefydliad ac yn cyfrannu at y gofal a'r cymorth cyffredinol ar gyfer pobl ifanc a hefyd at eu hailsefydlu.**

**2.19** Roedd y gaplaniaeth yn parhau i ddarparu gwasanaethau ffydd a chymorth bugeiliol da. Roedd aelod o'r gaplaniaeth yn ymweld â'r uned bob dydd, ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda staff ac yn y cyfarfod briffio dyddiol. Roedd caplan Mwslim newydd ar fin cychwyn gweithio, a oedd yn golygu y byddai'r bechgyn Mwslimaidd yn gallu mynychu gwasanaeth bob dydd Gwener a gweld eu caplan Mwslimaidd yn bersonol. Yn ôl y trefniadau presennol, a oedd yn gwahanu'r bechgyn o'r carcharorion sy'n oedolion, roedd y caplan Mwslimaidd yn arwain y gwasanaeth yn ystafell ffydd y byd y carchar ac roedd hyn yn cael ei drosglwyddo ar feicroffon i'r bechgyn yn y capel. Gallai'r bechgyn gael mynediad i addoli corfforaethol ac amrywiaeth o grwpiau trafod wythnosol.

# Cwynion

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod gweithdrefnau cwyno effeithiol ar waith ar gyfer y plant a'r bobl ifanc, sy'n hawdd eu cyrraedd, yn hawdd eu defnyddio ac yn ymateb yn amserol. Bod y plant a'r bobl ifanc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cwyn. Bod y plant a'r bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel na fyddant yn dioddef sgil-effeithiau wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn a'u bod yn ymwybodol o'r weithdrefn apelio.**

**2.20** Roedd nifer y cwynion wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf o 18 i 64. Roedd y rhan fwyaf yn ddomestig - gan gynnwys difrod i ddillad, dillad gwely o ansawdd gwael, maint y prydau bwyd a system rheoli achosion electronig (CMS) (ciosgau electronig) yn torri. Cafwyd ymatebion i'r rhain, ac yn y rhan fwyaf o achosion roedd yn amlwg eu bod wedi siarad â'r bechgyn.

**2.21** Roedd ffurflenni cwynion ar gael ar y ddwy uned, ond nid oedd ffurflenni apêl ar gael o hyd. Nid oedd y ffurflenni cwynion yn briodol i'r oedran, ac yn cynnwys gwybodaeth am brosesau'n hytrach na cheisio sicrhau'r bechgyn y byddai eu pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif. Cafodd cwynion eu cofnodi ar daenlen y carchar cyfan, ac roedd yn hawdd nodi cwynion y bobl ifanc.

**2.22** Roedd sicrhau ansawdd wedi gwella, ac roedd y cyfarwyddwr yn adolygu 10 o gwynion y mis. Rhwng mis Mehefin a mis Awst 2017, roedd ansawdd yr ymatebion yn parhau i fod yn gymysg, ac roeddem yn cytuno ag asesiadau'r cyfarwyddwr bod rhai o'r ymatebion yn drylwyr ac yn fanwl tra bod eraill wedi'u hymchwilio'n wael ac yn lleihau pryderon yr unigolyn ifanc.

**2.23** Roedd rhai o'r bechgyn yn defnyddio ffurflen cwynion y carchar i gwyno eu bod yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu bod yn deillio o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Gofynnwyd i un bachgen nodi ei bryder ar DIRF, ond ni wnaeth hynny. Dylid fod wedi ymdrin â'i gŵyn fel cwyn gwahaniaethu, pa ffurflen bynnag a ddefnyddiodd.

# Hawliau cyfreithiol

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod y plant a'r pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth gan staff y sefydliad i arfer eu hawliau cyfreithiol yn rhydd.**

**2.24** Roedd gweithiwr achos y bachgen yn egluro'i statws cyfreithiol iddo yn fuan ar ôl cyrraedd, gan gynnwys dyddiadau allweddol ar gyfer rhyddhau neu ymddangosiadau yn y llys. Roedd bechgyn ar remánd yn derbyn y gefnogaeth briodol i wneud ceisiadau ar gyfer mechnïaeth ac yn derbyn adolygiadau cynllunio ar remánd yn rheolaidd. Roedd gweithwyr achos yn hwyluso galwadau ffôn er mwyn i fechgyn gysylltu ag ymgynghorwyr cyfreithiol neu weithwyr proffesiynol allanol eraill.

**2.25** Cynhaliwyd ymweliadau cyfreithiol mewn ystafelloedd preifat. Roedd gweithwyr achos yn ymwybodol o'r angen i fechgyn gael oedolion priodol ar gyfer cyfweliadau ffurfiol gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill, ond yn amlygu'r diffyg cefnogaeth neu gyfarwyddyd i fechgyn gyda materion mewnfudo i'w datrys (gweler hefyd paragraff 2.162.16).

# Gwasanaethau iechyd

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod y plant a'r bobl ifanc yn derbyn gofal gan wasanaeth iechyd sy'n asesu ac yn cwrdd â'u hanghenion iechyd tra yn y ddalfa ac sy'n hyrwyddo gofal iechyd a chymdeithasol parhaol ar ôl eu rhyddhau. Mae safon y gwasanaeth iechyd a ddarperir yn cyfateb â'r gwasanaeth y gallai'r plant a'r bobl ifanc ddisgwyl ei dderbyn rywle arall yn y gymuned.**

## Trefniadau llywodraethu

**2.26** Roedd G4S Health Services UK Ltd yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd. Roedd perthnasoedd gwaith rhwng y sefydliad, y gwasanaethau iechyd, y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i fod yn dda. Cafodd llywodraethu strategol ei ymgorffori â bwrdd partneriaeth a chyfarfodydd llywodraethu wedi'u mynychu'n dda, a oedd yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiad anghenion iechyd a lles yn gyfredol.

**2.27** Roedd gan yr uned nyrs ychwanegol bellach, a oedd yn golygu bod dwy nyrs yn gweithio yna bob dydd o'r wythnos rhwng 7am a 4.30pm bellach; roedd nyrsys o'r prif garchar ar gael y tu allan i'r oriau hyn, 24 awr y dydd. Roedd nyrsys yr uned yn ategu ei gilydd - roedd un yn nyrs iechyd meddwl gofrestredig tra bod y llall yn nyrs gyffredinol gofrestredig. Roeddent yn gallu canolbwyntio ar bob maes ond hefyd yn rhannu gwaith ei gilydd yn effeithiol. Roedd nyrs yn mynychu pob digwyddiad yn ogystal â'r cyfarfodydd lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR) wythnosol i adolygu digwyddiadau, a oedd yn gadarnhaol (gweler paragraff 1.60).

**2.28** Gwelsom y nyrsys yn rhyngweithio'n ofalgar â'r bechgyn, ac roedd y ddwy nyrs yn darparu gofal ymatebol a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Roedd y bechgyn yn gadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd.

**2.29** Roedd gan y ddwy nyrs ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau diogelu ac roeddent wedi'u hyfforddi'n briodol mewn diogelu plant i lefel 3. Roedd hyfforddiant gorfodol arall yn gyfredol ar y cyfan, gan gynnwys cymorth bywyd canolraddol, ac roedd cyfleoedd datblygu

proffesiynol ar gael. Teimlai'r staff eu bod yn cael eu cefnogi ac roeddent ar fin cael eu goruchwylio'n ffurfiol gan oruchwyliwr newydd.

**2.30** Roedd sampl y cofnodion clinigol electronig a welsom, a gedwir ar y system TG glinigol SystmOne, yn dda ar y cyfan. Roedd amrywiaeth briodol o bolisïau, er bod angen diweddaru'r polisi rheoli heintiau. Roedd systemau effeithiol ar gyfer rheoli clefydau trosglwyddadwy. Ceisiwyd caniatâd i rannu gwybodaeth feddygol a'r gallu i roi caniatâd i driniaeth yn rheolaidd.

**2.31** Roedd yr ystafell gweinyddu meddyginiaeth newydd yn hollol weithredol felly gallai'r holl feddyginiaeth gael ei gweinyddu ar yr uned bellach, ac roedd rhai clinigau'n cael eu cynnal yno. Cynhaliwyd archwiliadau rheoli heintiau bob mis, ac eid i'r afael â rhai mân feysydd oedd angen sylw.

**2.32** Roedd nyrsys neu barameddygon dynodedig o'r prif garchar yn mynychu unrhyw argyfwng meddygol gyda'r offer argyfwng priodol. Roedd y bag bachu argyfwng ar yr uned yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn briodol i'r oedran. Roedd y diffibriliwr allanol awtomataidd mewn trefn dda, yn cael ei wirio'n reolaidd ac ar gael i'r holl staff. Roedd yr holl swyddogion wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf ac yn deall y system côd meddygol mewn argyfwng. Roedd ambiwlansys yn cael eu galw'n brydlon mewn argyfwng.

**2.33** Roedd amseroedd aros hir ar gyfer brechiad llid yr ymennydd a pheth oedi gyda brechiadau hepatitis B. Fodd bynnag, roedd rhai brechiadau wedi'u gweinyddu ac yn cael eu blaenoriaethu er mwyn lleihau'r ddwy restr aros. Roedd sgrinio iechyd rhywiol yn gynhwysfawr ac roedd cysylltiadau sefydlog â gwasanaethau cymunedol arbenigol. Roedd amddiffyn ataliol yn cael ei drafod ac ar gael gan y nyrsys.

**2.34** Bellach, roedd mecanweithiau ar gyfer gwahaniaethu achosion iechyd rhwng yr uned pobl ifanc a'r carchar oedolion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddadansoddiad ar wahân o'r tueddiadau posibl, a oedd yn lleihau'r cyfle i ddefnyddio unrhyw ddysgu penodol posibl. Roedd data am gwynion iechyd o'r uned yn parhau i gael eu cyfuno â'r rhai hynny o'r carchar oedolion ac yn anodd i'w canfod. Roedd system gwynion iechyd y carchar yn cael ei defnyddio a chafodd amlenni gofal iechyd cyfrinachol eu darparu. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei hysbysebu'n amlwg ac roedd nifer o'r amlenni'n anodd i'w hagor. Derbyniwyd un gŵyn ers yr arolygiad diwethaf. Roedd yr ymateb yn brydlon ond roedd diffyg cydnabyddiaeth o ran sut roedd y bachgen yn teimlo, ac nid oedd yn ymdrin yn llawn â'r materion o dan sylw.

**2.35** Sefydlwyd fforwm gofal iechyd pobl ifanc ym mis Mai 2017; roedd y fenter gadarnhaol hon wedi dechrau mynd i'r afael â materion a amlygwyd gan y bechgyn.

**2.36** Cafwyd ffocws ar hybu iechyd, cysylltu ag addysg a'r tîm ymyriadau'n ddiweddar, a oedd yn addawol iawn. Roedd gweithio ar y cyd yn datblygu, gyda nyrsys yn ymuno â sesiynau presennol ar iechyd rhywiol a bwyta'n iach, a oedd yn ychwanegu mesur iechyd pellach. Roedd iechyd yn cael ei hyrwyddo mewn apwyntiadau iechyd unigol, ac roedd cefnogaeth ar gael er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu.

## Argymhellion

**2.37 Mae angen asesiad anghenion iechyd a lles cyfredol er mwyn nodi anghenion y boblogaeth yn y presennol a'r dyfodol a hysbysu'r ddarpariaeth gwasanaethau.**

**2.38 Dylai'r gwaith monitro a dadansoddi cwynion ac achosion iechyd yr uned fod yn drylwyr. Dylid hysbysebu'r system gwynion iechyd gyfrinachol a sicrhau ei bod ar**

**gael i'r holl fechgyn yn hawdd, a dylai'r ymatebion ymdrin yn llawn â'r materion a amlygwyd.**

**2.39 Dylai'r bechgyn dderbyn eu brechiadau'n amserol.**

## Darparu gofal (iechyd corfforol)

**2.40** Roedd nyrs gofrestredig yn asesu'r carcharorion newydd (gan gynnwys y rhai hynny oedd yn cyrraedd yn hwyr) o ran eu hanghenion iechyd ar frys. Roedd y nyrs ychwanegol yn golygu bod sgrinio iechyd angenrheidiol dilynol - gan gynnwys iechyd corfforol, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac anabledd niwrolegol - bellach yn cael eu cwblhau o fewn yr amseroedd argymelledig. Gwnaethpwyd atgyfeiriadau priodol.

**2.41** Roedd amrywiaeth briodol o wasanaethau gofal sylfaenol ar gael i'r bechgyn yn brydlon, gan gynnwys ffisiotherapi, podiatreg a'r optegydd. Neilltuwyd un awr y dydd yn y brif adran gofal iechyd ar gyfer y bechgyn yn unig, a oedd yn cael eu hebrwng gan swyddogion i fynychu gwasanaethau, gan gynnwys meddyg teulu a gwasanaethau deintyddol.

**2.42** Roedd y bechgyn yn gallu gwneud apwyntiadau gofal iechyd trwy'r CMS. Roedd cyfraddau'r nifer o fechgyn nad oedd yn mynychu yn uchel ond roedd hyn yn cael sylw, ac roedd y bechgyn yn cael eu hannog i fynychu ac i aildrefnu apwyntiadau pan fo angen. Roedd Marnell Medical Services yn darparu gwasanaethau meddyg teulu yn ystod y dydd ac y tu allan i oriau arferol, a oedd yn golygu bod ymagwedd gyson o ran gofal. Roedd apwyntiadau arferol gyda meddyg teulu o fewn dau ddiwrnod, ac roedd apwyntiadau ar y diwrnod ar frys ar gael ac yn cael eu blaenoriaethu yn ôl anghenion clinigol.

**2.43** Roedd y bechgyn â chyflyrau tymor hir ac anghenion cymhleth yn hysbys iawn i'r tîm ac yn cael eu hadolygu gan nyrsys yn rheolaidd a'u goruchwylio gan y meddyg teulu. Roedd cynlluniau gofal ar sail tystiolaeth ar gyfer y rhai hynny â chyflyrau tymor hir, ac roedd cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer bechgyn ag anghenion cymhleth.

**2.44** Roedd argaeledd apwyntiadau iechyd allanol yn dda ac nid oedd y rhain yn cael eu canslo'n aml iawn.

## Y fferyllfa

**2.45** Roedd meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi'n brydlon gan y fferyllfa fewnol, ar sail claf wedi'i enwi mewn dosau wedi'u pacio o flaen llaw yn bennaf, ac roeddent yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i'r uned mewn troli o dan glo. Roedd yr holl feddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau rheoledig bellach yn cael eu gweinyddu o ystafell weinyddu meddyginiaeth yr uned, a oedd yn amgylchedd gwell o lawer ers yr arolygiad diwethaf.

**2.46** Roedd presgripsiynu'n briodol i'r oedran ac roedd y rhan fwyaf o'r feddyginiaeth yn cael ei gweinyddu dan oruchwyliaeth ar amseroedd rheolaidd mewn modd cyfrinachol, diogel ac o gymorth. Roedd swyddogion yn goruchwylio gweinyddu meddyginiaeth yn effeithiol. Gallai'r bechgyn gadw meddyginiaethau, fel anadlwyr ac eliäu, a chwblhawyd asesiadau risg ar gyfer meddyginiaeth mewn meddiant fel y bo angen. Roedd cyffuriau rheoledig yn cael eu presgripsiynu'n bennaf ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac ar sail cleifion a enwir.

**2.47** Gallai'r nyrsys weinyddu amrywiaeth fach o feddyginiaeth heb bresgripsiwn meddyg teulu, ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi'n briodol yn SystmOne. Roedd rhai protocolau meddyginiaeth wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn briodol i'r oedran. Roedd stoc

mewn argyfwng ar gael os oedd angen. Roedd y fferyllydd yn adolygu'r defnydd o feddyginiaeth ac roedd ar gael i weld y bechgyn ar gyfer cyngor ar gais neu atgyfeiriad gan staff iechyd.

**2.48** Roedd storio a gweinyddu'n briodol. Roedd y cabinetau meddyginiaeth yn lân ac yn daclus, gyda gwahaniaethu amlwg rhwng meddyginiaethau mewn meddiant a'r rhai hynny o dan oruchwyliaeth. Roedd camau priodol i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio o fewn yr amrediad tymheredd cywir.

## Deintyddiaeth

**2.49** Roedd Time for Teeth yn darparu amrywiaeth lawn o wasanaethau cyfwerth â'r GIG, gan gynnwys hybu iechyd y geg dda.Yn ein harolwg, dywedodd 65% o'r bechgyn, yn erbyn y cymharydd o 34%, ei bod yn hawdd gweld y deintydd. Roedd yr amser aros ar gyfartaledd ar gyfer apwyntiadau arferol tua dwy wythnos ac roedd gofal deintyddol ar frys yn cael ei flaenoriaethu, a oedd yn gadarnhaol. Roedd bechgyn yn cael eu hatgyfeirio at driniaeth orthodontig allanol. Roedd swît y deintydd yn parhau i fod yn gyfleuster rhagorol, yn bodloni'r safonau rheoli heintiau ac yn cynnwys ystafell ddiheintio ar wahân. Roedd yr offer deintyddol yn cael eu cadw'n briodol ac roedd gwastraff deintyddol yn cael ei waredu'n briodol. Roedd cadw cofnodion yn dda

## Darparu gofal (iechyd meddwl)

**2.50** Roedd bechgyn ag anghenion iechyd meddwl yn cael eu nodi'n brydlon trwy sgrinio iechyd cynhwysfawr yn y dderbynfa, yn ogystal ag asesiadau sgrinio iechyd meddwl ac anabledd niwrolegol dilynol. Yn ogystal, cafwyd cydweithio effeithiol rhwng swyddogion, staff iechyd a gweithwyr achos. Roedd nyrs iechyd meddwl yr uned yn darparu gwasanaeth ymatebol a gofalgar. Bellach, roedd gan y nyrs fwy o amser i'w dreulio ar weithredu ymyriadau iechyd meddwl sylfaenol ar gyfer bechgyn â phroblemau iechyd meddwl cymedrol i ganolig, gan gynnwys ymlacio, gweithgareddau gofal a deunydd hunangymorth priodol i'w hoedran. Roedd ganddi chwech o fechgyn yn ei llwyth achos, ac roedd hefyd yn mynychu'r holl adolygiadau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), a oedd yn gadarnhaol.

**2.51** Roedd y Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed (FACTS) amlddisgyblaethol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol. Roedd nyrs glinigol arbenigol fel arfer yn darparu un sesiwn yr wythnos ac yn cefnogi 11 o fechgyn. Roedd yr amseroedd aros yn fyr ac roedd y bechgyn yn cael eu gweld yn rheolaidd, ond roedd mynediad cyfyngedig i ymyriadau ar gyfer bechgyn ag anghenion mwy cymhleth yn parhau.

**2.52** Bu seiciatrydd yn mynychu bob pythefnos, ond cafwyd bwlch yn y ddarpariaeth am ychydig o fisoedd. Roedd seicolegydd clinigol yn mynychu'n benodol ar gyfer asesiad seicolegol amser cyfyngedig ar gyfer dau fachgen. Roedd seicolegydd wedi'i recriwtio ar gyfer y tîm mewngymorth i ddarparu sesiynau rheolaidd ac i ddatblygu gwasanaeth mwy cynhwysfawr.

**2.53** Roedd staff wedi'u hyfforddi ar y model adfer trawma, ac roedd 37% o staff y ddalfa wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Roedd y nyrs glinigol arbenigol wedi cwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddiant i asesu a darparu hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.

**2.54** Ers yr arolygiad diwethaf, roedd un bachgen wedi'i drosglwyddo i uned iechyd meddwl ddiogel o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Er bod hyn wedi mynd ychydig y tu hwnt i'r

arweiniad trosglwyddo 14 niwrnod, nid oedd hyn wedi'i gofnodi'n eglur yn nata'r uned i ddarparu'r wybodaeth gywir sydd ei hangen er mwyn i'r gwasanaeth asesu effaith hyn.

### Argymhelliad

**2.55 Dylai amrywiaeth lawn o ymyriadau iechyd meddwl fod ar gael i'r bechgyn, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed.**

## Arlwyo

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig prydau amrywiol i gwrdd â'u hanghenion unigol a bod bwyd yn cael ei baratoi a'i arlwyo'n unol â gofynion crefyddol a diwylliannol a'r rheoliadau cyfredol ar hylendid a diogelwch bwyd.**

**2.56** Roedd y bwyd yn parhau i fod yn amhoblogaidd; yn ein harolwg, dim ond 8% o'r bechgyn a ddywedodd ei fod yn dda. Roedd y rhan fwyaf o'r prydau bwyd yn parhau i gael eu paratoi oddi ar y safle ac yna eu cynhesu yng nghegin y carchar. Roedd brechdanau a rholiau'n cael eu paratoi ar y safle, a defnyddiwyd powdr i wneud cawl ac ychwanegu llysiau rhewedig ato.

**2.57** Roedd y fwydlen yn cael ei hailadrodd bob pedair wythnos. Arlwywyd ar gyfer amrywiaeth o ddietau crefyddol, meddygol a moesegol. Roedd cinio canol dydd yn cynnwys dewis o bum gwahanol frechdan, cawl a ffrwythau. Roedd y cinio poeth fin nos yn cynnig chwe dewis, ac roedd ffrwythau a snac ar gael gyda'r nos. Ar y penwythnosau, roedd y bechgyn yn cael tri phryd o fwyd poeth. Roedd y dognau'n ddigonol. Roedd yn gadarnhaol o hyd bod y bechgyn yn cael llaeth a thost ffres amser brecwast. Gallai'r bechgyn fwyta'u holl brydau bwyd yn gymunol, a oedd yn gyfle i staff osod safonau ymddygiad cymdeithasol da. Roedd y prydau bwyd a welsom yn ddigynnwrf ac yn cael eu rheoli'n dda gan y staff preswyl. Roedd y mannau gweini bwyd yn lân, ond roedd rhai llyfrynnau gwirio diogelwch bwyd a rheoli'r tymheredd yn anghyflawn.

**2.58** Gallai'r bechgyn ddefnyddio'r ciosgau gwybodaeth ar yr unedau i wneud sylwadau am y bwyd. Roedd y trefniadau ymgynghori ynglŷn â bwyd yn rhesymol.

### Argymhelliad

**2.59 Dylid nodi a chofnodi tymheredd y bwyd ar adeg ei weini, dylid monitro gwiriadau gweini'n cael eu cwblhau, a dylai goruchwylwyr y gweini gofnodi'r canfyddiadau'n gywir yn dilyn pob gwiriad.**

## Prynu nwyddau

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn gallu prynu amrywiaeth addas o nwyddau am brisiau rhesymol i gwrdd â'u hanghenion amrywiol, ac yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.**

**2.60** Roedd bechgyn yn defnyddio'r ciosgau gwybodaeth i archebu o'r siop. Roedd amrywiaeth eang o nwyddau wedi'u prisio'n briodol ar gael. Rhoddwyd pecyn derbyn i'r holl garcharorion newydd. Roedd y bechgyn yn gallu prynu eitemau fel dillad a nwyddau trydanol mewn

amrywiaeth o gatalogau. Nid oedd unrhyw oedi yn y system, ond roedd ffi weinyddol o 50c yn cael ei chodi ar y bechgyn am wneud archeb.

## Argymhelliad

**2.61 Ni ddylid codi ffi weinyddol ar y bechgyn am wneud archeb o gatalogau.**

# Section 3. Gweithgarwch pwrpasol

## Amser y tu allan i'r gell

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod plant a phobl ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser y tu allan i'w cell, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel addysg, diddordebau hamddenol a diwylliannol, saith niwrnod yr wythnos.[3]**

**3.1** Roedd bechgyn yn treulio mwy o amser y tu allan i'w cell o gymharu â sefydliadau tebyg, ac roedd hyn wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Roedd y rhai hynny ar y lefel wobrwyo uchaf yn gallu treulio 11 awr y dydd y tu allan i'w celloedd, a hyd at naw awr y dydd yn achos y bechgyn hynny ar y lefel isaf. Roedd yr holl fechgyn yn cael amser rheolaidd yn y gampfa, ac yn gallu mynd y tu allan i'r iardiau ymarfer corff o leiaf dair gwaith y dydd. Yn ein gwiriadau rôl, canfuwyd gennym fod 8% o fechgyn yn unig wedi'u cloi yn eu celloedd yn ystod y dydd. Roedd staff yn gwneud ymdrech sylweddol i gael y bechgyn allan o'u celloedd, gan gynnwys dod o hyd i amser i ddatgloi'r bechgyn oedd yn ofnus.

**3.2** Roedd mwy o weithgareddau ar gael ar yr adenydd ac roedd amser cymdeithasu'n cael ei reoli'n dda. Roedd yr ystafelloedd cymdeithasu i fechgyn ar lefel y wobr uchaf wedi gwella, ac yn cynnig cymhelliad go iawn.

## Addysg, dysgu a sgiliau

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod yr holl blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn addysg, dysgu a sgiliau, sy'n eu galluogi i ennill hyder a phrofi llwyddiant Bod disgwyliadau plant a phobl ifanc yn uchel. Bod plant a phobl ifanc yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud cynnydd o ran dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol i'w gwneud yn fwy cyflogadwy a'u helpu i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ar ôl dychwelyd i'r gymuned ehangach. Bod addysg, dysgu**

---

[3] Mae amser tu allan i'r gell, yn ogystal â 'gweithgaredd pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw amser mae'r plant a phobl ifanc allan o'u celloedd yn cymdeithasu neu'n defnyddio cyfleusterau cymunol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

**a sgiliau o ansawdd uchel, yn cynnig her ddigonol i'r plant a'r bobl ifanc ac yn eu galluogi i ennill cymwysterau pwrpasol.**

| | | |
|---|---|---|
| **3.3** | *Mae Estyn[4] wedi gwneud yr asesiadau canlynol o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu a sgiliau a gwaith:* | |
| | *Safonau:* | *Da* |
| | *Lles ac agweddau tuag at ddysgu:* | *Da* |
| | *Profiadau addysgu a dysgu:* | *Da* |
| | *Gofal, cymorth a chyfarwyddyd:* | *Rhagorol* |
| | *Arweinyddiaeth a rheolaeth:* | *Da* |

## Rheoli addysg a dysgu a sgiliau

**3.4** Roedd y carchar wedi ymrwymo i rôl a phwysigrwydd addysg a sgiliau, ac wedi datblygu'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau ymhellach. Roedd adnoddau wedi'u neilltuo i wella'r cyfleusterau addysg gorfforol, ac i alluogi wyth o swyddogion y carchar gael eu hyfforddi fel gweithwyr cefnogi dysgu.

**3.5** Roedd systemau gwella ansawdd yn cael eu monitro'n effeithiol, ac roedd systemau priodol ar gyfer monitro'r ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn cwrdd â'i dangosyddion perfformiad allweddol. Bu'r tîm dysgu a sgiliau newydd ar gyfer rheolaeth o ddydd i ddydd yn ei le am y 12 mis blaenorol yn unig, ac roedd yn rhy gynnar i weld yr effaith lawn ar ddeilliannau.

**3.6** Roedd y carchar yn defnyddio gwybodaeth y farchnad lafur yn effeithiol er mwyn adolygu ac ehangu ei gwricwlwm. Roedd wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth â chwmni clustogwaith i ddatblygu llwybr cynnydd arfaethedig ar gyfer ychydig o fechgyn wedi'u rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), gyda'r posibilrwydd o brentisiaeth ar ddiwedd eu cyfnod dedfryd, gyda hyfforddiant galwedigaethol perthnasol i baratoi'r bechgyn ar gyfer y cyfle hwn. Roedd partneriaethau pellach yn cynnwys Construction Youth Trust Ltd, a oedd yn darparu prosiectau treialu er mwyn helpu cyn-droseddwyr i gael prentisiaethau adeiladu.

**3.7** Roedd tîm uwch rheoli'r carchar wedi sicrhau cyllid i ddatblygu darpariaeth hyfforddiant galwedigaethol yr uned, gyda chynlluniau i addasu adeiladau ar gyfer hyn. Roedd y carchar wedi prynu offer er mwyn gallu cynnig cyfleoedd i fechgyn gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin, ac roedd y cynllun ar fin asesu ei adeiladau i gyflwyno'r ddarpariaeth hon.

**3.8** Roedd y tîm dysgu a sgiliau'n cynnal cyfarfodydd staff wythnosol, a oedd yn cynnwys adolygiadau o gynnydd, ymddygiad a chyrhaeddiad unigol y bechgyn. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu hysbysu'n dda gan ddiweddariadau defnyddiol ar ymddygiad y bechgyn a'u hanghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod y staff yn rhannu dealltwriaeth ynghylch sut i gefnogi'r bechgyn i wneud cynnydd pellach.

---

[4] Mae arolygu'r ddarpariaeth addysg a safonau addysgu, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc, yn cael ei gynnal gan Estyn, sef swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn gweithio o dan gyfarwyddyd cyffredinol Arolygiaeth Carchardai EM. Mae Estyn yn annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Argymhelliad

**3.9 Dylid cyfuno rheolaeth ddydd i ddydd dysgu a sgiliau a datblygiad tîm yn llawn trwy fonitro gofalus gan uwch reolwyr yr uned.**

## Darparu gweithgareddau

**3.10** Roedd athrawon yn neilltuo'r holl fechgyn i addysg o fewn ychydig ddyddiau ar ôl cyrraedd. Roedd y bechgyn yn gwneud y gorau o'r cyfle hwn ac yn profi'r amrywiaeth lawn o lwybrau dysgu a gynigiwyd yn ystod eu cynefino. Roedd gan y bechgyn fynediad i ddysgu priodol a pherthnasol a oedd yn eu galluogi i astudio amrywiaeth o bynciau galwedigaethol, datblygu eu sgiliau cymdeithasol a gwella eu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw.

**3.11** Roedd staff addysg yn nodi anghenion addysg a chefnogaeth unigol y bechgyn yn brydlon drwy amrywiaeth eang o asesiadau. Roeddent yn defnyddio canlyniadau'r rhain, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ddysgu flaenorol, i ddatblygu cynlluniau addysg unigol manwl (IEPs). Rhannwyd y cynlluniau hyn gyda'r holl staff mewn modd effeithiol iawn, ac fe'u defnyddiwyd yn dda gan yr athrawon i hysbysu eu cynlluniau.

**3.12** Ers yr arolygiad blaenorol, diwygiwyd yr amrywiaeth o ddewisiadau galwedigaethol i gynnwys pynciau sy'n fwy perthnasol i gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, gan gynnwys mecaneg beicio a chlustogwaith. Roedd y carchar wedi atgyfnerthu ei flaenoriaeth uchel ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y bechgyn fwy fyth. Roedd y cwricwlwm yn caniatáu i fechgyn ddysgu a gwella eu sgiliau hanfodol, ac i ymarfer defnyddio'r rhain yn yr holl agweddau o'u dysgu.

**3.13** Roedd ychydig iawn o fechgyn yn cymryd rhan mewn profiad gwaith, ac roedd cyfleoedd ar gyfer ROTL yn parhau wedi'u tanddefnyddio.

## Ansawdd y ddarpariaeth

**3.14** Roedd safon yr addysgu'n dda ar y cyfan, ac yn rhagorol mewn rhai achosion. Yn y dosbarthiadau gorau, roedd yr athrawon yn creu awyrgylch bositif iawn ar gyfer dysgu, yn rheoli ymddygiad yn dda ac yn cefnogi'r bechgyn i gynhyrchu gwaith o safon uchel. Roedd yr holl athrawon yn gosod amcanion eglur ar gyfer dysgu ac yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu i gynnal diddordeb y bechgyn trwy gydol y gwersi.

**3.15** Roedd y rhan fwyaf o gyfleusterau ac adnoddau'n bodloni anghenion y bechgyn yn dda ac yn cynnig amgylchedd diogel ac ysgogol ar gyfer dysgu. Roedd nifer o'r ystafelloedd addysgu'n cynnwys arddangosfeydd deniadol ar y waliau ynghyd ag adnoddau dysgu defnyddiol, a oedd yn cael eu defnyddio'n dda i gefnogi addysgu a dysgu. Roedd ychydig o'r adnoddau'n ddwyieithog, ac mewn rhai dosbarthiadau anogwyd y bechgyn i adnabod a defnyddio geiriau Cymraeg perthnasol.

**3.16** Roedd swyddogion ac athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i gefnogi'r bechgyn gyda'u dysgu ac i hyrwyddo eu cynnydd unigol. O ganlyniad i'r ymagwedd tîm hon, roedd rheoli ymddygiad y bechgyn yn y dosbarthiadau'n dda iawn. Pan oedd ymddygiad gwael yn achosi problemau, roedd yr athrawon yn diwygio'u strategaethau a'u gweithgareddau addysgu'n gyflym drwy ddefnyddio dulliau i ailgysylltu'r bechgyn mewn dysgu'n brydlon. Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn ymddwyn yn dda mewn addysg y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaeth ychydig ohonynt gamymddwyn a tharfu ar y dysgu yn y dosbarthiadau hyn.

**3.17** Roedd yr athrawon a'r swyddogion yn defnyddio adborth anffurfiol yn dda i annog ac arwain dysgu'r bechgyn. Roedd yr athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig eglur a phriodol am waith y bechgyn, gan gynnwys sylwadau perthnasol am eu cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd. Roedd yr holl athrawon yn rhoi adborth defnyddiol am ymddygiad y bechgyn yn ogystal â'u cynnydd o ran dysgu.

**3.18** Roedd gan bron yr holl fechgyn ran effeithiol mewn sesiynau misol i osod, adolygu a monitro'u cynnydd tuag at gyflawni eu nodau dysgu cytunedig ar draws yr holl agweddau o'u dysgu.

**3.19** Roedd y carchar wedi gwella ei ymagwedd o ran cefnogi'r bechgyn a oedd yn gwrthod cymryd rhan mewn addysg. Roedd y nifer prin iawn a oedd yn aros yn eu celloedd yn derbyn gwaith a oedd yn eu galluogi i ddilyn y cwricwlwm. Roedd gwell integreiddio rhwng y swyddogion a'r staff addysg yn galluogi'r bechgyn i dderbyn cefnogaeth ddysgu'n brydlon ac yn effeithiol. Cafwyd cynnydd da iawn a llwyddiannus o ran datblygu cyfleusterau i annog y bechgyn hyn i fynychu dosbarthiadau a dilyn amserlen lawn o weithgareddau. Roedd cyfranogiad y bechgyn mewn gweithgareddau ac addysg wedi gwella'n sylweddol, gan eu galluogi i gymryd camau tuag at ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, addysgol a gwaith.

## Cyraeddiadau addysg a galwedigaethol

**3.20** Roedd y mwyafrif o fechgyn yn mwynhau eu dysgu ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi. Roedd bron pob un ohonynt yn aros ar ei dasg y rhan fwyaf o'r amser, ac roedd mwyafrif yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda brwdfrydedd a diddordeb.

**3.21** Roedd y rhan fwyaf o'r bechgyn yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Roeddent yn datblygu eu sgiliau'n systematig ac yn ymfalchïo yn eu cyraeddiadau. Mewn dosbarthiadau galwedigaethol, yn enwedig saernïaeth, roeddent yn gweithio'n galed i gyflawni safon uchel. Mewn coginio, roeddent yn datblygu sgiliau defnyddiol y gallent eu defnyddio yn eu cartrefi eu hunain neu eu trosglwyddo i geginau masnachol.

**3.22** Yn 2016-17, enillodd y rhan fwyaf o fechgyn gymwysterau neu dystysgrifau credyd a oedd yn adlewyrchu eu cyflawniadau dysgu'n dda. Mewn dosbarthiadau galwedigaethol, cyflawnodd 96.5% o'r bechgyn eu nodau dysgu, sydd hefyd yn wir yn achos 78% mewn dosbarthiadau cyflogadwyedd. Cyflawnodd saith o fechgyn TGAU. Roedd cyflawniadau mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn uchel, ac roedd bron pob bachgen yn datblygu'r sgiliau hyn yn dda mewn dosbarthiadau galwedigaethol. Roedd yr holl fechgyn a fu'n aros ar yr uned am chwe mis neu fwy yn gwella agweddau o'u llythrennedd a rhifedd o leiaf un lefel.

**3.23** Roedd nifer o fechgyn yn datblygu sgiliau astudio yn dda ac yn dysgu sut i ymgymryd ag addysg. Roeddent yn dechrau deall sut y gellid trosglwyddo'r sgiliau roeddent yn eu hennill i addysg bellach neu gyflogaeth yn y dyfodol.

**3.24** Mewn gweithdai galwedigaethol, roedd y rhan fwyaf o'r bechgyn yn rhoi sylw da i gadw tŷ er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel. Roedd y rhan fwyaf yn cadw eu mannau gweithio yn daclus ar eu liwt eu hunain. Roedd bron pob un yn dangos dealltwriaeth dda o ran pryd i ddefnyddio cyfarpar amddiffynnol personol yn briodol.

## Llyfrgell

**3.25** Roedd llyfrgell ag adnoddau da ar gael i'r holl fechgyn ar yr uned. Roedd staff y llyfrgell yn annog ac yn cefnogi'r bechgyn i ddefnyddio'r llyfrgell, ac roedd ganddynt berthynas dda â

nhw. Roedd amrywiaeth ddigonol o lyfrau ac adnoddau eraill priodol i'r oedran ar gael, gan gynnwys deunydd hygyrch fel teitlau hawdd i'w ddarllen, ar gyfer y bechgyn hynny â sgiliau darllen cyfyngedig. Roedd ychydig o'r bechgyn yn manteisio ar sesiynau gyda darllenydd preswyl. Roedd dewis defnyddiol o lyfrau Cymraeg ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag amrywiaeth o lyfrau sain. Roedd amrywiaeth dda o ddeunydd ar gyfer dysgu presennol, yn ogystal â chyfnodolion diddordebau hamdden. Roedd amrywiaeth eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol priodol i'r oedran, gan gynnwyssawl cyfres lyfrau gyflawn, a oedd yn annog y bechgyn i ddatblygu a chynnal eu harferion darllen. Roedd y trefniadau i fenthyg llyfrau o lyfrgelloedd eraill o fewn y carchar yn effeithiol, ac roedd y bechgyn yn cael eu hannog i ofyn am lyfrau eraill i ategu eu hanghenion astudio a'u diddordebau.

# Addysg gorfforol a byw'n iach

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod yr holl blant a'r bobl ifanc yn deall pwysigrwydd byw'n iach, ac yn cael eu hannog a'u galluogi i gymryd rhan a mwynhau addysg gorfforol yn ddiogel, waeth beth yw eu gallu. Bod y rhaglen gweithgareddau'n gynhwysol ac wedi'i chynllunio'n dda. Bod yn amrywiol ac yn cynnwys gweithgareddau o dan do ac yn yr awyr agored.**

**3.26** Roedd gan yr holl fechgyn fynediad da iawn i ddarpariaeth addysg gorfforol. Roeddent yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon neu fynd i'r gampfa yn ystod eu hamserlen dysgu yn ogystal â defnyddio'r cyfleusterau gyda'r nos a dros y Sul. Roeddent yn gallu defnyddio'r gampfa ag offer helaeth yn aml, ac yn cael cyfleoedd da i gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored.

**3.27** Roedd y gampfa'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau diweddar o ansawdd uchel a oedd yn galluogi'r bechgyn i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. Roedd staff y gampfa'n sicrhau bod y bechgyn yn datblygu dealltwriaeth dda am sut roedd y gweithgareddau hyn yn gwella'u hiechyd a'u ffitrwydd. Roeddent hefyd yn rhoi sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y bechgyn o sut roedd hydradu, grwpiau bwyd gwahanol a sylweddau gwenwynig yn effeithio ar eu hiechyd a'u ffordd o fyw.

**3.28** Roedd bechgyn a oedd yn ymddiddori mewn chwaraeon penodol yn cael cyfleoedd da i ennill achrediad perthnasol ar amrywiaeth o lefelau priodol.

# Section 4. Ailsefydlu

## Cyn rhyddhau ac ailsefydlu

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod cynlluniau ar gyfer rhyddhau neu drosglwyddo plentyn neu unigolyn ifanc yn cychwyn wrth iddynt gyrraedd y sefydliad. Bod ailsefydlu'n tanseilio gwaith y sefydliad cyfan, gyda chefnogaeth partneriaethau strategol yn y gymuned ac yn cael ei hysbysu gan asesiad o risgau ac anghenion pobl ifanc. Bod cynlluniau parhaus yn sicrhau pontio di-dor i mewn i'r gymuned.**

**4.1** Nid oedd rheoli ailsefydlu wedi newid yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf oherwydd bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei roi i feysydd eraill o berfformiad yr uned. Er hyn, cafwyd rhywfaint o ffocws ar gynnal a symud y ddarpariaeth ymlaen, er bod hyn dal yn y cyfnodau cynnar. Roedd gwaith ailsefydlu'n cael ei danseilio gan gynllun gweithredu a ddatblygwyd o ddadansoddiad o anghenion yn 2016. Polisi'r uned oedd creu dadansoddiad o anghenion bob dwy flynedd, nad oedd bob amser yn cwrdd â newidiadau yn y boblogaeth.

**4.2** Roedd y pwyllgor ailsefydlu wedi cyfarfod unwaith yn 2017 gyda phresenoldeb rhesymol, ond nid oedd unrhyw gynrychiolwyr allanol yn bresennol. Roedd cyfarfod y bwriadwyd ei gynnal ym mis Gorffennaf 2017 wedi'i ganslo. Roedd y cyfarfodydd yn rhy anghyson i hybu gwelliannau.

**4.3** Roedd yr uned yn parhau i gynnal cysylltiadau strategol a gweithredol defynddiol gyda phartneriaid allanol. Roedd aelodau o'r tîm gwaith achos yn mynychu paneli ailsefydlu yng Nghymru, ac roedd y tîm hefyd yn cael ei gynrychioli yng nghonsortiwm ailsefydlu'r De-orllewin yn Lloegr.

**4.4** Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm gwaith achos yn cynnwys dau weithiwr achos llawn amser, dau weithiwr camddefnyddio sylweddau gyda rôl ddeuol, gweithiwr gwasanaethau troseddwyr ifanc oedd wedi'i drosglwyddo a oedd yn rheoli'r bechgyn ar remánd, gweithiwr cymdeithasol oedd wedi'i drosglwyddo a oedd yn cefnogi'r bechgyn o dan ofal eu hawdurdod lleol, dau swyddog ymyriadau, swyddog cyswllt â theuluoedd a swyddog gweinyddol. Roedd dwy swydd wag yn y tîm hefyd.

**4.5** Nid oedd y drwydded rhyddhau dros dro (ROTL) wedi'i defnyddio ers yr arolygiad diwethaf, er bod yr uned yn eglur o ran ei phwysigrwydd i ysgogi bechgyn ac annog ymrwymiad ac ymddygiad da. Bu'r rheolwyr yn weithredol o ran cysylltu â sefydliadau lleol ac wedi sicrhau cynigion ar gyfer lleoliadau ROTL o ddwy ffynhonnell (gweler hefyd baragraff 3.6). Roedd y lleoliad cyntaf ar gael cyn gynted ag y nodwyd bechgyn ar ei gyfer, ac roedd bwrdd ROTL oedd ar y gweill yn fuan ar ôl yr arolygiad yn ystyried wyth bachgen a oedd wedi'u nodi'n addas.

**4.6** Roedd y ddarpariaeth rhyddhau'n gynnar ar gyfer y bechgyn â gorchmynion cadw a hyfforddi (DTO) yn cael ei rheoli'n briodol. Dim ond chwech o fechgyn a fu'n gymwys ar gyfer eu rhyddhau'n gynnar yn ystod y chwe mis blaenorol, ac fe ganiatawyd hyn i un ohonynt (gwrthodwyd cais rhyddhau'n gynnar un bachgen arall cyn ei drosglwyddo i'r uned). Nid oedd unrhyw fachgen yn gymwys ar gyfer cyrffyw cyfyngu i'r cartref yn ystod yr un cyfnod.

**4.7** Roedd hyd y ddedfryd roedd rhai bechgyn wedi ei derbyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod dau neu dri'n cael eu trosglwyddo i garchar oedolion bob mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Roedd y gwaith cynllunio ar gyfer hyn yn cychwyn misoedd o flaen llaw. Roedd y trefniadau pontio ar gyfer y bechgyn oedd yn symud i brif safle'r Parc yn fwy cynhwysfawr na'r rhai

hynny oedd yn symud i safle arall, oherwydd bod y gwaith paratoi'n dibynnu ar ymateb y carchar sy'n derbyn.

**4.8** Roedd proses ar gyfer casglu data ar ôl rhyddhau ynghylch bechgyn oedd wedi'u rhyddhau o'r uned wedi'i gweithredu ychydig fisoedd yn gynharach. Roedd yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd hyn o ran llunio'r ddarpariaeth.

### Argymhellion

**4.9** **Dylai'r pwyllgor ailsefydlu ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth cyn rhyddhau ac ailsefydlu'n seiliedig ar ddealltwriaeth gyfredol o anghenion y boblogaeth.**

**4.10** **Dylai'r uned wneud mwy o ddefnydd o ryddhau ar drwydded dros dro er mwyn cefnogi cynllunio rhyddhau a chadw cysylltiadau teuluol.**(Argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.10)

## Cynllunio hyfforddiant a rheoli remánd

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod gan yr holl blant a phobl ifanc gynllun hyfforddiant neu remánd sy'n seiliedig ar asesiad unigol o risgiau ac anghenion. Bod y staff perthnasol yn gweithio ar y cyd â'r plant a'r bobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr i lunio ac adolygu eu cynlluniau. Bod y cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u gweithredu trwy gydol ac ar ôl cyfnod y bobl ifanc yn y ddalfa i sicrhau proses bontio esmwyth i'r gymuned.**

**4.11** Roedd gan y bechgyn gynllun hyfforddiant (dedfryd) neu gynllun remánd, ond yn ein harolwg, ychydig yn fwy na hanner ohonynt yn unig oedd yn ymwybodol o'u cynllun, er eu bod wedi derbyn copi o'u nodau. Roedd gan y bechgyn gynlluniau mewn addysg hefyd, neu nodau a gytunwyd arnynt gyda'i gweithwyr allweddol neu mewn adolygiadau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), ac nid oedd yn amlwg bob amser sut roedd y rhain yn dod at ei gilydd. Roedd gweithwyr achos yn mynychu amrywiaeth o gyfarfodydd a oedd yn trafod y bechgyn roeddent yn eu rheoli, a oedd yn rhoi gwybodaeth eang iddynt am gynnydd y bachgen ar yr uned. Roedd y cyfarfod amlddisgyblaethol dyddiol yn gweithio'n dda i rannu'r holl wybodaeth berthnasol am y bechgyn, ac yn cyfrannu at well dealltwriaeth o anghenion y bechgyn yn achos yr holl staff oedd yn gweithio â hwy.

**4.12** Roedd gan y gweithwyr achos lwythi achosion o hyd at 14 o fechgyn, ac roeddent yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd ac ar gael i'r bechgyn rhwng y cyfarfodydd. Gwahoddwyd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu i fynychu'r cyfarfodydd adolygu. Roedd presenoldeb y gwasanaethau troseddwyr ifanc (YOS) a swyddogion adolygu annibynnol yn dda ar y cyfan, er bod y pellter roedd rhaid i rai ohonynt deithio i'r uned yn golygu bod ymweliadau i weld y bechgyn rhwng yr adolygiadau ffurfiol yn llai cyffredin. Roedd gweithwyr proffesiynol yn y gymuned yn cael cyfle i gael trafodaeth breifat gyda'r bachgen roeddent yn gyfrifol amdano cyn y cyfarfodydd adolygu. Roedd y rheolwyr yn monitro presenoldeb y staff preswyl, ac roedd yn well na'r hyn rydym yn ei weld yn aml, ond nid oedd presenoldeb meysydd eraill gystal â hyn. Roedd gwaith i'w wneud o ran gwella presenoldeb y staff addysg yn dilyn gwelliant yn yr adborth ysgrifenedig roeddent yn ei ddarparu i'r cyfarfodydd.

**4.13** Nid oedd cofnodion y cyfarfodydd adolygu'n adlewyrchu gwybodaeth y gweithwyr achos am y bechgyn roeddent yn eu rheoli, y risgiau roeddent yn eu cyflwyno, eu hymddygiad troseddol a sut roedd hyn yn ymddangos yn y ddalfa. Nid oedd y trafodaethau am y meysydd hyn yn cael eu cofnodi'n ddigon manwl, ac roedd rhai o'r nodau'n generig. Roedd sicrhau

ansawdd wedi'i ddogfennu wedi'i gyflwyno ac yn dechrau mynd i'r afael â hyn. Nid oedd yr offeryn e-Asset (rheoli achos electronig) yn cael ei ddefnyddio i gofnodi cyfarfodydd, hyd nes bod system wedi'i diweddaru ar gael. Er bod gweithwyr achos yn rhoi blaenoriaeth i gyswllt parhaol â gweithwyr Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc, ac yn cadw cofnodion o'r wybodaeth a rannwyd ar e-bost, y ffôn neu mewn cyfarfodydd, roedd diffyg system rheoli achosion yn atal rhannu gwybodaeth lawn am gynnydd, risgiau ac anghenion y bechgyn gyda phartneriaid allanol.

## Argymhellion

**4.14 Dylai pob adran sy'n gweithio gyda bachgen yn rheolaidd gael eu cynrychioli yn ei gyfarfod cynllunio hyfforddiant neu remánd i roi adborth ac atgyfnerthu cyson i'w helpu i gyflawni ei nodau unigol.**

**4.15 Dylai cofnodion y cyfarfodydd adolygu adlewyrchu'r drafodaeth yn llawn, a sut mae'r nodau a gytunwyd arnynt wedi'u cysylltu â risgiau a throseddu.**

**4.16 Dylid cael system rheoli achosion i gofnodi cynnydd y bechgyn yn y ddalfa ac i hwyluso rhannu gwybodaeth ag asiantaethau cymunedol.**

## Amddiffyn y cyhoedd

**4.17** Roedd unrhyw bryderon amddiffyn y cyhoedd ar gyfer carcharorion newydd yn cael eu nod yn ystod sgrinio yn y dderbynfa ac yn cael eu olrhain gan weithwyr achos, a oedd hefyd yn gwirio gyda'r timau troseddwyr ieuenctid allanol (YOT) ynghylch trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA), gorchmynion atal neu aflonyddu neu'r risg y gallent o bosibl ei gyflwyno i fechgyn eraill neu staff. Roedd prosesau eglur ar gyfer cyfyngu cysylltiadau neu eu monitro, ac yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o'r penderfyniadau a wnaethpwyd.

**4.18** Roedd saith o fechgyn yn destun MAPPA lefel un (y lefel isaf) ac roedd dau'n destun MAPPA lefel dau (y lefel ganolog). Roedd timau troseddwyr ifanc allanol yn arwain o ran sgrinio'r bechgyn ar gyfer lefelau MAPPA, ac roedd y rhain yn cael eu cadarnhau gyda'r gweithwyr achos fel rhan o'r broses cynllunio ar gyfer rhyddhau. Lle bo modd, roedd gweithwyr achos yn mynychu adolygiadau MAPPA cymunedol y bechgyn ar lefel dau neu dri.

## Pobl ifanc â dedfryd benagored

**4.19** Gosodwyd nifer fach o fechgyn â dedfrydau penagored yn yr uned, ac nid oedd gan un o'r bechgyn ddedfryd o'r fath adeg yr arolygiad. Roedd bechgyn â dedfrydau penagored yn cael eu rheoli yn yr un modd â'r bechgyn eraill, gyda chyfarfodydd adolygu a chynllunio rheolaidd. Roedd arbenigedd digonol yn y tîm gwaith achos i reoli'r ddedfryd, ond nid oedd unrhyw gefnogaeth neu ddarpariaeth benodol ar eu cyfer. Roedd wyth o fechgyn â dedfrydau o fwy na phum mlynedd. Nid oedd gan yr uned adnoddau fel uned hirdymor, ac nid oedd digon o ddadansoddi anghenion y bechgyn a fyddai o bosibl yn treulio sawl blwyddyn ar yr uned tra bod eu cyfoedion yn cael eu rhyddhau.

## Plant sy'n derbyn gofal

**4.20** Roedd 16 o fechgyn yn derbyn gofal adeg yr arolygiad, ond roedd cyfanswm o 31 o fechgyn (72%) a oedd yn destun cyfrifoldeb statudol awdurdod lleol. Roedd ugain o'r bechgyn fwy na

50 milltir o'u cartref, ac o'r rhain, roedd wyth ohonynt fwy na 100 milltir o'u cartref. Dengys cofnodion lleol fod awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi gosod bechgyn yn y Parc.

**4.21** Roedd bechgyn â hawl i gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol yn cael eu nodi'n gyflym yn y dderbynfa. Roedd gweithiwr cymdeithasol a secondiwyd yn arwain o ran hysbysu'r awdurdodau lleol a'u hatgoffa o'u rhwymedigaethau pan roedd bachgen roedd ganddynt gyfrifoldeb amdano'n cael ei dderbyn. Roedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol yn parhau i fod yn amrywiol. Roedd y gweithiwr cymdeithasol a secondiwyd wedi datblygu perthynas dda gydag awdurdodau lleol Cymru, ond roedd hyn yn fwy anodd gydag awdurdodau lleol Lloegr oherwydd eu nifer.

**4.22** Roedd adolygiadau statudol ar gyfer bechgyn sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni gofynnol fel arfer, ond roedd oedi'n parhau mewn rhai achosion. Roedd proses uwchgyfeirio newydd ar waith ac roedd data'n cael eu casglu er mwyn gallu herio'r awdurdodau lleol a hysbysu cadeiryddion y bwrdd lleol diogelu plant (LSCB) ynghylch problemau.

### Argymhelliad

**4.23** **Dylai'r holl fechgyn sydd â statws derbyn gofal dderbyn lefelau cyson a digonol o gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol.**(Argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.25)

## Cynllunio ar gyfer ailintegreiddio

**Deilliannau disgwyliedig:**
**Bod anghenion y plant a'r bobl ifanc o ran ailsefydlu'n cael eu diwallu cyn eu rhyddhau. Bod ymateb amlasiantaethol effeithiol yn cael ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion penodol pob un o'r bobl ifanc er mwyn sicrhau'r llwyddiant mwyaf posibl wrth eu hailintegreiddio yn y gymuned.**

### Rhyddhau

**4.24** Roedd y broses rhyddhau'n digwydd trwy safle derbyn yr oedolion, gyda bechgyn yn cael eu cadw ar wahân i oedolion oedd hefyd yn cael eu rhyddhau, eu trosglwyddo neu'n gweithio yno. Roedd gweithwyr achos yn sicrhau bod y rhan fwyaf o fechgyn yn cwrdd ag oedolyn cyfrifol wrth gael eu rhyddhau, ac nid oeddent yn mynd â'r bechgyn i'r ardal derbyn tan eu bod yn ymwybodol bod yr oedolyn yn y ganolfan ymwelwyr. Mewn achosion lle nad oedd bechgyn yn cwrdd ag oedolyn, aethpwyd â hwy i'r orsaf leol ac roedd y staff yn sicrhau eu bod yn mynd ar y trên cywir. Roedd bagiau plaen yn cael eu darparu er mwyn cario eitemau personol, ac roedd y prosesau rhyddhau'n effeithlon.

### Llety

**4.25** Roedd yr uned wedi derbyn rhai canlyniadau da o ran gwella deilliannau llety i fechgyn wrth eu rhyddhau. Roedd deilliannau'n cael eu monitro gan reolwr y tîm. Dywedwyd wrthym y gallai fod yn arbennig o anodd dod o hyd i lety ar gyfer bechgyn nad oedd ganddynt deulu i ddychwelyd atynt a'r rhai hynny oedd yn 18 oed tra yn y ddalfa. Roedd gweithwyr achos a rheolwyr yn uwchgyfeirio achosion â phartneriaid allanol lle nad oedd anghenion llety'r bechgyn wedi'u diwallu'n ddigonol. Roedd y bechgyn hefyd yn derbyn cefnogaeth dda gan eiriolwyr annibynnol o Barnardo a'r Howard League. Yng Nghymru, gellid defnyddio paneli

ailsefydlu ar gyfer trafodaethau amlasiantaeth ynglŷn â'r bechgyn unigol a oedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety addas. Nid oedd unrhyw gyfleuster tebyg ar gyfer y bechgyn o Loegr.

**4.26** Nid oedd unrhyw fechgyn wedi'u rhyddhau heb gyfeiriad neu i lety anaddas yn y chwe mis blaenorol, ond mewn rhai achosion, roedd llety'n cael ei nodi'n rhy agos at ddyddiad rhyddhau'r bachgen ac ar ôl cynnal ei adolygiad cynllunio terfynol. Roedd yn golygu bod cynllunio rhyddhau cynhwysfawr yn amhosibl.

## Argymhelliad

**4.27** **Dylai Gwasanaeth Ieuenctid y Ddalfa weithio gydag adrannau perthnasol y llywodraeth i sicrhau bod gan yr holl fechgyn lety priodol i fynd iddo mewn da bryd cyn eu rhyddhau.**

## Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

**4.28** Roedd y Parc wedi cryfhau ei berthynas gyda rhai colegau lleol, ac roedd hyn wedi galluogi ychydig o fechgyn i gael cyfweliadau ar gyfer cyfleoedd i wneud cynnydd tra eu bod yn parhau yn yr uned. Roedd datblygu partneriaethau â darparwyr cyflogaeth a hyfforddiant wedi gwella cyfleoedd y bechgyn i symud ymlaen at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ddiwedd eu cyfnodau dedfryd. Fodd bynnag, roedd hi'n rhy gynnar i werthuso effaith lawn y cysylltiadau hyn.

**4.29** Roedd athrawon yn cynnig cyfarwyddyd defnyddiol i fechgyn ynglŷn â chyfleoedd i wneud cynnydd. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r bechgyn yn cael eu hysbysu'n dda ynglŷn â'r amrywiaeth o gyfleoedd oedd ar gael iddynt wrth gael eu rhyddhau. Nid oeddent yn cael mynediad cynnar at gyngor gyrfaoedd annibynnol i sicrhau eu bod yn gallu cynllunio sut i wneud defnydd adeiladol o'u hamser ar yr uned, a gwella eu rhagolygon cyflogaeth neu gynnydd.

## Argymhelliad

**4.30** **Dylai newydd ddyfodiaid gael mynediad digonol at gyngor a chyfarwyddyd annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynllunio'r defnydd gorau o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt ar yr uned.**

## Gofal iechyd

**4.31** Gwelwyd pob bachgen cyn ei drosglwyddo neu ei ryddhau er mwyn nodi unrhyw anghenion iechyd oedd angen sylw a chynigiwyd cyngor hyrwyddo iechyd, gan gynnwys amddiffyn yn erbyn rhwystrau. Roeddent yn cael crynodeb rhyddhau ar gyfer eu meddyg teulu a oedd yn cynnwys gwybodaeth iechyd berthnasol. Roedd bechgyn ar feddyginiaeth yn cael cyflenwad ar gyfer un wythnos, ac roedd y rheiny a oedd yn cael meddyginiaeth rheoledig yn ei derbyn o staff y fferyllfa y tu allan i'r carchar er mwyn atal unrhyw ddargyfeirio. Roedd bechgyn ag anghenion iechyd meddwl parhaus yn cael eu cysylltu â'u tîm gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a/neu gwasanaethau oedolion, ac roedd cysylltiadau da gyda'r timau troseddwyr ifanc.

## Cyffuriau ac alcohol

**4.32** Roedd gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn cynnal sesiwn lleihau niwed gyda'r holl fechgyn cyn eu rhyddhau. Roedd cysylltiadau da â'r gweithwyr achosion, yn ogystal â chynllunio ar gyfer rhyddhau a phontio i wasanaethau oedolion. Roedd cysylltiadau â'r gwasanaethau cymunedol a'r timau troseddwyr ifanc yn dda.

## Arian, budd-daliadau a dyledion

**4.33** Roedd y ddarpariaeth cyngor ar arian, budd-daliadau a dyledion wedi gwella rhywfaint ond roedd yn parhau heb ei datblygu'n ddigonol. Roedd y tîm addysg yn darparu gwybodaeth sylfaenol ar gyllideb a rheolaeth ariannol, ac roedd bechgyn yn cael eu cefnogi i gael rhifau Yswiriant Gwladol ac agor cyfrifon banc, er nad oedd hyn yn cynnwys cyfrifon cynilo. Nid oedd unrhyw gyngor â ffocws ar osgoi a rheoli dyled, gamblo neu dderbyn budd-daliadau.

## Argymhelliad

**4.34** **Dylai bechgyn dderbyn cyngor a chyfarwyddyd cynhwysfawr ar gyllid, budd-daliadau a dyled cyn eu rhyddhau.**

## Plant, teuluoedd a chysylltiad â'r byd y tu allan

**4.35** Roedd gwaith da yn dal i fynd rhagddi o ran cefnogi'r bechgyn i gael cyswllt o ansawdd gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Roedd y safle ymweliadau ar wahân yn dal i fod mewn cyflwr da, yn gyfforddus ac yn addas ar gyfer plant. Roedd y ganolfan ymwelwyr yn dal i fod yn adnodd gwerthfawr i'r rhieni a'r teuluoedd.

**4.36** Roedd bechgyn yn gallu defnyddio'r ciosg electronig ar yr adenydd er mwyn archebu ymweliadau, ac roeddent yn gallu defnyddio'r ffonau yn eu cell i gadw mewn cysylltiad. Roedd rhieni'n croesawu'r cysylltiad hwn ac yn teimlo bod eu plentyn yn gallu adrodd am unrhyw faterion wrthynt yn gyflym. Roedd dau fachgen wedi defnyddio Skype yn ystod y chwe mis diwethaf, ac roedd trefniadau i fachgen arall ddefnyddio'r cyfleuster hwn hefyd.

**4.37** Cafodd gweithiwr teuluol penodedig i'r uned ei benodi'n ddiweddar, a oedd yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau cyn gynted â phosibl. Roedd hi hefyd yn gweithredu llinell ffôn y rhieni, ac wedi ehangu ei horiau'n ddiweddar er mwyn rhieni sy'n gweithio. Roedd y rhieni y buom yn siarad â hwy'n cadarnhau bod eu galwadau ffôn yn cael eu hateb yn brydlon.

**4.38** Yn ystod yr arolygiad, cynhaliodd yr uned ddiwrnod i'r teulu, a fynychwyd gennym am ychydig o amser. Cynhaliwyd y diwrnod yn ardal addysg yr uned, ac roedd yn galluogi rhieni, ffrindiau a theuluoedd i weld lle roedd y bechgyn yn byw a'u hamodau byw. Cafodd y diwrnod i'r teulu ei fynychu'n dda, ac roedd ganddo awyrgylch digynnwrf a chymdeithasol. Bu i'r staff ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i'r bechgyn a'u teuluoedd. Roedd y bechgyn nad oedd yn disgwyl ymweliad ar y diwrnod hwnnw yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiad, ac wedi bod wrthi'n paratoi bwyd a gweini diodydd a lluniaeth i ymwelwyr. Siaradom â nifer o rieni yn dilyn y diwrnod i'r teulu, ac roeddent i gyd yn gwerthfawrogi ymdrechion yr uned. Dywedodd un rhiant wrthym ei bod yn teimlo'i bod wedi colli ei gallu i fod yn rhiant yn llwyr pan aeth ei phlentyn i'r carchar, ac er ei bod yn siarad ag ef ar y ffôn, roedd hi'n teimlo ei bod yn ei golli. Dywedodd ei bod wedi teimlo'n fwyaf agos at ei phlentyn ar y diwrnod i'r teulu, a'i bod yn ddiolchgar am hyn.

## Agweddau, meddwl ac ymddygiad

**4.39** Ers yr arolygiad blaenorol, roedd yr uned wedi newid ei hymagwedd at ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac wedi mabwysiadau'r model adfer trawma (TRM) (gweler troednodyn 2). Nid oedd yr ymyriadau heb eu hachredu blaenorol ar gael bellach, ac yn lle hyn, cafodd pob bachgen ei asesu ar gyfer gwaith unigol ac roedd y ddau swyddog ymyriadau'n defnyddio ymagwedd wedi'i hysbysu gan TRM. Roedd y newid yn un cymharol ddiweddar ac yn ymateb diddorol o ran diwallu anghenion bechgyn ar yr uned sydd yn aml yn rhai cymhleth. Roedd yn rhy gynnar i feirniadu effeithiolrwydd y model, ond roedd angen gwerthuso llwyddiant yr ymagwedd yn ffurfiol.

**4.40** Yn debyg i'r arolygiad blaenorol, nid oedd unrhyw ymyriadau i fechgyn ag ymddygiad rhywiol niweidiol o hyd. Roedd gan rai o'r bechgyn ddedfrydau digon hir i sicrhau eu bod yn gallu cyrchu ymyriadau o'r fath ar ôl symud i safle'r oedolion. Fodd bynnag, tra yn y Parc, nid oedd y bechgyn â throseddau rhywiol yn cael unrhyw gyfle i ystyried a rhoi sylw i'r ymddygiad a oedd wedi arwain at y ddalfa neu i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu. Er ein bod wedi nodi hyn mewn arolygiadau blaenorol, roedd nifer fach o fechgyn gyda'r troseddau hyn yn parhau i gael eu cadw yn y Parc, er na fu unrhyw gynnydd o ran dod o hyd i gefnogaeth addas ar eu cyfer.(Gweler y prif argymhelliad S43.)

## Argymhelliad

**4.41** **Dylid gwerthuso'r ymyriadau.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.47)

# Section 5. Crynodeb o argymhellion ac arfer da

Mae crynodeb isod o'r argymhellion ac enghreifftiau o arfer da sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyfeirnodau ar ddiwedd pob argymhelliad yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn y prif adroddiad.

## Prif argymhelliad

**I Wasanaeth Ieuenctid y Ddalfa a Llywodraeth Cymru**

**5.1** Dylai Gwasanaeth Ieuenctid y Ddalfa a Llywodraeth Cymru weithio gyda G4S ar frys i benderfynu sut bydd ymyriadau addas yn cael eu gweithredu ar gyfer bechgyn sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn eu hanes o droseddu. (S43)

## Prif argymhellion

**I'r cyfarwyddwr**

**5.2** Dylai'r uwch reolwyr weithio i nodi a darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i helpu'r Parc fynd i'r afael â'r lefelau uchel o drais a'u lleihau'n gyson, tra'n parhau i ddarparu cyfundrefn lawn ac adeiladol i'r bechgyn o dan ei ofal. (S41)

**5.3** Dylid cynnal cyfarfod rheoli cydraddoldeb yn rheolaidd i sicrhau bod polisi, cynllunio ac ymgynghori'n effeithiol, bod canfyddiadau ac anghenion y bechgyn yn cael sylw, a bod data monitro cynhwysfawr yn cael eu hystyried. (S42)

## Argymhelliad

**I Wasanaeth Ieuenctid y Ddalfa**

**5.4** Dylai Gwasanaeth Ieuenctid y Ddalfa weithio gydag adrannau perthnasol y llywodraeth i sicrhau bod gan yr holl fechgyn lety priodol i fynd iddo mewn da bryd cyn eu rhyddhau.(4.27)

## Argymhelliad

**I Wasanaeth Ieuenctid y Ddalfa a PECS**

**5.5** Dylid trosglwyddo bechgyn i'r ddalfa cyn gynted ag y bydd eu hachos wedi gorffen. Dylid eu trosglwyddo ar wahân i oedolion a chyrraedd y ddalfa cyn 7pm. (1.2, argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.4)

# Argymhellion

**I'r cyfarwyddwr**

### Diogelu

**5.6** Dylai'r cyfarfod diogelu misol gofnodi camau gweithredu dilynol a thystiolaeth o ddeilliannau'n gywir.(1.13)

### Dioddefwyr bwlio a bygythion

**5.7** Dylai'r uned gynnal arolwg o fechgyn y Parc, eu teuluoedd, gofalwyr ac ymwelwyr ynghylch pryderon am fwlio er mwyn hysbysu strategaeth yn y dyfodol i leihau'r nifer o achosion.(1.20)

### Atal hunanladdiad a hunan-niwed

**5.8** Dylai amlder cofnodedig y wyliadwriaeth o fechgyn ar ddogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) fod yn llai rhagweladwy. (1.28)

**5.9** Dylid cofnodi'r defnydd o gelloedd o dan wyliadwriaeth camera er mwyn monitro bechgyn mewn perygl uwch bob amser, gan gynnwys rhesymeg eglur ar gyfer eu defnyddio, ac ni ddylai fod yn hawdd i'r bechgyn eraill ar yr uned weld y sgrîn. (1.29)

**5.10** Dylai'r holl staff, gan gynnwys y staff nos, gario cyllyll torri clymau.(1.30)

### Diogelwch a gweithdrefnau disgyblu

**5.11** Dylid archwilio deilliannau'r holl weithdrefnau disgyblu (dyfarniadau a mân adroddiadau). Dylid canolbwyntio mwy ar ddadansoddi tueddiadau a nodweddion gwarchodedig gyda chamau gweithredu wedi'u monitro sy'n mynd i'r afael â phryderon. (1.49, argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.55)

### Y defnydd o rym

**5.12** Dylid ehangu'r archwiliad allanol o'r defnydd o rym ymhellach i ddarparu sicrwydd parhaol o gyfreithlondeb a chymesuredd yr holl achosion. (1.62)

**5.13** Dylai'r strategaethau lleihau ataliaeth adlewyrchu cyflwyno system lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR). (1.63)

**5.14** Ni ddylid defnyddio technegau achosi poen ar blant.(1.64)

### Gwahanu/symud o leoliad arferol

**5.15** Dylai'r ddogfennaeth ar gyfer bechgyn sydd wedi'u gwahanu nodi'n eglur y rheswm am eu gwahanu, y gefnogaeth sydd ar gael a'r camau gweithredu sydd eu hangen. (1.67)

### Unedau preswyl

**5.16** Dylai'r celloedd gynnwys toiledau wedi'u sgrinio'n llawn a chwpwrdd y gellid ei gloi sy'n gweithio, a dylai dŵr poeth fod ar gael i'r bechgyn dros nos.(2.4)

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**5.17** Dylid gwella ymgysylltu gan yr uned bobl ifanc â grwpiau amrywiaeth cymunedol, i'r lefel a gyflawnwyd gan y carchar i oedolion. (2.14, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.17)

### Gwasanaethau iechyd

**5.18** Dylid cynnal asesiad anghenion iechyd a lles cyfredol er mwyn nodi anghenion y boblogaeth yn y presennol a'r dyfodol a hysbysu'r ddarpariaeth gwasanaethau. (2.37)

**5.19** Dylai'r gwaith monitro a dadansoddi cwynion ac achosion iechyd yr uned fod yn drylwyr. Dylid hysbysebu'r system gwynion iechyd gyfrinachol a sicrhau ei bod ar gael i'r holl fechgyn yn hawdd, a dylai'r ymatebion ymdrin yn llawn â'r materion a amlygwyd. (2.38)

**5.20** Dylai'r bechgyn dderbyn eu brechiadau'n amserol. (2.39)

**5.21** Dylai amrywiaeth lawn o ymyriadau iechyd meddwl fod ar gael i'r bechgyn, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed.(2.55)

### Arlwyo

**5.22** Dylid nodi a chofnodi tymheredd y bwyd ar adeg ei weini, dylid monitro gwiriadau gweini'n cael eu cwblhau, a dylai goruchwylwyr y gweini gofnodi'r canfyddiadau'n gywir yn dilyn pob gwiriad.(2.59)

### Prynu nwyddau

**5.23** Ni ddylid codi ffi weinyddol ar y bechgyn am wneud archeb o gatalogau.(2.61)

### Addysg, dysgu a sgiliau

**5.24** Dylid cyfuno rheolaeth ddydd i ddydd dysgu a sgiliau a datblygiad tîm yn llawn trwy fonitro gofalus gan uwch reolwyr yr uned.(3.9)

### Cyn rhyddhau ac ailsefydlu

**5.25** Dylai'r pwyllgor ailsefydlu ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth cyn rhyddhau ac ailsefydlu'n seiliedig ar ddealltwriaeth gyfredol o anghenion y boblogaeth. (4.9)

**5.26** Dylai'r uned wneud mwy o ddefnydd o ryddhau ar drwydded dros dro er mwyn cefnogi cynllunio rhyddhau a chadw cysylltiadau teulu. (4.10, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.10)

### Cynllunio hyfforddiant a rheoli remánd

**5.27** Dylai pob adran sy'n gweithio gyda bachgen yn rheolaidd gael eu cynrychioli yn ei gyfarfod cynllunio hyfforddiant neu remánd i roi adborth ac atgyfnerthu cyson i'w helpu i gyflawni ei nodau unigol. (4.14)

**5.28** Dylai cofnodion y cyfarfodydd adolygu adlewyrchu'r drafodaeth yn llawn, a sut mae'r nodau a gytunwyd arnynt wedi'u cysylltu â risgiau a throseddu. (4.15)

**5.29** Dylid cael system rheoli achosion i gofnodi cynnydd bechgyn yn y ddalfa ac i hwyluso rhannu gwybodaeth ag asiantaethau cymunedol. (4.16)

**5.30** Dylai'r holl fechgyn sydd â statws derbyn gofal dderbyn cefnogaeth gyson a digonol gan eu hawdurdod lleol. (4.23, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.25)

### Cynllunio ar gyfer ailintegreiddio

**5.31** Dylai carcharorion newydd gael mynediad digonol at gyngor a chyfarwyddyd annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynllunio'r defnydd gorau o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt ar yr uned.(4.30)

**5.32** Dylai bechgyn derbyn cyngor a chyfarwyddyd cynhwysfawr ar gyllid, budd-daliadau a dyled cyn eu rhyddhau.(4.34)

**5.33** Dylid gwerthuso ymyriadau. 4.41

## Enghreifftiau o arfer da

**5.34** Roedd carcharorion newydd yn derbyn llenyddiaeth gynhwysfawr briodol i'w hoedran ynglŷn â'r uned, yn ogystal â rhaglen gynefino a oedd yn cydnabod eu hanghenion unigol ac yn eu cefnogi'n effeithiol i addasu i fywyd ar yr uned.(1.7)

**5.35** Roedd presenoldeb amlwg y rheolwyr yn ystod cyfnodau allweddol yn y gyfundrefn yn darparu hyder a chefnogaeth priodol i'r staff wrth ddelio ag ymddygiad heriol.(1.34)

**5.36** Roedd y polisi o osod carcharorion newydd ar y gyfundrefn aur yn annog ethos o ymddygiad positif ymhlith y bechgyn.(1.38)

**5.37** Roedd lawrlwytho awtomatig a chadw delweddau o'r camerâu ar y corff rhag ofn bod angen cyfeirio atynt mewn ymchwiliad pellach yn unol â'r polisi cadw data statudol. (1.56)

**5.38** Roedd y defnydd isel o wahanu parhaol a'r rheolaeth o ymddygiad heriol ar yr uned yn glodwiw. (1.68)

# Section 6. Atodiadau

## Atodiad I: Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Martin Lomas | Dirprwy brif arolygydd |
| Angus Mulready-Jones | Arweinydd y tîm |
| Ian Dickens | Arolygydd |
| Angela Johnson | Arolygydd |
| Yvonne McGuckian | Arolygydd |
| Majella Pearce | Arolygydd |
| Helen Ranns | Ymchwilydd |
| Anna Fenton | Ymchwilydd |
| Maureen Jamieson | Arolygydd gwasanaethau iechyd |
| Tom Stephenson | Arolygiaeth Iechyd Cymru (cysgodol) |
| Gill Sims | Arolygydd Estyn |
| Alun Connick | Arolygydd Estyn |
| Ian Dickson | Arolygydd Estyn |

# Atodiad II: Y cynnydd ar argymhellion o'r adroddiad diwethaf

Crynodeb yw'r canlynol o'r prif ganfyddiadau o'r adroddiad diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaethpwyd, a drefnwyd o dan y pedwar prawf carchar iach. Mae'r cyfeirnodau ar ddiwedd pob argymhelliad yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn yr adroddiad blaenorol. Os yw argymhelliad wedi'i ailadrodd yn y prif adroddiad, bydd y rhif paragraff newydd wedi'i nodi yma hefyd.

## Diogelwch

**Mae plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sy'n fwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

*Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2016, roedd traean o fechgyn y Parc yn teimlo'n anniogel. Roedd bechgyn yn cael eu cynefino'n dda, ond yn treulio gormod o amser wedi'u cloi yn eu cell yn ystod eu diwrnodau cyntaf. Roedd diffyg gafael gweithredol ar ddiogelwch. Roedd lefelau trais wedi cynyddu, roedd arferion diogelu wedi gwaethygu, ac roedd y nifer uchel o fechgyn ar ACCTau2 yn treulio cyfnodau hir wedi'u cloi yn eu celloedd. Roedd hanner y boblogaeth ar lefel isaf y cynllun gwobrau a sancsiynau, ond nid oedd hyn yn effeithiol o ran atal rhywfaint o'r ymddygiad afreolus. Ni chafodd rhywfaint o ymddygiad gwael ei herio. Roedd mesurau diogelwch yn gymesur ond roedd y defnydd o rym wedi cynyddu eto ac roedd llywodraethu'n llai cadarn. Roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n dal i fod yn dda. Nid oedd deilliannau i blant a phobl ifanc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.*

### Prif argymhellion

Dylai'r tîm rheoli uned pobl ifanc adolygu'r strategaeth gyfredol i sicrhau bod cyflawnwyr trais yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol a'u hymddygiad yn cael ei herio. Dylid coladu a dadansoddi'r holl ddata ar drais i hysbysu cynllun gweithredu perthnasol i wella diogelwch bechgyn ar yr uned. (S40)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylid sicrhau digon o staff i oruchwylio bechgyn yn ddiogel. Dylid hyfforddi a chefnogi staff i herio ymddygiad gwael yn gyson ac yn briodol. Dylai rheolwyr ar bob lefel fod yn weladwy i staff a bechgyn i fodelu'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. (S41)
**Cyflawnwyd**

Dylai rheolwyr ymchwilio'r rhesymau ynghylch canfyddiadau gwael y bechgyn am ddiogelwch. Dylid defnyddio systemau diogelu ac amddiffyn plant yn gyson. Dylid sicrhau presenoldeb da mewn cyfarfodydd strategol a chamau gweithredu i ddarparu amgylchedd diogel i'r bechgyn. Dylid cynnal ymchwiliadau allanol, wedi'u dogfennu'n dda i bob honiad o gam-drin gan staff a bechgyn eraill yn gyflym. (S39)
**Cyflawnwyd**

### Argymhellion

Dylid trosglwyddo bechgyn i'r ddalfa cyn gynted ag y bydd eu hachos wedi gorffen. Dylid eu cludo ar wahân i oedolion a chyrraedd y ddalfa cyn 7pm. (1.4)
**Heb ei gyflawni** (argymhelliad wedi'i ailadrodd, 1.2)

Dylai bechgyn dreulio mwy o amser y tu allan i'w celloedd yn ystod eu hwythnos gyntaf yn y Parc. (1.10)
**Heb ei gyflawni**

Dylid darparu gweithgareddau a chyfleoedd i ymgysylltu â staff i fechgyn mewn argyfwng. Dylai defnydd cyffredin teledu cylch cyfyng i fonitro bechgyn uchel eu risg ddod i ben. (1.35)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai adolygiadau achosion gael eu cynnal mewn amgylchedd priodol a dylent gynnwys y bachgen. Dylai bechgyn adael adolygiadau gyda dealltwriaeth am unrhyw newidiadau i'w cynllun. (1.36)
**Cyflawnwyd**

Dylid herio pob ymddygiad gwael i annog ymddygiad da drwy fodelu rôl cadarnhaol. (1.41)
**Cyflawnwyd**

Dylid adolygu'r cynllun gwobrau a sancsiynau i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson gyda chanolbwynt ar ysgogi ymddygiad da. (1.46)
**Cyflawnwyd**

Dylid teilwra adolygiadau gwobrau a sancsiynau i fechgyn ar lefel sylfaenol i anghenion yr unigolyn a rhoi cyfle i wneud cynnydd. Dylid rhoi'r cyfle i fechgyn gael eu cynnwys yn yr adolygiadau a'u gwneud yn ymwybodol o'r canlyniad. (1.47)
**Cyflawnwyd**

Dylid craffu ar ganlyniadau pob gweithdrefn ddisgyblu (dyfarniadau a mân adroddiadau). Dylid canolbwyntio mwy ar ddadansoddi tueddiadau a nodweddion gwarchodedig gyda chamau gweithredu a fonitrir i fynd i'r afael â phryderon. (1.55)
**Heb ei gyflawni** (argymhelliad wedi'i ailadrodd, 1.49)

Ni ddylid defnyddio technegau ysgogi poen ar fechgyn. (1.66)
**Heb ei gyflawni**

Dylid gwella goruchwylio defnyddio grym; dylid cwblhau adroddiadau defnyddio grym ac ôl-drafodaethau wedi digwyddiad yn gyflym; dylid defnyddio ac adolygu camerâu i'w gwisgo ar y corff fel mater o drefn; a dylid rhoi system gadarn o oruchwylio allanol mewn grym. (1.67)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Ni ddylid defnyddio staff o garchar yr oedolion fel mater o drefn i ymateb i'r digwyddiadau yn uned y plant. (1.68, argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.69)
**Cyflawnwyd**

Dylai'r bechgyn deimlo'n hyderus i adrodd am fwlio heb ofni bygythiad pellach. (1.27, argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.31)
**Cyflawnwyd**

Dylid cymryd camau priodol i ddeall canfyddiadau bechgyn mewn perthynas â chael eu trin yn annheg gan staff a chyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. (1.28)
**Cyflawnwyd**

# Parch

**Mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu trin â pharch i'w hurddas dynol.**

*Yn yr arolygiad diwethaf, ym mis Rhagfyr 2016, roedd mannau preswyl yn wael ac roedd gormod o gelloedd yn fudr. Roedd mynediad i giosgau gwybodaeth a ffonau yn y celloedd yn dal i fod yn gryfder. Roedd yr unedau'n swnllyd ac yn ddireolaeth ar adegau. Roedd perthynas ar unedau preswyl wedi gwaethygu ymhellach ac nid oedd ymddygiad gwael yn cael ei herio'n gyson. Roedd rheolaeth strategol o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn wan ac roedd diffyg ffocws ar anghenion y bechgyn. Roedd gwasanaethau ffydd yn parhau i fod yn dda. Roedd cwynion yn cael eu rheoli'n dda. Roedd gwasanaethau iechyd, yn enwedig mynediad iddynt, yn dal i fod yn dda. Nid oedd y bwyd yn boblogaidd, er bod y brecwast yn well na'r hyn rydym yn ei weld mewn safleoedd eraill. Nid oedd deilliannau i'r plant a'r bobl ifanc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.*

## Argymhellion

Dylai fod gan gelloedd awyru effeithiol. (2.5, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.12)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylid cadw'r holl gelloedd ac ardaloedd cymunedol yn lân. (2.6)
**Cyflawnwyd**

Dylid sgrinio tai bach yn llawn. (2.7, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.13
**Heb ei gyflawni**

Dylai fod gan fechgyn fynediad i gwpwrdd y gellid ei gloi. (2.8, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.14)
**Heb ei gyflawni**

Dylai rheolwyr ymchwilio a mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol bechgyn o'r staff. (2.12, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.19)
**Cyflawnwyd**

Dylid cynnal cyfarfod rheoli cydraddoldeb rheolaidd i sicrhau bod polisi, cynllunio ac ymgynghori'n effeithiol, yr eir i'r afael â chanfyddiadau ac anghenion bechgyn, ac yr ystyrir data monitro cynhwysfawr. (2.16, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.28)
**Heb ei gyflawni**

Dylid gwella ymgysylltiad gan uned y bobl ifanc â grwpiau amrywiaeth cymunedol i'r lefel sy'n cael ei gyflawni gan y carchar i oedolion. (2.17, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.29)
**Heb ei gyflawni** (argymhelliad wedi'i ailadrodd, 2.14)

Dylai mynediad i wasanaethau ffydd priodol fod yn gyfartal i fechgyn ac oedolion y Parc. (2.26)
**Cyflawnwyd**

Dylid ymchwilio pob cwyn yn drylwyr a dylai gweithdrefnau sicrhau ansawdd sicrhau y cynhwysir ymatebion digonol i gwynion bechgyn. (2.28)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai gwasanaethau iechyd gael eu hysbysu gan asesiad iechyd, lles a gofal cymdeithasol diweddar ac adborth rheolaidd gan y bechgyn. (2.38)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai pob maes clinigol fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau rheoli haint. (2.39, argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.74)
**Cyflawnwyd**

Dylid sicrhau gweithgarwch hyrwyddo iechyd systematig wedi'i gysylltu ag ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol a lleol perthnasol. (2.40)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylid cwblhau pob asesiad pecyn asesu iechyd cynhwysfawr o fewn y ffrâm amser ofynnol. (2.44)
**Cyflawnwyd**

Dylid darparu cynnyrch yn lle nicotin yn syth, gan gynnwys ar y diwrnod cyrraedd os oes angen. (2.50)
**Cyflawnwyd**

Dylai bechgyn gael mynediad i amrywiaeth briodol o ymyriadau iechyd meddwl. (2.57)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

## Gweithgarwch pwrpasol

**Mae plant a phobl ifanc yn gallu, a disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt.**

*Yn yr arolygiad diwethaf, ym mis Rhagfyr 2016, roedd amser allan y tu allan i'r gell yn waeth nag yn yr arolygiad blaenorol. Roedd rheoli dysgu a sgiliau'n dechrau gwella yn sgil cyflwyno rheolwr a chwricwlwm newydd. Roedd angen mwy o ymdrech i sicrhau bod yr holl fechgyn yn mynychu addysg ac yn cael cyfle i wneud cynnydd. Roedd darpariaeth ddigonol ac amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer yr holl fechgyn. Roedd prydlondeb yn wael. Roedd cyraeddiadau addysgol a galwedigaethol yn dda, yn debyg i ansawdd yr addysgu. Roedd bechgyn yn ymddwyn yn dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Roedd y llyfrgell yn gweithredu'n dda ac yn darparu gwasanaeth da. Roedd bechgyn yn adrodd eu bod yn cael llai o amser yn y gampfa o gymharu â'r arolygiad diwethaf. Roedd deilliannau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.*

### Argymhellion

Dylid cyflwyno cyfarfodydd tîm i adolygu cynnydd bechgyn ac i ddatblygu strategaethau tîm cyfan i gefnogi bechgyn unigol i gyflawni eu targedau dysgu. (3.15)
**Cyflawnwyd**

Dylid meincnodi cyfraddau cyrhaeddiad yn erbyn y rhai hynny mewn sefydliadau eraill. (3.16)
**Ddim yn berthnasol bellach**

Dylai fod gan swyddogion y carchar rôl weithredol i helpu bechgyn i wneud cynnydd mewn addysg. (3.17)
**Cyflawnwyd**

Dylid sefydlu dull cyffredin i staff gefnogi datblygu sgiliau ysgrifennu a rhifedd. Dylai hyn gynnwys gweithdrefnau ar gyfer monitro cynnydd bechgyn unigol i gyflawni targedau syml, tymor byr. (3.25)
**Cyflawnwyd**

Dylai pob tiwtor gynnwys llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o'u gwersi'n gyson ac yn effeithiol i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygu'r sgiliau hyn. (3.26)
**Cyflawnwyd**

Dylid gwella cyfleusterau ymarfer corff ac ystafell ddosbarth i sicrhau bod y cyfle gan fechgyn i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau yn ystod gwersi ymarfer corff craidd. (3.50, argymhelliad wedi'i ailadrodd 3.51)
**Cyflawnwyd**

# Ailsefydlu

**Mae plant a phobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned ac yn cael help effeithiol i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu.**

*Adeg yr arolygiad diwethaf, ym mis Rhagfyr 2016, roedd rheolaeth strategol o ailsefydlu wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ac yn cael ei hysbysu gan ddadansoddiad o anghenion cyfredol. Roedd gan yr holl fechgyn gynllun hyfforddiant ond nid oeddent wedi derbyn copi. Nid oedd rhai cynlluniau'n nodi ffactorau'r perygl o niwed yn ddigonol. Roedd cyfarfodydd adolygu'n cael eu rheoli'n dda gyda chyfraniadau gan weithwyr allweddol a bechgyn. Roedd amddiffyn y cyhoedd wedi'i drefnu'n dda. Roedd nifer uchel y bechgyn sy'n derbyn gofal yn cael cefnogaeth amrywiol gan awdurdodau lleol. Roedd gwaith cynllunio rhyddhau a llwybrau'n dda ar y cyfan. Roedd gwaith llety wedi gwella ond roedd angen yn parhau am ymyriadau ymddygiad troseddol pellach. Roedd gwaith gyda theuluoedd yn rhagorol. Roedd deilliannau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.*

## Argymhellion

Dylai'r uned wneud mwy o ddefnydd o ryddhau ar drwydded dros dro i gefnogi camau cynllunio rhyddhau a chynnal a chadw cysylltiadau teuluol. (4.10)
**Heb ei gyflawni** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.10)

Dylai'r holl adrannau sy'n gweithio gyda bachgen yn rheolaidd gael eu cynrychioli yn ei gyfarfod cynllunio hyfforddiant neu remánd i ddarparu adborth ac atgyfnerthiad cyson i helpu'r bechgyn i gyflawni eu nodau cytunedig. (4.15)
**Heb ei gyflawni**

Dylai'r bechgyn dderbyn copi o'u nodau a chael eu hannog i'w cyflawni rhwng adolygiadau. (4.16)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylid cyflwyno sicrhau ansawdd dogfennau cynllunio. (4.17, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.18)
**Cyflawnwyd**

Dylai bechgyn â dedfrydau penagored gael eu gosod mewn lleoliadau gwarchodol sydd â'r modd i gwrdd â'r anghenion penodol sy'n cael eu cyflwyno gan eu dedfryd. (4.21)
**Heb ei gyflawni**

Dylai pob bachgen â statws derbyn gofal dderbyn cefnogaeth gyson a digonol gan eu hawdurdod lleol. (4.25)
**Cyflawnwyd yn rhannol** (argymhelliad wedi'i ailadrodd, 4.23)

Dylai gwaith gydag adrannau eraill y llywodraeth gael ei gynnal er mwyn sicrhau bod pob bachgen sy'n gadael y ddalfa yn cael llety priodol mewn da bryd ar gyfer eu rhyddhau.
(4.29, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.32)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai bechgyn gael mynediad i wybodaeth ac arweiniad er mwyn eu galluogi i ddatblygu'r ymwybyddiaeth a sgiliau ariannol sydd eu hangen arnynt pan gânt eu rhyddhau. (4.37, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.40)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylid gwerthuso ymyriadau. (4.47, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.52)
**Heb ei gyflawni** (argymhelliad wedi'i ailadrodd, 4.41)

Dylai ymyriadau gael eu rhoi ar waith i fechgyn fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol. (4.48, argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.53)
**Heb ei gyflawni**

# Atodiad III: Proffil poblogaeth y sefydliad

*Noder: darparwyd y ffigurau canlynol gan y sefydliad a chamgymeriadau y sefydliad ei hun yw unrhyw wallau.*

**Dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl:**

| Statws | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Dedfrydwyd | 36 | 85% |
| Ar remánd | 4 | 9% |
| Carcharorion | 4 | 9% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100%** |

| Oedran | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| 15 oed | 1 | 2% |
| 16 oed | 11 | 25% |
| 17 oed | 31 | 71% |
| 18 oed | 1 | 2% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100%** |

| Cenedligrwydd | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Prydeinig | 42 | 96% |
| Gwladolion tramor | 2 | 4% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100%** |

| Ethnigrwydd | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Gwyn | | |
| Prydeinig | 28 | 65% |
| Gwyn arall | 1 | 2% |
| Cymysg | | |
| Caribïaidd gwyn a du | 2 | 4% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | | |
| Pacistanaidd | 2 | 4% |
| Du neu ddu Prydeinig | | |
| Caribïaidd | 2 | 4% |
| Affricanaidd | 2 | 4% |
| Du arall | 7 | 17% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100%** |

| Crefydd | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Enwadau Cristnogol eraill | 8 | 18% |
| Mwslim | 7 | 17% |
| Dim crefydd | 29 | 65% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100%** |

**Dedfrydwyd yn unig – hyd yr arhosiad yn ôl oedran**

| Hyd yr arhosiad | <1 mis | 1–3 mis | 3–6 mis | 6–12 mis | 1–2 flynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | | | | |
| 15 oed | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 16 oed | 0 | 0 | 4 | 3 | 1 | 8 |
| 17 oed | 4 | 5 | 8 | 8 | 1 | 26 |
| 18 oed | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **5** | **6** | **12** | **11** | **2** | **36** |

**Heb dderbyn dedfryd yn unig – hyd yr arhosiad yn ôl oedran**

| **Hyd yr arhosiad** | <1 mis | 1–3 mis | 3–6 mis | 6–12 mis | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | | | |
| 16 oed | 0 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| 17 oed | 1 | 1 | 2 | 1 | 5 |
| **Cyfanswm** | **1** | **2** | **4** | **1** | **8** |

**Nifer y DTOs yn ôl oedran a hyd y ddedfryd lawn, gan gynnwys yr amser yn y gymuned**

| **Dedfryd** | 4 mis | 6 mis | 8 mis | 10 mis | 12 mis | 18 mis | 24 mis | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | | | | | | |
| 15 oed | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 16 oed | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 5 |
| 17 oed | 3 | 0 | 3 | 0 | 3 | 5 | 3 | 17 |
| 18 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **1** | **3** | **1** | **3** | **6** | **5** | **22** |

**Nifer yr Adran 91, (dedfrydau penodol yn unig) yn ôl oed a hyd y ddedfryd**

| **Dedfryd** | 2–3 blynedd | 3–4 blynedd | 4–5 mlynedd | 5 mlynedd + | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | | | |
| 15 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 16 oed | 1 | 0 | 0 | 2 | 3 |
| 17 oed | 0 | 2 | 2 | 4 | 8 |
| 18 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **2** | **2** | **6** | **11** |

**Nifer y dedfrydau amhenodol o dan Adran 226b (dedfryd amhenodol estynedig) yn ôl oedran a hyd y ddedfryd**

| **Dedfryd** | 5–10 mlynedd | 10–15 mlynedd | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | |
| 17 oed | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **1** | **1** | **2** |

# Atodiad IV: Crynodeb o holiaduron a chyfweliadau plant a phobl ifanc

## Methodoleg yr arolwg o blant a phobl ifanc

Cynhaliwyd arolwg gwirfoddol, cyfrinachol a dienw o boblogaeth y bobl ifanc (15–18 oed) gan Arolygiaeth Carchardai EM.

### Samplo

Cynigiwyd holiaduron i'r holl bobl ifanc.

### Dosbarthu a chasglu holiaduron

Gwnaed pob ymgais i ddosbarthu'r holiaduron i ymatebwyr fesul un. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r ymchwilwyr esbonio diben yr arolwg ac ateb cwestiynau'r ymatebwyr. Roeddem hefyd yn pwysleisio bod yr arolwg yn wirfoddol ac yn rhoi sicrwydd bod yr Arolygiaeth yn gweithredu'n gyfrinachol ac yn annibynnol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu'n ysgrifenedig hefyd ar glawr blaen yr holiadur.

Cynigiwyd cyfweliadau i unrhyw unigolyn ifanc nad oedd yn gallu darllen neu ysgrifennu yn y Saesneg, neu ag anawsterau llythrennedd.

Ni ofynnwyd i ymatebwyr roi eu henwau ar eu holiadur,  er ei bod yn bosibl nodi pwy oedd wedi ysgrifennu'r ymatebion yn unol â gofynion amddiffyn plant. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, gofynnwyd i ymatebwyr selio eu holiadur wedi'i gwblhau yn yr amlen a ddarparwyd a naill ai ei gyflwyno i aelod o'r tîm ymchwil ar adeg benodol neu ei adael yn eu hystafell i'w gasglu.

Nodwyd unrhyw wrthodiadau i dderbyn holiadur ac ni wnaed unrhyw ymgais i gael eraill yn eu lle.

### Ymateb i'r arolwg

Ar adeg yr arolwg ar 16 Hydref 2017,  roedd poblogaeth o 43 unigolyn ifanc yn Uned Pobl Ifanc CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi y Parc. Gan ddefnyddio'r dull a ddisgrifir uchod, dosbarthwyd yr holiaduron i sampl o 43 o bobl ifanc.

Derbyniom gyfanswm o 39 o holiaduron wedi'u cwblhau, cyfradd ymateb o 91%.  Roedd hyn yn cynnwys un holiadur a gwblhawyd trwy gyfweliad. Gwrthododd un ymatebwr gwblhau'r holiadur ac ni ddychwelwyd tri o'r holiaduron.

| Adain/uned | Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd wedi'u llenwi |
|---|---|
| E | 19 |
| G | 20 |
| Cyfanswm | 39 |

**Cyflwyno canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg**

Ar y tudalennau canlynol rydym yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg ar gyfer uned pobl ifanc CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

Yn gyntaf, darperir dadansoddiad llawn o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r dadansoddiad llawn hwn o ganrannau, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer y cwestiynau a hidlwyd, yn cyfeirio at y sampl llawn. Mae canrannau wedi'u talgrynnu ac felly mae'n bosibl na fyddant yn dod i gyfanswm o 100%.

Rydym hefyd yn cyflwyno nifer o ddadansoddiadau cymharol. Yn yr holl ddadansoddiadau cymharol canlynol, nodir gwahaniaethau sy'n ystadegol[5] arwyddocaol â chefndir lliw. Caiff canlyniadau sy'n arwyddocaol well eu dangos â chefndir gwyrdd, a chanlyniadau sy'n arwyddocaol waeth eu dangos â chefndir glas. Os nad yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol nid oes unrhyw gefndir lliw. Mae cefndir oren wedi cael ei ddefnyddio i ddangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ym manylion cefndir y bobl ifanc.

Caiff cwestiynau a hidlwyd eu mewnoli'n glir ac mae esboniad o'u blaen am sut y maent wedi'u hidlo. Mae'r canrannau ar gyfer cwestiynau a hidlwyd yn cyfeirio at y nifer o ymatebwyr a hidlwyd i'r cwestiwn hwnnw. Ym mhob cwestiwn arall, mae'r canrannau'n cyfeirio at y sampl cyflawn. Mae pob ymateb sydd ar goll wedi cael eu hepgor o'r dadansoddiadau.

Gall y canrannau a ddangosir yn y dadansoddiad llawn fod ychydig yn wahanol i'r rhai hynny a nodir yn y dadansoddiadau cymharol. Oherwydd newidiadau i'n prosesau dadansoddi, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o ddata'n wahanol i'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer uned pobl ifanc CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn 2016.

Cyflwynir y dadansoddiadau cymharol canlynol:

- Ymatebion yr arolwg presennol o uned pobl ifanc CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn 2017 o'u cymharu ag ymatebion gan bobl ifanc a dderbyniodd arolwg ym mhob sefydliad troseddwyr ifanc arall. Mae'r cymharydd hwn yn seiliedig ar yr holl ymatebion gan arolygon pobl ifanc a gyflawnwyd mewn pum Sefydliad Troseddwyr Ifanc ers mis Ebrill 2016.
- Ymatebion yr arolwg presennol o uned pobl ifanc CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn 2017 o gymharu ag ymatebion pobl ifanc a arolygwyd yn uned pobl ifanc CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym mis Rhagfyr 2016.
- Cymhariaeth o fewn arolwg 2017 rhwng ymatebion pobl ifanc wyn a rhai o grŵp ethnig du a lleiafrifol.
- Cymhariaeth o fewn arolwg 2017 rhwng ymatebion pobl ifanc sydd wedi bod o dan ofal yr awdurdod lleol a'r rhai hynny nad ydynt wedi bod o dan ofal yr awdurdod lleol.
- Cymhariaeth o fewn arolwg 2017 rhwng ymatebion pobl ifanc ar adain E ac ymatebion pobl ifanc ar adain G.

[5] Mae gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau sampl yn un sy'n annhebygol o ddigwydd drwy siawns yn unig, ac y gellir tybio felly eu bod yn cynrychioli gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y ddwy boblogaeth. Er mwyn addasu'r gwerthoedd p yn briodol yn sgil profion niferus, ystyriwyd bod $p<0.01$ yn arwyddocaol yn ystadegol ar gyfer yr holl gymariaethau a wnaethpwyd. Mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd bod y gwahaniaeth yn digwydd drwy siawns yn ddim ond 1%.

# Crynodeb o'r arolwg

## ADRAN 1: AMDANOCH CHI

**C1 Faint yw'ch oed?**

| | |
|---|---|
| *15* | 0 (0%) |
| *16* | 12 (32%) |
| *17* | 22 (59%) |
| *18* | 3 (8%) |

**C2 Ydych chi'n ddinesydd Prydeinig?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 36 (97%) |
| *Nac ydw* | 1 (3%) |

**C3 Ydych chi'n deall Saesneg llafar?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 37 (100%) |
| *Nac ydw* | 0 (0%) |

**C4 Ydych chi'n deall Saesneg ysgrifenedig?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 37 (100%) |
| *Nac ydw* | 0 (0%) |

**C5 Beth yw'ch tarddiad ethnig?**

| | |
|---|---|
| *Gwyn - Prydeinig* | 23 (62%) |
| *Gwyn - Gwyddelig* | 0 (0%) |
| *Gwyn - Arall* | 1 (3%) |
| *Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd* | 1 (3%) |
| *Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd* | 3 (8%) |
| *Du neu Ddu Prydeinig - Arall* | 1 (3%) |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd* | 0 (0%) |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd* | 3 (8%) |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd* | 0 (0%) |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd* | 0 (0%) |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Arall* | 0 (0%) |
| *Hil gymysg - Caribïaidd Gwyn a Du* | 4 (11%) |
| *Hil gymysg - Affricanaidd Gwyn a Du* | 0 (0%) |
| *Hil gymysg - Gwyn ac Asiaidd* | 0 (0%) |
| *Hil gymysg - Arall* | 1 (3%) |
| *Arabaidd* | 0 (0%) |
| *Grŵp ethnig arall* | 0 (0%) |

**C6 Beth yw'ch crefydd?**

| | |
|---|---|
| *Dim* | 22 (59%) |
| *Eglwys Loegr* | 6 (16%) |
| *Catholig* | 3 (8%) |
| *Protestannaidd* | 0 (0%) |
| *Enwad Cristnogol arall* | 0 (0%) |
| *Bwdhydd* | 0 (0%) |
| *Hindŵ* | 0 (0%) |
| *Iddewig* | 0 (0%) |
| *Mwslim* | 6 (16%) |
| *Sikh* | 0 (0%) |

**C7 Ydych chi'n ystyried eich hun i fod yn Sipsiwn/Romani/Teithiwr?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 3 (8%) |
| *Nac ydw* | 29 (78%) |
| *Ddim yn gwybod* | 5 (14%) |

**C8 A oes gennych unrhyw blant?**

| | |
|---|---|
| *Oes* | 1 (3%) |
| *Nac oes* | 37 (97%) |

**C9 Ydych chi'n ystyried eich hun fel bod yn anabl?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 9 (24%) |
| *Nac ydw* | 29 (76%) |

**C10 Ydych chi erioed wedi bod o dan ofal yr awdurdod lleol?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 10 (31%) |
| *Naddo* | 22 (69%) |

## ADRAN 2: AM EICH DEDFRYD

**C1 Ydych chi wedi cael eich dedfrydu?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 30 (81%) |
| *Naddo - heb dderbyn dedfryd/ar remánd* | 7 (19%) |

**C2 Pa mor hir yw eich dedfryd (y ddedfryd DTO lawn)?**

| | |
|---|---|
| *Heb dderbyn dedfryd* | 7 (19%) |
| *Llai na 6 mis* | 6 (16%) |
| *6 i 12 mis* | 5 (14%) |
| *Mwy na 12 mis, hyd at 2 flynedd* | 9 (24%) |
| *Mwy na 2 flynedd* | 9 (24%) |
| *Dedfryd amhenodol i amddiffyn y cyhoedd (IPP)* | 1 (3%) |

**C3 Ers faint rydych wedi bod yn y sefydliad hwn?**

| | |
|---|---|
| *Llai nag 1 mis* | 7 (18%) |
| *1 i 6 mis* | 19 (50%) |
| *Mwy na 6 mis, ond llai na 12 mis* | 8 (21%) |
| *12 mis i 2 flynedd* | 4 (11%) |
| *Mwy na 2 flynedd* | 0 (0%) |

**C4 Ai dyma eich tro cyntaf yn y ddalfa mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc, cartref diogel i blant neu ganolfan hyfforddi ddiogel?**

| | |
|---|---|
| *Ie* | 27 (71%) |
| *Nage* | 11 (29%) |

## ADRAN 3: LLYSOEDD, GWASANAETHAU TROSGLWYDDO A HEBRWNG

**C1 Ar eich taith ddiweddaraf yma, a oeddech yn teimlo'n ddiogel?**

| | |
|---|---|
| *Oeddwn* | 26 (68%) |
| *Nac oeddwn* | 6 (16%) |
| *Ddim yn cofio* | 6 (16%) |

**C2 Ar eich taith ddiweddaraf yma, a oedd yna unrhyw oedolion (dros 18) neu gymysgedd o ddynion a merched yn teithio gyda chi?**

| | |
|---|---|
| *Oedd* | 17 (46%) |
| *Nac oedd* | 14 (38%) |
| *Ddim yn cofio* | 6 (16%) |

**C3 Ar eich taith ddiweddaraf yma, pa mor hir oeddech chi yn y fan?**

| | |
|---|---|
| *Llai na 2 awr* | 14 (37%) |
| *2 i 4 awr* | 17 (45%) |
| *Mwy na 4 awr* | 5 (13%) |
| *Ddim yn cofio* | 2 (5%) |

**C4 Ar eich taith ddiweddaraf yma, gawsoch chi gynnig i fynd i'r tŷ bach?**

| | |
|---|---|
| *Roedd fy nhaith yn llai na 2 awr* | 14 (37%) |
| *Do* | 4 (11%) |
| *Naddo* | 19 (50%) |
| *Ddim yn cofio* | 1 (3%) |

**C5 Ar eich taith ddiweddaraf yma, gawsoch chi gynnig rhywbeth i'w fwyta neu yfed?**

| | |
|---|---|
| *Roedd fy nhaith yn llai na 2 awr* | 14 (37%) |
| *Do* | 13 (34%) |
| *Naddo* | 10 (26%) |
| *Ddim yn cofio* | 1 (3%) |

**C6 Ar eich taith ddiweddaraf yma, sut oeddech yn teimlo i chi gael eich trin gan y staff hebrwng?**

| | |
|---|---|
| *Yn dda iawn* | 11 (29%) |
| *Yn dda* | 14 (37%) |
| *Y naill na'r llall* | 5 (13%) |
| *Yn wael* | 4 (11%) |
| *Yn wael iawn* | 1 (3%) |
| *Ddim yn cofio* | 3 (8%) |

**C7 Cyn i chi gyrraedd yma, gawsoch chi unrhyw wybodaeth i'ch helpu i baratoi ar gyfer dod yma?**

| | |
|---|---|
| *Do - ac roedd yn ddefnyddiol* | 5 (13%) |
| *Do - ond nid oedd yn ddefnyddiol* | 3 (8%) |
| *Naddo - ni dderbyniais unrhyw wybodaeth* | 26 (68%) |
| *Ddim yn cofio* | 4 (11%) |

## ADRAN 4: DIWRNODAU CYNTAF

**C1 Am faint o amser oeddech chi yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| *Llai na 2 awr* | 27 (71%) |
| *2 awr neu fwy* | 5 (13%) |
| *Ddim yn cofio* | 6 (16%) |

**C2 Pan gawsoch eich chwilio, oedd hyn wedi'i wneud mewn ffordd barchus?**

| | |
|---|---|
| *Oedd* | 23 (62%) |
| *Nac oedd* | 7 (19%) |
| *Ddim yn cofio/Ddim yn berthnasol* | 7 (19%) |

**C3 Pa mor dda oeddech chi'n teimlo y cawsoch eich trin wrth gael eich derbyn?**

| | |
|---|---|
| *Yn dda iawn* | 5 (13%) |
| *Yn dda* | 14 (37%) |
| *Y naill na'r llall* | 10 (26%) |
| *Yn wael* | 5 (13%) |
| *Yn wael iawn* | 1 (3%) |
| *Ddim yn cofio* | 3 (8%) |

**C4 Pan gyrhaeddoch yma gyntaf, ofynnodd y staff i chi a oedd angen help neu gymorth arnoch gydag unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Ddim yn cael ysmygu* | 25 (69%) | *Pryderon ariannol* | 7 (19%) |
| *Colli eiddo* | 7 (19%) | *Teimlo'n ofidus/ypset/angen rhywun i siarad â nhw* | 13 (36%) |
| *Teimlo'n ofnus* | 12 (33%) | *Problemau iechyd* | 22 (61%) |
| *Problemau yn gysylltiedig â gangiau* | 6 (17%) | *Cael rhifau ffôn* | 17 (47%) |
| *Cysylltu â'r teulu* | 17 (47%) | *Ni ofynnodd y staff i mi am unrhyw un o'r rhain* | 5 (14%) |

**C5 Pan gyrhaeddoch yma gyntaf, oedd unrhyw un o'r problemau canlynol gennych? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Ddim yn cael ysmygu* | 18 (51%) | *Pryderon ariannol* | 4 (11%) |
| *Colli eiddo* | 5 (14%) | *Teimlo'n ofidus/ypset/angen rhywun i siarad â nhw* | 6 (17%) |
| *Teimlo'n ofnus* | 6 (17%) | *Problemau iechyd* | 3 (9%) |
| *Problemau yn gysylltiedig â gangiau* | 2 (6%) | *Cael rhifau ffôn* | 6 (17%) |
| *Cysylltu â'r teulu* | 12 (34%) | *Ni chefais unrhyw broblemau* | 8 (23%) |

**C6 Pan gyrhaeddoch yma gyntaf, gawsoch chi unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Pethau ymolchi/eitemau sylfaenol* | 31 (86%) |
| *Y cyfle i gael cawod* | 19 (53%) |
| *Rhywbeth i'w fwyta* | 22 (61%) |
| *Galwad ffôn am ddim i ffrindiau/teulu* | 19 (53%) |
| *Credyd ffôn PIN* | 9 (25%) |
| *Gwybodaeth am deimlo'n bryderus/ypset* | 11 (31%) |
| *Ddim yn cofio* | 0 (0%) |
| *Ni dderbyniais yr un o'r rhain* | 1 (3%) |

**C7 O fewn eich 24 awr gyntaf yma, oedd mynediad gennych i'r bobl neu'r gwasanaethau canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Caplan* | 18 (51%) |
| *Mentor cefnogol* | 1 (3%) |
| *Childline/Y Samariaid* | 4 (11%) |
| *Siop/ffreutur y carchar* | 6 (17%) |
| *Ddim yn cofio* | 9 (26%) |
| *Nid oedd gennyf fynediad i unrhyw un o'r rhain* | 7 (20%) |

**C8 Cyn i chi gael eich rhoi o dan glo ar eich noson gyntaf, gawsoch eich gweld gan feddyg neu nyrs?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 27 (71%) |
| *Naddo* | 7 (18%) |
| *Ddim yn cofio* | 4 (11%) |

**C9 Oeddech chi'n teimlo'n ddiogel ar eich noson gyntaf yma?**

| | |
|---|---|
| *Oeddwn* | 26 (70%) |
| *Nac oeddwn* | 10 (27%) |
| *Ddim yn cofio* | 1 (3%) |

**C10 Oedd y cwrs cynefino'n sôn am bopeth roedd angen i chi wybod am y sefydliad?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi bod ar gwrs cynefino* | 2 (6%) |
| *Oedd* | 23 (66%) |
| *Nac oedd* | 8 (23%) |
| *Ddim yn cofio* | 2 (6%) |

## ADRAN 5: BYWYD POB DYDD A PHARCH

**C1 Ydych chi fel arfer yn gallu cael cawod bob dydd os ydych yn dymuno?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 31 (84%) |
| *Nac ydw* | 6 (16%) |
| *Ddim yn gwybod* | 0 (0%) |

**C2 Oes rhywun fel arfer yn ateb cloch eich cell o fewn pum munud?**

| | |
|---|---|
| *Oes* | 17 (49%) |
| *Nac oes* | 16 (46%) |
| *Ddim yn gwybod* | 2 (6%) |

**C3 Sut mae'r bwyd yma?**

| | |
|---|---|
| *Yn dda iawn* | 1 (3%) |
| *Yn dda* | 2 (5%) |
| *Y naill na'r llall* | 8 (21%) |
| *Yn wael* | 12 (32%) |
| *Yn wael iawn* | 15 (39%) |

**C4 Ydy'r siop/ffreutur yn gwerthu amrywiaeth ddigon eang o gynnyrch?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi prynu dim eto/Ddim yn gwybod* | 2 (6%) |
| *Ydy* | 15 (43%) |
| *Nac ydy* | 18 (51%) |

**C5 Pa mor hawdd yw hi i chi fynychu gwasanaethau crefyddol?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn dymuno mynychu gwasanaethau crefyddol* | 6 (17%) |
| *Yn hawdd iawn* | 7 (20%) |
| *Yn hawdd* | 5 (14%) |
| *Y naill na'r llall* | 3 (9%) |
| *Yn anodd* | 2 (6%) |
| *Yn anodd iawn* | 1 (3%) |
| *Ddim yn gwybod* | 11 (31%) |

**C6 Ydy eich credoau crefyddol yn cael eu parchu?**

| | |
|---|---|
| *Ydynt* | 10 (29%) |
| *Nac ydynt* | 4 (12%) |
| *Ddim yn gwybod/Amherthnasol* | 20 (59%) |

**C7 Ydych chi'n gallu siarad â chaplan o'ch ffydd yn breifat os ydych yn dymuno?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 20 (56%) |
| *Nac ydw* | 2 (6%) |
| *Ddim yn gwybod/Amherthnasol* | 14 (39%) |

**C8 Ydych chi'n gallu siarad â mentor cefnogol pan fo angen?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 9 (26%) |
| *Nac ydw* | 7 (20%) |
| *Ddim yn gwybod* | 19 (54%) |

**C9 Ydych chi'n gallu siarad ag aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) pan fo angen?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 7 (21%) |
| *Nac ydw* | 9 (27%) |
| *Ddim yn gwybod* | 17 (52%) |

**C10 Ydych chi'n gallu siarad ag eiriolwr (unigolyn allanol i'ch helpu) pan fo angen?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 12 (36%) |
| *Nac ydw* | 6 (18%) |
| *Ddim yn gwybod* | 15 (45%) |

## ADRAN 6: PERTHNASAU Â STAFF

**C1 Ydy'r rhan fwyaf o staff yn eich trin yn barchus?**

| | |
|---|---|
| *Ydynt* | 23 (66%) |
| *Nac ydynt* | 12 (34%) |

**C2 Os oedd problem gennych, at bwy byddech yn troi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Neb* | 9 (26%) | *Gweithiwr cymdeithasol* | 5 (14%) |
| *Swyddog personol* | 8 (23%) | *Staff gwasanaethau iechyd* | 2 (6%) |
| *Swyddog yr Adain* | 11 (31%) | *Mentor cefnogol* | 0 (0%) |
| *Athro/staff addysg* | 3 (9%) | *Unigolyn ifanc arall yma* | 8 (23%) |
| *Staff y gampfa* | 4 (11%) | *Gweithiwr achos* | 11 (31%) |
| *Caplan* | 1 (3%) | *Eiriolwr* | 0 (0%) |
| *Y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB)* | 1 (3%) | *Teulu/ffrindiau* | 21 (60%) |
| *Gweithiwr tîm troseddwyr ifanc* | 7 (20%) | *Childline/Y Samariaid* | 0 (0%) |

**C3 Ydy staff wedi sicrhau eich bod yn iawn yn bersonol yn ystod yr wythnos ddiwethaf i weld sut rydych yn ymdopi?**

| | |
|---|---|
| *Ydynt* | 17 (50%) |
| *Nac ydynt* | 17 (50%) |

**C4 Pryd cwrddoch chi â'ch swyddog personol (penodol) yn gyntaf?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi cwrdd ag ef/hi eto* | 6 (17%) |
| *Yn eich wythnos gyntaf* | 16 (46%) |
| *Ar ôl eich wythnos gyntaf* | 7 (20%) |
| *Ddim yn cofio* | 6 (17%) |

**C5 Pa mor aml rydych yn gweld eich swyddog personol (penodol)?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi cwrdd ag ef/hi eto* | 6 (18%) |
| *O leiaf unwaith yr wythnos* | 19 (58%) |
| *Llai nag unwaith yr wythnos* | 8 (24%) |

**C6 Ydych chi'n teimlo bod eich swyddog personol (penodol) yn ceisio'ch helpu?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi cwrdd ag ef/hi eto* | 6 (18%) |
| *Ydw* | 19 (56%) |
| *Nac ydw* | 9 (26%) |

## ADRAN 7: CEISIADAU A CHWYNION

**C1 Ydy hi'n hawdd gwneud cais?**

| | |
|---|---|
| *Ydy* | 22 (65%) |
| *Nac ydy* | 5 (15%) |
| *Ddim yn gwybod* | 7 (21%) |

**C2 Ydy ceisiadau'n cael eu trin yn deg?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi gwneud cais* | 7 (23%) |
| *Ydynt* | 17 (55%) |
| *Nac ydynt* | 7 (23%) |

**C3 Ydy ceisiadau'n cael eu trin yn gyflym (o fewn 7 niwrnod)?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi gwneud cais* | 7 (23%) |
| *Ydynt* | 15 (50%) |
| *Nac ydynt* | 8 (27%) |

**C4 Ydy hi'n hawdd gwneud cwyn?**

| | |
|---|---|
| *Ydy* | 22 (63%) |
| *Nac ydy* | 5 (14%) |
| *Ddim yn gwybod* | 8 (23%) |

**C5 Ydy cwynion yn cael eu trin yn deg?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi gwneud cwyn* | 8 (31%) |
| *Ydynt* | 5 (19%) |
| *Nac ydynt* | 13 (50%) |

**C6 Ydy cwynion yn cael eu trin yn gyflym (o fewn 7 niwrnod)?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi gwneud cwyn* | 8 (31%) |
| *Ydynt* | 4 (15%) |
| *Nac ydynt* | 14 (54%) |

**C7 Ydych chi erioed wedi teimlo'n rhy ofnus neu o dan fygythiad i wneud cwyn?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 6 (18%) |
| *Naddo* | 17 (52%) |
| *Erioed wedi angen gwneud cwyn* | 10 (30%) |

## ADRAN 8: GWOBRAU A SANCSIYNAU, A DISGYBLAETH

**C1 Pa lefel o'r cynllun gwobrau a sancsiynau ydych chi arni?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn gyfarwydd â'r cynllun gwobrau a sancsiynau* | 2 (6%) |
| *Uwch (uchaf)* | 13 (38%) |
| *Safonol (canol)* | 11 (32%) |
| *Sylfaenol (gwaelod)* | 8 (24%) |
| *Ddim yn gwybod* | 0 (0%) |

**C2 Ydych chi wedi cael eich trin yn deg yn eich profiad o'r cynllun gwobrau a sancsiynau?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn gyfarwydd â'r cynllun gwobrau a sancsiynau* | 2 (6%) |
| *Do* | 14 (42%) |
| *Naddo* | 14 (42%) |
| *Ddim yn gwybod* | 3 (9%) |

**C3 A yw lefelau gwahanol y cynllun gwobrau a sancsiynau'n eich annog i newid eich ymddygiad?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn gyfarwydd â'r cynllun gwobrau a sancsiynau* | 2 (6%) |
| *Ydynt* | 14 (41%) |
| *Nac ydynt* | 13 (38%) |
| *Ddim yn gwybod* | 5 (15%) |

**C4 Ydych chi erioed wedi derbyn adroddiad plentyn o dan oed ers i chi fod yma?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 14 (41%) |
| *Naddo* | 19 (56%) |
| *Ddim yn gwybod* | 1 (3%) |

**C5 Os ydych chi wedi derbyn adroddiad plentyn o dan oed, a eglurwyd y broses yn glir i chi?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi derbyn adroddiad plentyn o dan oed* | 20 (61%) |
| *Do* | 9 (27%) |
| *Naddo* | 4 (12%) |

| | | |
|---|---|---|
| **C6** | **Ydych chi wedi cael dyfarniad ('nicio') ers i chi fod yma?** | |
| | *Do* | 22 (63%) |
| | *Naddo* | 12 (34%) |
| | *Ddim yn gwybod* | 1 (3%) |
| **C7** | **Os ydych chi wedi derbyn dyfarniad ('nicio'), a eglurwyd y broses yn glir i chi?** | |
| | *Nid wyf wedi derbyn dyfarniad* | 13 (41%) |
| | *Do* | 16 (50%) |
| | *Naddo* | 3 (9%) |
| **C8** | **Ydych chi wedi cael eich atal yn gorfforol (C a R) ers i chi fod yma?** | |
| | *Do* | 19 (56%) |
| | *Naddo* | 11 (32%) |
| | *Ddim yn gwybod* | 4 (12%) |
| **C9** | **Os ydych wedi treulio noson yn yr uned gofal a gwahanu (CSU), sut cawsoch eich trin gan staff?** | |
| | *Nid wyf wedi bod i'r uned gofal a gwahanu* | 23 (70%) |
| | *Yn dda iawn* | 2 (6%) |
| | *Yn dda* | 1 (3%) |
| | *Y naill na'r llall* | 3 (9%) |
| | *Yn wael* | 1 (3%) |
| | *Yn wael iawn* | 3 (9%) |

## ADRAN 9: DIOGELWCH

| | | |
|---|---|---|
| **C1** | **Ydych chi erioed wedi teimlo'n anniogel yma?** | |
| | *Ydw* | 19 (54%) |
| | *Nac ydw* | 16 (46%) |
| **C2** | **Ydych chi'n teimlo'n anniogel ar hyn o bryd?** | |
| | *Ydw* | 7 (21%) |
| | *Nac ydw* | 26 (79%) |
| **C3** | **Ym mha ardaloedd rydych wedi teimlo'n anniogel?(Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)** | |
| | *Erioed wedi teimlo'n anniogel* | 16 (48%) |
| | *Ym mhobman* | 6 (18%) |
| | *Uned gofal a gwahanu* | 0 (0%) |
| | *Ardaloedd cymdeithasu* | 8 (24%) |
| | *Derbynfa* | 1 (3%) |
| | *Yn y gampfa* | 2 (6%) |
| | *Mewn iard ymarfer corff* | 5 (15%) |
| | *Yn y gwaith* | 0 (0%) |
| | *Mewn addysg* | 3 (9%) |
| | *Mewn gwasanaethau crefyddol* | 0 (0%) |
| | *Yn ystod amser bwyd* | 6 (18%) |
| | *Mewn gofal iechyd* | 0 (0%) |
| | *Ardal ymweliadau* | 0 (0%) |
| | *Yng nghawodydd yr adain* | 6 (18%) |
| | *Yng nghawodydd y gampfa* | 0 (0%) |
| | *Mewn coridorau/ar y grisiau* | 0 (0%) |
| | *Ar eich llawr/adain* | 4 (12%) |
| | *Wrth symud* | 5 (15%) |
| | *Yn eich cell* | 2 (6%) |

**C4 Ydych chi erioed wedi cael eich erlid gan unigolyn ifanc arall/grŵp o bobl ifanc yma (e.e. eich sarhau neu ymosod arnoch)?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 22 (63%) |
| *Naddo* | 13 (37%) |

**C5 Os ydych chi, am beth oedd y digwyddiad(au)? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Sylwadau sarhaus (amdanoch chi, eich teulu neu ffrindiau)* | 10 (29%) |
| *Cam-drin corfforol (cael eich taro, cicio neu ymosod)* | 13 (37%) |
| *Cam-drin rhywiol* | 1 (3%) |
| *Teimlo dan fygythiad neu'n ofnus* | 7 (20%) |
| *Eich pryd bwyd/eiddo'n cael ei ddwyn* | 4 (11%) |
| *Meddyginiaeth* | 0 (0%) |
| *Dyled* | 1 (3%) |
| *Cyffuriau* | 1 (3%) |
| *Eich hil neu darddiad ethnig* | 3 (9%) |
| *Eich crefydd/credoau crefyddol* | 1 (3%) |
| *Eich cenedligrwydd* | 0 (0%) |
| *Eich bod o ran wahanol o'r wlad i bobl eraill* | 3 (9%) |
| *Eich bod o gymuned Teithwyr* | 1 (3%) |
| *Eich rhywioldeb* | 0 (0%) |
| *Eich oedran* | 0 (0%) |
| *Bod gennych anabledd* | 0 (0%) |
| *Eich bod yn newydd yma* | 6 (17%) |
| *Eich trosedd* | 0 (0%) |
| *Materion yn ymwneud â gangiau* | 1 (3%) |

**C7 Ydych chi erioed wedi cael eich erlid gan staff yma (e.e. eich sarhau neu ymosod arnoch)?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 15 (44%) |
| *Naddo* | 19 (56%) |

**C8 Os do, am beth oedd y digwyddiad(au)? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Sylwadau sarhaus (amdanoch chi, eich teulu neu ffrindiau)* | 9 (26%) |
| *Cam-drin corfforol (cael eich taro, cicio neu ymosod)* | 3 (9%) |
| *Cam-drin rhywiol* | 2 (6%) |
| *Teimlo dan fygythiad neu'n ofnus* | 5 (15%) |
| *Eich pryd bwyd/eiddo'n cael ei ddwyn* | 1 (3%) |
| *Meddyginiaeth* | 0 (0%) |
| *Dyled* | 0 (0%) |
| *Cyffuriau* | 0 (0%) |
| *Eich hil neu darddiad ethnig* | 3 (9%) |
| *Eich crefydd/credoau crefyddol* | 2 (6%) |
| *Eich cenedligrwydd* | 1 (3%) |
| *Eich bod chi o ran wahanol o'r wlad i bobl eraill* | 3 (9%) |
| *Eich bod o gymuned Teithwyr* | 0 (0%) |
| *Eich rhywioldeb* | 0 (0%) |
| *Eich oedran* | 0 (0%) |
| *Bod gennych anabledd* | 0 (0%) |
| *Eich bod yn newydd yma* | 0 (0%) |
| *Eich trosedd* | 0 (0%) |
| *Materion yn ymwneud â gangiau* | 0 (0%) |
| *Oherwydd eich bod wedi gwneud cwyn* | 1 (3%) |

**C10 Os oeddech yn cael eich erlid, fyddech chi'n dweud wrth aelod o staff?**

| | |
|---|---|
| *Byddwn* | 11 (41%) |
| *Na fyddwn* | 11 (41%) |
| *Ddim yn gwybod* | 5 (19%) |

**C11 Ydych chi'n meddwl y byddai staff yn ei ystyried yn ddifrifol os byddech yn dweud wrthynt eich bod wedi cael eich erlid?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 13 (42%) |
| *Nac ydw* | 13 (42%) |
| *Ddim yn gwybod* | 5 (16%) |

**C12 Ydy gweiddi trwy'r ffenestri'n broblem yma?**

| | |
|---|---|
| *Ydy* | 12 (36%) |
| *Nac ydy* | 18 (55%) |
| *Ddim yn gwybod* | 3 (9%) |

## ADRAN 10: GWASANAETHAU IECHYD

**C1 Ydy hi'n hawdd gweld y bobl ganlynol os oes angen i chi?**

| | *Ydy* | *Nac ydy* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|
| Y meddyg | 23 (68%) | 6 (18%) | 5 (15%) |
| Y nyrs | 30 (88%) | 3 (9%) | 1 (3%) |
| Y deintydd | 22 (65%) | 8 (24%) | 4 (12%) |

**C2 Beth yw eich barn am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd yma?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf wedi bod* | 2 (5%) |
| *Yn dda iawn* | 5 (14%) |
| *Yn dda* | 15 (41%) |
| *Y naill na'r llall* | 4 (11%) |
| *Yn wael* | 11 (30%) |
| *Yn wael iawn* | 0 (0%) |

**C3 Os ydych yn cymryd meddyginiaeth, ydych chi'n cael cadw rhywfaint/y cyfan yn eich ystafell?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn cymryd unrhyw feddyginiaeth* | 13 (41%) |
| *Ydw, fy holl feddyginiaethau* | 0 (0%) |
| *Ydw, rhywfaint o'm meddyginiaethau* | 2 (6%) |
| *Nac ydw* | 17 (53%) |

**C4 Oes gennych broblemau emosiynol neu iechyd meddwl?**

| | |
|---|---|
| *Oes* | 10 (29%) |
| *Nac oes* | 24 (71%) |

**C5 Ydych chi'n derbyn help gan unrhyw un yma gyda'ch problemau emosiynol neu iechyd meddwl (e.e. seicolegydd, meddyg, cynghorydd, swyddog personol neu aelod arall o staff)?**

| | |
|---|---|
| *Nid oes gennyf unrhyw broblemau emosiynol neu iechyd meddwl* | 24 (75%) |
| *Ydw* | 6 (19%) |
| *Nac ydw* | 2 (6%) |

**C6 Oedd problemau alcohol gennych pan gyrhaeddoch yma gyntaf?**

| | |
|---|---|
| *Oedd* | 8 (24%) |
| *Nac oedd* | 25 (76%) |

**C7 Ydych chi wedi derbyn unrhyw help gyda'ch problemau alcohol yma?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 5 (15%) |
| *Naddo* | 28 (85%) |

**C8 Oedd problemau cyffuriau gennych pan gyrhaeddoch yma gyntaf?**

| | |
|---|---|
| *Oedd* | 16 (52%) |
| *Nac oedd* | 15 (48%) |

**C9 Oes problemau cyffuriau gennych nawr?**

| | |
|---|---|
| *Oes* | 3 (9%) |
| *Nac oes* | 29 (91%) |

**C10 Ydych chi wedi derbyn unrhyw help gyda'ch problemau cyffuriau yma?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 12 (38%) |
| *Naddo* | 20 (63%) |

**C11 Pa mor hawdd neu anodd ydy hi i gael cyffuriau anghyfreithlon yma?**

| | |
|---|---|
| *Hawdd iawn* | 6 (20%) |
| *Hawdd* | 1 (3%) |
| *Y naill na'r llall* | 0 (0%) |
| *Anodd* | 2 (7%) |
| *Anodd iawn* | 4 (13%) |
| *Ddim yn gwybod* | 17 (57%) |

## ADRAN 11: GWEITHGAREDDAU

**C1 Faint oedd eich oed pan oeddech yn yr ysgol ddiwethaf?**

| | |
|---|---|
| *14 neu iau* | 15 (48%) |
| *15 neu hŷn* | 16 (52%) |

**C2 Ydych chi erioed wedi eich gwahardd o'r ysgol?**

| | |
|---|---|
| *Do* | 29 (94%) |
| *Naddo* | 2 (6%) |
| *Ddim yn berthnasol* | 0 (0%) |

**C3 Oeddech chi erioed wedi chwarae triwant cyn i chi ddod i'r ddalfa?**

| | |
|---|---|
| *Oeddwn* | 26 (76%) |
| *Na* | 7 (21%) |
| *Ddim yn berthnasol* | 1 (3%) |

**C4 Ydych chi'n cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol AR HYN O BRYD? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Addysg* | 30 (88%) |
| *Swydd yn y sefydliad hwn* | 1 (3%) |
| *Hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau* | 2 (6%) |
| *Rhaglenni ymddygiad troseddol* | 7 (21%) |
| *Nid wyf yn cymryd rhan yn unrhyw un o'r rhain ar hyn o bryd* | 3 (9%) |

**C5 Os ydych chi wedi bod yn cymryd rhan yn un o'r gweithgareddau canlynol, ydych chi'n meddwl y byddant yn eich helpu pan fyddwch yn gadael y carchar?**

| | *Heb gymryd rhan* | *Ydw* | *Nac ydw* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1 (3%) | 23 (70%) | 4 (12%) | 5 (15%) |
| Swydd yn y sefydliad hwn | 9 (47%) | 3 (16%) | 2 (11%) | 5 (26%) |
| Hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau | 7 (35%) | 5 (25%) | 2 (10%) | 6 (30%) |
| Rhaglenni ymddygiad troseddol | 5 (24%) | 6 (29%) | 4 (19%) | 6 (29%) |

**C6 Ydych chi fel arfer yn cymdeithasu bob dydd?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 27 (87%) |
| *Nac ydw* | 4 (13%) |

**C7 Ydych chi fel arfer yn gallu mynd tu allan i wneud ymarfer corff bob dydd?**

| | |
|---|---|
| *Ddim eisiau mynd* | 7 (21%) |
| *Ydw* | 20 (61%) |
| *Nac ydw* | 6 (18%) |

**C8 Faint o weithiau rydych chi'n mynd i'r gampfa fel arfer bob wythnos?**

| | |
|---|---|
| *Ddim eisiau mynd* | 5 (15%) |
| *Dim* | 1 (3%) |
| *Unwaith i ddwywaith* | 18 (53%) |
| *Tair i bum gwaith* | 9 (26%) |
| *Mwy na phum gwaith* | 1 (3%) |

## ADRAN 12: TEULU A FFRINDIAU

**C1 Ydych chi'n gallu defnyddio'r ffôn bob dydd, os ydych eisiau?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 29 (91%) |
| *Nac ydw* | 3 (9%) |
| *Ddim yn gwybod* | 0 (0%) |

**C2 Ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth anfon neu dderbyn post (llythyron neu barseli)?**

| | |
|---|---|
| *Ydw* | 15 (47%) |
| *Nac ydw* | 15 (47%) |
| *Ddim yn gwybod* | 2 (6%) |

**C3 Faint o ymweliadau rydych yn eu derbyn bob wythnos fel arfer, gan deulu neu ffrindiau?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn derbyn ymweliadau* | 9 (28%) |
| *Llai nag un yr wythnos* | 8 (25%) |
| *Tua un yr wythnos* | 9 (28%) |
| *Mwy nag un yr wythnos* | 4 (13%) |
| *Ddim yn gwybod* | 2 (6%) |

**C4 Pa mor hawdd yw hi i'ch teulu a'ch ffrindiau ymweld â chi yma?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn derbyn ymweliadau* | 9 (29%) |
| *Hawdd iawn* | 4 (13%) |
| *Hawdd* | 6 (19%) |
| *Y naill na'r llall* | 2 (6%) |
| *Anodd* | 7 (23%) |
| *Anodd iawn* | 3 (10%) |
| *Ddim yn gwybod* | 0 (0%) |

**C5 Ydy eich ymweliadau fel arfer yn dechrau'n brydlon?**

| | |
|---|---|
| *Nid wyf yn derbyn ymweliadau* | 9 (28%) |
| *Ydynt* | 9 (28%) |
| *Nac ydynt* | 14 (44%) |
| *Ddim yn gwybod* | 0 (0%) |

## ADRAN 13: PARATOI AR GYFER RHYDDHAU

**C1 Ydych chi'n meddwl y bydd gennych broblem gydag unrhyw un o'r pethau canlynol, pan fyddwch yn cael eich rhyddhau? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Dod o hyd i lety* | 9 (28%) |
| *Cael lle mewn ysgol neu goleg* | 8 (25%) |
| *Cael swydd* | 16 (50%) |
| *Arian/sefyllfa ariannol* | 11 (34%) |
| *Hawlio budd-daliadau* | 5 (16%) |
| *Parhau i dderbyn gwasanaethau iechyd* | 3 (9%) |
| *Agor cyfrif banc* | 5 (16%) |
| *Osgoi perthnasau drwg* | 5 (16%) |
| *Ni fydd gen i unrhyw broblemau* | 12 (38%) |

**C2 Oes gennych chi gynllun hyfforddiant, cynllun dedfryd neu gynllun remánd (h.y. cynllun sy'n cael ei drafod yn eich cyfarfodydd DTO/cynllunio, sy'n gosod eich targedau)?**

| | |
|---|---|
| *Oes* | 18 (56%) |
| *Nac oes* | 3 (9%) |
| *Ddim yn gwybod* | 11 (34%) |

**C3 Oedd rhan gennych i ddatblygu eich cynllun?**

| | |
|---|---|
| *Nid oes gen i gynllun/nid wyf yn gwybod os oes gen i gynllun* | 14 (44%) |
| *Oedd* | 18 (56%) |
| *Nac oedd* | 0 (0%) |

**C4 Ydych chi'n deall y targedau sydd wedi'u gosod yn eich cynllun?**

| | |
|---|---|
| *Nid oes gen i gynllun/nid wyf yn gwybod os oes gen i gynllun* | 14 (44%) |
| *Ydw* | 17 (53%) |
| *Nac ydw* | 1 (3%) |

**C5 Oes gennych weithiwr achos yma?**

| | |
|---|---|
| *Oes* | 30 (91%) |
| *Nac oes* | 2 (6%) |
| *Ddim yn gwybod* | 1 (3%) |

**C6 Ydy eich gweithiwr achos wedi'ch helpu i baratoi ar gyfer eich rhyddhau?**

| | |
|---|---|
| *Nid oes gen i weithiwr achos* | 3 (10%) |
| *Do* | 14 (47%) |
| *Naddo* | 6 (20%) |
| *Ddim yn gwybod* | 7 (23%) |

**C7 Ydy eich gweithiwr cymdeithasol wedi ymweld â chi ers i chi fod yma?**

| | |
|---|---|
| *Nid oes gen i weithiwr cymdeithasol* | 10 (30%) |
| *Do* | 19 (58%) |
| *Naddo* | 4 (12%) |

**C8 Oedd rhan gennych yn yr hyn fydd yn digwydd i chi pan fyddwch yn cael eich rhyddhau?**

| | |
|---|---|
| *Oedd* | 16 (50%) |
| *Nac oedd* | 8 (25%) |
| *Ddim yn gwybod* | 8 (25%) |

**C9 Ydych chi'n gwybod pwy i gysylltu ag ef/hi i gael help gydag unrhyw un o'r problemau canlynol, cyn eich rhyddhau? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | |
|---|---|
| *Dod o hyd i lety* | 10 (36%) |
| *Cael lle mewn ysgol neu goleg* | 12 (43%) |
| *Cael swydd* | 16 (57%) |
| *Help gydag arian/sefyllfa ariannol* | 10 (36%) |
| *Help gyda hawlio budd-daliadau* | 3 (11%) |
| *Parhau i dderbyn gwasanaethau iechyd* | 6 (21%) |
| *Agor cyfrif banc* | 9 (32%) |
| *Osgoi perthnasau drwg* | 5 (18%) |
| *Nid wyf yn gwybod â phwy i gysylltu* | 9 (32%) |

**C10 Beth sydd fwyaf tebygol o'ch atal rhag troseddu yn y dyfodol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Heb fy nedfrydu* | 7 (21%) | *Bod â mentor (rhywun y gallwch ofyn am gyngor)* | 2 (6%) |
| *Dim byd, fi sy'n gyfrifol* | 7 (21%) | *Bod â gweithiwr tîm troseddwyr ifanc neu weithiwr cymdeithasol rwy'n cyd-dynnu â nhw* | 8 (24%) |
| *Gwneud ffrindiau newydd y tu allan i'r carchar* | 6 (18%) | *Cael plant* | 1 (3%) |
| *Dychwelyd i fyw gyda'm teulu* | 9 (26%) | *Bod â rhywbeth i'w wneud nad yw'n torri'r gyfraith* | 12 (35%) |
| *Cael fy lle fy hun* | 6 (18%) | *Y ddedfryd hon* | 5 (15%) |
| *Cael swydd* | 13 (38%) | *Cael lle mewn ysgol/coleg* | 8 (24%) |
| *Bod â phartner (bachgen neu ferch)* | 6 (18%) | *Siarad am fy ymddygiad troseddol gyda staff* | 2 (6%) |
| *Cadw'n glir o alcohol/cyffuriau* | 8 (24%) | *Unrhyw beth arall* | 0 (0%) |

**C11 Ydych chi eisiau rhoi'r gorau i droseddu?**

| | |
|---|---|
| *Heb fy nedfrydu* | 7 (21%) |
| *Ydw* | 20 (61%) |
| *Nac ydw* | 0 (0%) |
| *Ddim yn gwybod* | 6 (18%) |

**C12 Ydych chi wedi gwneud unrhyw beth, neu oes unrhyw beth wedi digwydd i chi yma a fydd yn golygu eich bod yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol?**

| | |
|---|---|
| *Heb fy nedfrydu* | 7 (22%) |
| *Do* | 12 (38%) |
| *Naddo* | 13 (41%) |